# ECO'R WYDDFA

RHIF 100 | CHWEFROR 1985 | Pris: 20c


## RHIFYN ARBENNIG

**Pe bai'r Eco mewn bodolaeth ganrif yn ôl, beth fyddai ei gynnwys?**

**Wel, cewch syniad go lew yn yr adroddiad sydd yn y rhifyn arbennig hwn.**

**Yr Eco ar y strydoedd yn cyfarfod â chwi'r darllenwyr – trowch i dudalennau 12 a 13 i weld eich barn, a'ch lluniau.**

# CANT!




Heb os nac onibai, dyma lun ar gyfer yr albwm 'na. O'r chwith i'r dde gwelir John Roberts a Selwyn Williams, y ddau o Lanrug, Arwel Jones, erbyn hyn o Benisarwaun ac Evan Parry o Geunant – sef y pedwar fu'n bennaf gyfrifol am fodolaeth Eco'r Wyddfa, yn bwrw golwg atgofus dros y rhifyn cyntaf. A dyma nhw, yn ôl gyda'i gilydd yn nghornel tafarn Penbont, lle buont naw mlynedd yn ôl yn trin a thrafod gyda brwdfrydedd y broses o sefydlu'r papur bro yr ydych chi'n ei ddarllen 'nawr.

Ar dudalen 3 o'r rhifyn arbennig hwn mae Arwel Jones, y golygydd cyntaf yn bwrw golwg dros y cant rhifyn – y cyfnod cynnar cyffrous, y cyfnod torri dannedd – ac yn ail-fyw yr holl brofiadau melys a chwerw a ddaeth yn sgîl ei gyfrifoldeb.

Yna trowch i dudalen 11 at John Roberts sy'n olrhain 'Canrif o Hysbysebion'. O ddarllen y ddwy erthygl cewch syniad o'r gwaith eithriadol a wnaeth John, y trefnydd hysbysebion (sy'n dal i wneud y gwaith), Sel y trefnydd gwerthiant, Arwel fel golygydd ac Ifan fel ffotograffydd. Priodol iawn, a hithau'n garreg filltir yn hanes yr Eco yw i ni, ar ran yr holl ddarllenwyr, dalu'r deyrnged sy'n ddyledus iddynt hwy a'u cydweithwyr diwyd – dienw.

Diolch o galon i chi hogia am fraenaru'r tir.

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 100**
**CHWEFROR 1985**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 77163). Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**NANT PERIS:** Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**CHWEFROR 28**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
CHWEFROR 19
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## ADRODDIADAU HEB EU RHYDDHAU I'N SYLW NI

*Annwyl Olygydd,*

*A fyddech mor garedig â chaniatáu gofod imi ddwyn sylw eich darllenwyr at rai ffeithiau diddorol ynghylch astudiaethau a gomisiynwyd mewn perthynas â chynigion Cyngor Bwrdeisdref Arfon i ddatblygu canolfan dwristaidd anferthol yng Nghlyn Rhonwy.*

*Yn ystod 1984, cynhyrchwyd adroddiad ar 'Twristiaeth yn Llanberis' gan Land Use Consultants. Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Awdurdod Datblygu Cymru a'r Bwrdd Croeso ond nid ydynt wedi gweld yn glir i'w rhyddhau i sylw'r cyhoedd yn gyffredinol hyd yma. Serch hynny, gwyddys bod awduron yr adroddiad yn mynegi AMHEUON MAWR ynghylch ymarferoldeb y syniad o ddatblygu llethr sgïo sych yng Nglyn Rhonwy.*

*Ym mis Rhagfyr, daeth yn hysbys bod astudiaeth arall gan ymgynghorwyr annibynnol, sef McAlpine Thorpe & Warrior Co., wedi'i chynhyrchu ar Glyn Rhonwy. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gyngor Arfon, Cyngor Sir Gwynedd, A.D.C. a'r Bwrdd Croeso. Dyma'r ail astudiaeth sy'n FEIRNIADOL IAWN o'r cynigion i ddatblygu llethr sgïo sych a gwestai tair seren ar y safle yng Nglyn Rhonwy. Dywed awduron yr astudiaeth hon bod y cynigion yn anymarferol yn economaidd ac yn sicr o fod yn niweidiol i gymeriad ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol y gymdeithas Gymraeg. Diddorol yw nodi bod A.D.C. yn gwrthod rhyddhau'r adroddiad hwn hefyd i sylw'r cyhoedd!*

*Mae Mudiad Adfer yn croesawu cynnwys yr adroddiadau hyn gan eu bod yn cadarnhau'r ofnau a leisiwyd gennym pan gyhoeddwyd argymhellion Adran Gynllunio Cyngor Arfon ar ddechrau'r haf diwethaf. O ganlyniad, galwn yn awr ar gynghorwyr Arfon i weithredu'n gyfrifol er lles dyfodol ein cymunedau Cymraeg trwy ddiddymu Is-Bwyllgor Glyn Rhonwy a chladdu'r cynlluniau afrealistig hyn sy'n gymaint o fygythiad i hunaniaeth Dyffryn Llanberis a'r cylch. Yn wyneb yr holl amheuon a'r dystiolaeth sy'n dangos bod twristiaeth yn niweidiol i'r gymdeithas Gymraeg, nid oes dewis i'n cynrychiolwyr etholedig ond cyfaddef anymarferoldeb ac anaddasrwydd y cynigion presennol ar gyfer Glyn Rhonwy. Ymwrthod â'r cynigion hyn yw'r unig lwybr anrhydeddus i ddiogelu unrhyw hygrededd sy'n perthyn i'w honiadau eu bod yn gweithredu i amddiffyn hunaniaeth â lles ein broydd Cymraeg.*

*Gadewch i NI sylweddoli bod gor-ddatblygu yn y maes twristaidd yn sicr o arwain at Seisnigo ein broydd Cymreiciaf. O ganlyniad, mae unrhyw gynigion i droi'r fro'n faes chwarae i Loegr yn annerbyniol. Gwaith sefydlog a pharhaol yw angen pobl Llanberis ac Arfon yn gyffredinol. Hawliwn well cynhaliaeth na'r fasnach dwristaidd sy'n bygwth troi'n Pobl yn gaethweision i ymwelwyr estron!*

*Yn gywir iawn,*
*Gareth Llwyd.*
*Llefarydd Adfer ar Dai a Chynllunio Encil,*
*Ffordd Coetmor,*
*Bethesda.*

## 'PENIGAMP'

*Annwyl Olygydd,*

*Tybed a gawn ni drwy golofnau Eco'r Wyddfa ofyn am eich cymorth i dynnu sylw eich darllenwyr i gyfres newydd BBC Cymru o'r cwis chwaraeon teledu 'Penigamp'.*

*Patrwm y gyfres yw fod angen dau aelod o glwb chwaraeon (pa bynnag gamp) i ddod i'r stiwdio yng Nghaerdydd i gystadlu yn erbyn timau eraill. Bydd gŵr amlwg o fyd chwaraeon yn gapten ar y tîm ac os bydd y tîm hwnnw yn llwyddiannus yna fe fydd yn symud ymlaen i'r rownd nesaf.*

*Fe fydd y gyfres yn cael ei recordio ym mis Mehefin a dechrau mis Gorffennaf ac os bydd diddordeb gan unrhyw glwb chwaraeon i gymryd rhan yna fe fyddwn yn dra diolchgar pe baent yn cysylltu â ni yn yr Adran Chwaraeon yn Llandaf, Caerdydd.*

*Diolch yn fawr am eich cymorth.*
*Yr eiddoch yn gywir,*
*Geraint Evans,*
*Cynhyrchydd.*
*Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.*

## CYSTADLEUAETH I FATHU ENW

*Annwyl Ddarllenwyr,*

*Yn ddiamau esgorodd ffenomenon y papurau bro ar lawer o weithgarwch yn yr iaith Gymraeg gan gynnwys sefydlu nifer o gymdeithasau cenedlaethol yn ymdrin â phynciau drwy gyfrwng yr iaith megis Clwb Mynydda Cymru a Chymdeithas Edward Llwyd.*

*Ym mis Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog i geisio lansio cymdeithas yn ymdrin â hanes diwydiant Cymru yn yr un modd. Roedd yn gyfarfod llwyddiannus. Erbyn hyn trefnwyd rhaglen ar gyfer y flwyddyn a chynhelir y cyfarfod cyntaf ym Mhlas Tan y Bwlch nos Sadwrn, Chwefror 23, gyda J. Elwyn Hughes, Bethesda yn siarad ar y testun 'Golwg ar Fro Ddiwydiannol'. Bydd hwn yn gyfarfod blynyddol cyntaf hefyd ac wrth gwrs, y mae croeso i bawb.*

*Yn ogystal, gan fod rhai yn teimlo bod yr enw Cymdeithas Hanes Diwydiant Cymru braidd yn ddi-liw, efallai cynhelir cystadleuaeth i fathu enw newydd gyda gwobr o docyn llyfr gwerth £10. Os cewch weledigaeth anfonwch at Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.*

*Gan edrych ymlaen at gystadleuaeth ddifyr a chyfarfod cyntaf llawn.*

*Yn gywir,*
*Merfyn Williams,*
*Plas Tan y Bwlch,*
*Maentwrog.*

## GŴYL GYHOEDDI EISTEDDFOD YR URDD 1986

Mae pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen a'r Cylch, 1986, wedi rhoi sêl bendith ar y trefniadau ar gyfer yr Ŵyl Gyhoeddi a fydd yn ymestyn o ddydd Sadwrn, Ebrill 27, 1985 hyd ddydd Llun, Mai 6.

Agorir yr wythnos gyda gorymdaith i lawr Stryd Fawr, Bangor a bydd rhyw ddigwyddiad bob dydd yn ystod yr wythnos hyd at ddiwrnod y cyhoeddi ddydd Lun, Mai 6 pryd y ceir gorymdaith i lawr Stryd Fawr, Bethesda. Edrychir ymlaen at wythnos i'w chofio gydag aelodau a chefnogwyr yr Urdd o ddalgylch yr Eisteddfod ac o bob rhan o Wynedd yn tyrru i Fangor a Bethesda ac i wahanol gyfarfodydd yn Llanfairfechan, Y Felinheli, Tregarth a Rhiwlas hefyd.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y RHYL A'R CYFFINIAU 1985

### Dyddiadau pwysig i gystadleuwyr ac eraill

Mae dyddiadau cau rhai cystadlaethau yn prysur nesau, rŵan. Dyma'r dyddiadau pwysig i gystadleuwyr ac eraill eu cofio. Bob blwyddyn mae llawer yn ei gadael yn rhy hwyr cyn anfon eu cyfansoddiadau i'r swyddfa.

**Ebrill 1, 1985**
Pob cyfansoddiad yn Adrannau Llenyddiaeth, Drama, Cerdd, etc. i fod yn llaw'r Trefnydd oni nodir yn wahanol am gystadlaethau arbennig.

**Ebrill 12, 1985**
Enwebiadau ar gyfer Medal Aur Pensaernïaeth ac ymgeisiadau Arddangosfa Pensaernïaeth i fod yn llaw'r Trefnydd.

**Ebrill 26, 1985**
Ffurflenni Adran Celfyddyd a Chrefft i fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Celfyddyd a Chrefft, a ffurflenni cystadlaethau 193 a 194 Adran Gwyddoniaeth i fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwyddoniaeth.

**Mai 1, 1985**
Enwau etc., a ffurflenni cais y cystadleuwyr Adrannau Adrodd, Cerdd Dant, Cerddoriaeth, Bandiau, Alawon Gwerin, Clang Clwyd, Symudiad a Dawns, ac Ambiwlans i fod yn llaw'r Trefnydd.

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

**£5** – Di-enw, Llanberis; Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig; Dilys Jones, Stryd Newton, Llanberis; Nellie Jones, Sydney, Awstralia – er cof am ei diweddar briod Hugh Alun Jones, gynt o Ceunant, Llanrug.

**£2** – Mrs C. Williams, Gwelfryn, Llanrug; Mrs J. Roberts, Elidir View, Llanrug; Mrs Ena Jones, Bod Ifor, Llanrug; Mrs Theta Owen, Bryn Tirion, Mynydd Llandegai.

**£1** – Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion, Penisarwaun; Di-enw, Tanycoed; Gwen Lloyd Roberts, Awel y Mynydd, Deiniolen; I. Morris, 8 Tai Gweledfa, Deiniolen; Mr a Mrs Ernest Jones, Deiniolen.

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

# MAE O YMA O HYD

## – meddai Arwel Jones, golygydd cyntaf ac un o sylfaenwyr yr Eco

"Dyma fo o'r diwedd" – dyna'r geiriau cyntaf a gyhoeddwyd yn yr erthygl gyntaf yn y rhifyn cyntaf o Eco'r Wyddfa, pan ymddangosodd ym mis Chwefror 1976. Gwibiodd naw mlynedd heibio fel y gwynt a chaf fy hun unwaith eto mewn sefyllfa i sgrifennu – "dyma fo o'r diwedd – y canfed rhifyn". Ydi, mae o yma o hyd, ac yn mynd o nerth i nerth. Rhaid i mi gyfaddef mai rhyddhad i mi yn bersonol yw ymddangosiad y canfedc rhifyn hwn, gan i lawer o 'wybodusion' ar y pryd ddarogan, ac efallai, yn ddistaw bach, ddymuno, bywyd byr iddo ef a'i debyg. "Fe rown ni ryw chwe blynedd iddo fo," meddai rhyw gyw o ohebydd papur newydd go adnabyddus wrthyf rhyw fis cyn ei gyhoeddi. Wel dyma nawfed blwyddyn Eco'r Wyddfa, a diddorol nodi y bu bron i'r 'papur adnabyddus' hwnnw fynd i ebargofiant ei hun yn y cyfamser.

**Ei gychwyn**

Tua mis Medi 1975 oedd hi, rhywle rhwng yr Institiwt, Llanrug a Phontrhythallt, pan gyd-gerddai Selwyn Williams, Llanrug; Evan Parry, Ceunant; John Roberts, Llanrug a minnau gan sgwrsio am dwf a phwysigrwydd papurau bro yn gyffredinol. Trafodwyd wedyn y posibilrwydd o sefydlu un yn y fro hon. Cofiaf inni benderfynu peidio â siarad am y peth, ond yn hytrach – gweithredu. Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Brynrefail, Llanrug a daeth nifer dda o drigolion y fro at ei gilydd ac yno y penderfynwyd sefydlu Papur Bro. Dilynwyd hyn gan sawl cyfarfod arall, pryd y gwahoddwyd cynrychiolwyr o Llais Ogwan a Lleu i'n cyfarwyddo. Tua'r adeg hon hefyd y rhoddodd Selwyn Griffith, Bethel, yr enw iddo – sef Eco'r Wyddfa. Penderfynwyd rhoi'r gwaith o'i argraffu i'r wasg leol – Gwasg Gwynedd. Fe'm hetholwyd i yn Olygydd Cyffredinol, Norman Williams, Waunfawr i'm cynorthwyo (gan ei fod wedi bod eisoes yn Olygydd y Dinesydd); Selwyn Williams gyda'r swydd allweddol o drefnu'r gwerthiant a'r dosbarthu; John Roberts yn swyddog hysbysebion; Evan Parry yn ffotograffydd; Dafydd Evans yn Olygydd Chwaraeon; Iwan Lloyd Williams yn drefnydd newyddion ysgolion; Jane Morris (Roberts erbyn hyn) yn gyfrifol am y dyddiadur poblogaidd; y diweddar Mr Evans, Lloc a'i briod yn gyfrifol am y dosbarthu drwy'r post; Leslie Larsen yn ysgrifennydd a chynullydd y pwyllgor sefydlu. Penodwyd y canlynol fel prif ohebwyr ardaloedd – Y Parchedig John Owen, Llanberis; Leslie Larsen, Penisarwaun; Geraint Elis, Bethel; a Robert Williams, Deiniolen. Yn ddiweddarach cafwyd gohebydd i bob pentref. Ond dyna ei gychwyn – a diddorol yw sylwi mai pump yn unig sydd yn parhau yn y gwaith – John Roberts, Iwan Lloyd Williams, Jane Roberts, Geraint Elis a Evan Parry. Rhoddodd Mrs Evans, Lloc y gorau i'r gwaith ryw ddeufis yn ôl. Rhaid nodi hefyd fod sawl dosbarthwr a gohebydd wedi parhau gyda'r gwaith o'r diwrnod y cawsant eu penodi. Credai'r rhain fel Waldo fod "mur fy maboed wrth fy nghefn ym mhob annibyniaeth barn."

**Rhag-baratoi yn wyneb rhagfarnau**

Bu'r misoedd rhagbaratoawl yn rhai gwyllt a chynhyrfus iawn. Sawl gwaith y croesodd John, Selwyn a minnau lwybrau'n gilydd yn chwilota am hysbysebwyr, gwerthwyr a chyfranwyr. Buan y daeth y tri ohonom i'r casgliad fod y dasg yn un anodd a llafurus ond yn bleserus serch hynny. Nid gorchwyl hawdd oedd argyhoeddi trigolion y fro o'n babi newydd. "Oedd hi'n werth talu'r holl arian i hysbysebu ynddo? Oedd o'n werth 8 geiniog a ninnau'n cael ein newyddion yn wythnosol yn y Caernarvon and Denbigh? Papur Welsh Nash ydi o! Faint o bres ma'r diawliaid yn ei bocedu?" Anhygoel, meddech chi heddiw – ond gwir pob gair meddwn innau! Dyna ond rhai o'r rhagfarnau oedd yn rhaid eu goresgyn.

A'u goresgyn a wnaethom, gan i mi ymdynghedu i weithredu yn hytrach na siarad. Dyna, efallai, sut yr oeddwn mewn sefyllfa erbyn y 25ain rhifyn i gyhoeddi fod yr Eco yn gwerthu rhwng 2,500 a 2,600 o gopïau ac amcangyfrifir fod rhwng 7 ac 8 mil yn ei ddarllen. Priodolais y llwyddiant yma i Selwyn Williams a'i dîm o werthwyr o ddrws i ddrws, ac i Wasg Gwynedd am eu diwyg cywrain. Dyma ddywedodd y Cymro amdano, "Un o bapurau bro mwyaf amrywiol ei gynnwys a gorau o ran diwyg ydi Eco'r Wyddfa ... mae hwn yn batrwm o bapur bro ar gyfer unrhyw un sydd am gychwyn papur o'r fath yn ei ardal." Oedd, roedd yr ardal wedi ei dderbyn a'r genedl yn ei werthfawrogi. Diolchaf hefyd mai'r 'werin lengar' a gyfrannodd i gynnwys ei



ECO'R WYDDFA

RHIF 1 CHWEFROR 1976 PRIS: 8c

BETH DDAW O'R YSGOL?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rainer Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg a sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.

EICH PAPUR CHI

Dyma fo o'r diwedd – papur bro plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosibilrwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 – yn ffaith.

EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiliadau o'i sefydlu. Ar ôl cael gwrs a thrafodaeth hir â chynrychiolwyr o ddau bapur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Lleu, daethpwyd i'r penderfyniad sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adrannau ac agweddau ohono.

CÂN ECO'R WYDDFA

BABI NEWYDD

LLWYFAN GWLEIDYDDOL

BABI CYMRAEG

PRYDER

AWGRYMIADAU

CEFNOGAETH CYNGHORWYR

dudalennau, ac nid y crach lenorion. Papur y bobol fu ac ydi Eco'r Wyddfa – a hir y pery hynny.


Ar ôl cyngerdd godidog gan dalentau'r fro a phlant yr ysgolion i'w lansio ac i godi arian i'w goffrau gwag, ymddangosodd y rhifyn cyntaf. Daeth 'Gwên-y-Wawr' yn dŷ prysur. Galwodd rhai gyda hen luniau diddorol, eraill gydag ysgrifau a storïau gan eu cynnig inni yn wylaidd iawn a'm siarsio bob tro i'w cywiro a'u cwtogi. Nid oedd angen. Onid oeddynt yn ddisgynyddion o'r 'gweithiwr mwyaf diwylliedig a welodd y byd?' Hysbys y dengys dyn o ba radd y bo'i wreiddyn. Daw sawl hanesyn diddorol a thro trwstan i'r cof tra'n paratoi'r rhifynnau cynnar yma.

**Yr hen deulu a'r teulu newydd**

Yr atgof mwyaf pleserus sydd gennyf fel golygydd cyntaf yr Eco yw'r 'teulu' mawr, hapus a dyfodd i gynnal breichiau'r babi newydd. Daeth yn deulu ymroddgar a gweithgar – pob un yn cario ei faich ei hun yn wirfoddol a dirwgnach ac yn cyfarfod unwaith y mis yn yr hen ysgol yn Nant Peris. Hen adeilad oer – ond ei groeso'n gynnes, gynnes. Yno y byddwn yn cyflwyno'r cynnyrch i Alwyn Elis a Gerallt Lloyd Owen. Yno y byddai'r trafod a'r tynnu coes; y cysodi a'r gosod; yr argraffu a'r plygu. Yno yr oedd Perisfab yn taflu golwg dros y proflenni. Roedd y 'bonheddwr llengar' hwn yn adnabod ei fro yn well na neb. Gwyddwn y carai Eco'r Wyddfa yn angerddol a diolchaf mai ef yn anad neb, ac yn answyddogol, a roddai sêl a bendith ar ffeithiau'r cynhyrchion. Ychydig iawn o ffeithiau anghywir a lwyddai i 'basio heibio' ei sylwadau praff. Ar noson fawr y plygu a'r dosbarthu byddai yno yn sicrhau fod tân yn y grât a bod trigolion Nant yn derbyn yr Eco cyn bod yr inc wedi sychu! Doedd gweithio i'r Eco ddim yr un fath rhywsut pan symudodd y Wasg i Cibyn yng Nghaernarfon – doedd yr awyrgylch ddim yno – doedd yno ddim grât – doedd Perisfab ddim yno. Tua'r cyfnod yma y teimlais innau drymder y baich. Ond gwyddwn serch hynny fod y dyfodol yn sicr. Yr oedd Twrog Jones a Tony Eliot wedi ymgymryd â gwaith allweddol yr Eco yn gynnar – a hwy, gyda chymorth Dafydd Whiteside Thomas (a ymunodd yn ddiweddarach) a gariodd y gwaith ymlaen.

Tra siaredir yr iaith Gymraeg, tra bydd cymdeithas yn Nyffryn Peris, a thra bydd ysgwyddau dan yr iau, fe beryn Eco'r Wyddfa.

# MAE'R BLYNYDDOEDD O DRUENI DROSODD.


pan oeddwn yn 4 dyma mam yn
dod a John i ~~yn~~ fywi ty ni
wed yn nesi dyfu yn 7 ond pan
o ni yn 6 dyyma fo yn mynd yn
flin a cas a torri drws llaee a mynd
a tois fi i gyd Dyma mam yn mynd
Dyma mam yn mynd a ni ar y tren
ac wed yn efor tacsi. Dymar plant
yn helpu ni fynd ar pram ir ty y Lloches

## 'Ni fedrwch goelio mor frwnt yr oedd ef gyda fi a'r plant."



Heddiw yn y Llys yng Nghaernarfon daeth dioddefaint Mrs. Griffiths i'r amlwg.

" 'Roedd y gwr yn gefeillgar iawn efo pobl eraill, ond ni fyddai neb yn credu mor greulon y bu efo mi a'r plant."

"Byddai yn fy nghadw'n fyr o arian a byddai yn gweiddi os na chai ei ffordd ei hun. Yr oedd y y plant yn mynd i grio ac yn cynhyrfu os byddai yn fy mygwth."

"Yr oeddwn wedi ei adael o'r blaen ond i ble fedrwch chi fynd efo tri blant? Mae fy nheulu wedi bod yn gefnogol iawn ond byddai fy ngwr yn gas wrthynt hwythau a'doeddwn i ddim eisiau creu problemau iddynt hwy."

"Un tro ar ol ffrae ddifrifol, penderfynais fy mod i a'r plant wedi cael digon o hyn. Ffonais yr Ymwelydd Iechyd, a cefais wybod am y Lloches, lle cawn fynd i fod yn ddiogel a chael amser i feddwl am y dyfodol. 'Doeddwn i ddim wedi clywed am y lle erioed o'r blaen, a doedd gen i ddim synaid syt le fyddai yno, ond roedd hi'n argyfwng arnai."

" 'Fe allwn eich helpu,' meddai llais ar y ffon. 'Dowch mor fuan ac y medrwch. Gwnewch yn siwr eich bod yn dod a'r llyfrau Lwfans Plant, Tysysgrifau Priodas, Geni ac unrhyw ddillad y byddwch eu hangen. Peidiwch a phoeni am arian, fe fydd rhywun yma i'ch helpu efo hynny, a wedyn mi gewch benderfynu beth i'w wneud nesaf.' "

"Cefais sgwrs efo'r plant ac egluro yr hyn a oeddwn yn bwriadu i wneud. Yr oeddynt yn awyddus i ddod efo mi. Cesglais y pethau oedd raid eu cael, at ei gilydd heb fawr o drafferth."

"Y diwrnod wedyn dywedais wrtho fy mod eisiau mynd a'r plant i'r clinic i weld yr Ymwelydd Iechyd. Aeth a ni yno yn y car fel arfer, er mwyn cadw ei lygaid arnom. Fe aethom i mewn trwy'r drws ffrynt ac allan trwy'r drws cefn a rhedeg fel y gwynt am y tren a chael tacsi wedyn i'r Lloches."

"Teimlais ar y pryd fod popeth yn anobeithiol ar gyfer y dyfodol. A'r ol cyrraedd y Lloches cefais baned o de gan un or merched a cyfle i ddweud y cwbl."

"Nid oeddynt yn gweld bai arnaf 'roeddent hwythau wedi cael yr un profiad. Helpodd y gweithiwr yn y Lloches fi, i gael arian gan y Nawdd Cymdeithasol, a cefais amser i feddwl a daeth fy hunan hyder yn ol yn raddol. Nid oedd hyn yn hawdd. Cymerodd amser, tua tri mis."

"Mae gennyf dy cyngor 'rwan. Rwyf yn dechrau bywyd newydd i mi ar plant. Teimlaf yn well nag y bum ers blynyddoedd."

"Byddaf yn galw yn y Lloches yn aml pan fyddai angen sgwrs, ond ar ol blynyddoedd o greulondeb mae bywyd i mi a'r plant yn ymddangos yn llawer mwy gobeithiol erbyn hyn."

Cymorth i Ferched, Ffon: Bangor 355685 (24 hours).
Dolgellau 422303; Ffestiniog 2608/2739;
Caernarfon 830827; Rhosneigr 810459.

Siaradwyr a thapiau Fidio i'w dangos:
Bangor 355685.

# THE YEARS OF MISERY ARE FINALLY OVER

> When I was 4 my mummy met John and I grew up to be 7 BUT when I was 6 he was nasty and he broke my door and TOOK MY TOYS my mummy came on THE Train and The TaXi. These children helped us get The pram in to The house it was The Refuge.

'No-one would believe the cruel things he has done to me and my children.'



The secret suffering of Mrs. Griffiths was revealed today when she was granted a decree nisi in the Caernarfon County Court.

"My husband was charming to other people and no-one would believe the cruel things he has done to me and my children".

"He always kept me short of money and shouted at me when I didn't do things his way. My children used to get really upset and cry when he threatened me in front of them".

"I had left him before, but where do you go with three children?

My family had helped as much as possible, but he was nasty with them, and I didn't want to get them involved".

"One day after a terrible row, I decided that me and the children had had enough. I phoned the Health Visitor and she told me about the Refuge where I could go and feel safe, and get myself together. I'd never been before, and didn't have any idea of what it would be like, but I was so desperate".

" 'Yes, we can help you', the voice on the end of the phone said. 'Come as soon as you can, and make sure to bring your Child Benefit book, Marraige and Birth Certificates, and any clothes you need. Don't worry about money, someone will help you to sort that out when you get here, and then you can decide what to do next.' "

"I talked to the children and explained what I was going to do. They all wanted to come. I got together the things I needed - it wasn't too difficult to hide those few things".

"The next day, I told him I had to take the children to see the Health Visitor. He took us there in the car as usual, so he could keep an eye on me.

We went straight in and out of the back door, and ran like hell to the station, then got a taxi to the Refuge".

"It all seemed so desperate, but that's how I felt. At the Refuge, one of the other women made me a cup of tea, and I poured out my problems".

"No-one blamed me as they had all been through the same thing. The Refuge Worker helped me to sort out getting some money from the D.H.S.S. and I had time to think and gradually get back my self-confidence. It wasn't easy. It took time - three months".

"Now I've got a council house. I'm making a life for me and the children. I feel better than I have done for years".

"I still visit the Refuge when I need to talk things over, but life for me and the children seems exciting and the years of suffering are over".

To contact Women's Aid, ring Bangor 355 685 (24 hours).
Help and advice also available from: Dolgellau 422 303; Ffestiniog 2608/2739: Caernarfon 830 827; Rhosneigr 810 459.

Talks and videos are also available: Phone Bangor 355685.

# LLANBERIS

**Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)**

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu aelodau o Undeb y Mamau, Eglwysi Sant Peris a Sant Padarn, pnawn dydd Mawrth, Rhagfyr 4. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Alun Hawkins. Cymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau. Pasiwyd cydymdeimlad â theuluoedd y diweddar Mrs George Parry, a Mr Evie Parry a Mrs E. Squires. Rhoddwyd y lluniaeth gan Mrs Howdle, Mrs Cheeseman a Mrs H. Hughes a diolchwyd i bawb gan Mrs Marian Roberts gyda Mrs Arvonia Evans yn eilio'r diolchiadau.

CLWB ERYRI – Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd o Glwb Eryri, nos Wener, Ionawr 4, yng Ngwesty'r Gwynedd, gyda Brython Jones yn y gadair. Rhoddwyd anerchiad gan Robert Williams, Llanrug. Llongyfarchwyd ef ar dderbvn gradd M.A. gan Goleg Prifysgol Cymru.

PARTÏON NADOLIG – Darparwyd parti Nadolig ymhob eglwys ar gyfer y plant a'r plantos. Cyn y Nadolig trefnwyd te parti i blant Nant Padarn gan famau'r plant, a chafwyd anrheg gan Santa Clos i bob un plentyn. Cafodd plant Ysgol Sul Sant Padarn eu parti yn ystod gwyliau'r Nadolig, y cyfan wedi ei drefnu gan athrawon yr Ysgol Sul. Nos Lun cafodd plant Capel Coch eu Te Parti, ac anrheg gan Santa Clos

Trefnodd pobl ifanc Capel Coch noson o Garolau a Chawl a gwnaed £20 o elw tuag at Gronfa Ethiopia.

Bore Nadolig anerchwyd cyfarfod undebol yng Nghapel Coch gan y Parch Hugh John Hughes, Jerusalem.

CERDD – Llongyfarchion i Trystan Tomos, Tŷ'r Ysgol, ar ei lwyddiant gyda theilyngdod yn arholiad piano Gradd III – dan nawdd The Royal College of Music, Llundain. Disgybl Mrs Muriel Lloyd yw Trystan.

Hefyd, ei frawd, Euron, yntau wedi llwyddo yn arholiad Gradd I gyda'r ffidil dan nawdd The Royal College of Music, Llundain. Cyrhaeddodd yntau safle uchel – llwyddo gyda theilyngdod. Ei athrawes yw Mrs Llywelyn o Fangor.

MARWOLAETHAU

**Ada Roberts**

Rhagfyr 19, yn Nghartref Cornist, Caer, bu farw Ada Morris Roberts, gweddw y diweddar Thomas Roberts, yn 81 oed. Chwarelwr ydoedd Thomas Roberts, a'i gartref yn Stryd Newton. Bu'r ddau fyw yn yr ardal am flynyddoedd, a magu tri o fechgyn, Alwyn, George, ac Arfon. Wedi i'r bechgyn adael cartref symudodd y ddau i fyw i Maes Padarn, lle bu Thomas Roberts farw. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, collodd Mrs Roberts ei golwg yn raddol, ac ar ôl peth amser gorfu iddi adael y cartref a diweddu ei hoes yng nghartref y deillion.

Bu'r teulu bach yma yn ffyddlon iawn yn Eglwys Nant Padarn, a Mrs Roberts hyd y gallai yn presenoli ei hun bob Sul. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Llanrug, a chynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Nant Padarn, gyda'r Parch John Pritchard, Abersoch, yn gwasanaethu, a Mr Aled Owen wrth yr organ. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam.

**Gwyneth Wheldon Williams**

Yn frawychus a sydyn iawn bu farw Gwyneth Wheldon Williams, Bryn Peris, Rallt Goch ar Ragfyr 23ain, yn 72 oed. Ganwyd a magwyd hi yn yr ardal, a threuliodd ei hoes yn gyflawn yn Llanberis. Priod i'r diweddar John Williams (Jac Bach) ydoedd, ac roedd iddynt bedair merch, sef Beryl, Myfi, Doreen a Freda.

Roedd yn gymeriad tawel iawn ac ers amser ni symudai lawer o'i chartref – dim ond i fynd lawr y stryd i'r siopau. Roedd yn barod ei chymwynas bob amser, ac yn gymydog tawel.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Jerusalem lle roedd y teulu wedi bod yn aelodau ffyddlon dros y blynyddoedd. Gwasanaethwyd gan y Parch Huw John Hughes, gyda Mr Robert Lloyd wrth yr organ. Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris. Boed i'r teulu i gyd dderbyn y cydymdeimlad dwysaf yn eu profedigaeth.

Dymuna Beryl, Myfi, Doreen a Freda a'r teuluoedd ddatgan eu diolchgarwch am bob gair o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth.

**Albert William Griffith**

Ar ôl deuddydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, Rhagfyr 26, bu farw Albert William Griffith, Glanffrwd, 30 Stryd Goodman. Roedd yn 63 oed, ac nid oedd wedi cartrefu yn yr ardal hon ond ers rhai blynyddoedd. Bu ef a'i briod yn gofalu am Plas Blodwel, a chyn hynny yn gofalu am y Faenol Arms, Pentir. Brodor o Ddeiniolen ydoedd ac yn fab i'r diweddar William a Mary Griffiths, Gallt-y-Foel, ac yn fab i frawd y diweddar Griffith John Griffiths, Bryn Llwyd, Stryd Newton.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Llandinorwig, Deiniolen, gyda'r Parch Aled Edwards yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i briod Daphne, ei fab Brian, a'i ddwy ferch, Jacqueline a Carol a'u teuluoedd, hefyd ei fodryb, Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd a ddibynnai lawer iawn ar ei garedigrwydd ffyddlon iddi o ddydd i ddydd.

**William Roberts**

Ar ôl ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, bu farw William Roberts, ar y 16 o Ionawr, yn 63 oed. Bu'n cwyno yn arw iawn ers amser maith, a bu gofal cyson a thyner iawn amdano gan ei briod Jean.

Un o gymeriadau mwyaf hoffus yr ardal ydoedd 'Wil Bach' fel yr adwaenai pawb ef. Mae'n sicr i chi nad oedd ganddo elyn yn unman. Roedd yn ffrind i'r plant, i'r hen ac ifanc, a phan y byddai yn medru mynd o gwmpas yr ardal roedd gwên ganddo i bawb. Ganwyd a magwyd ef yn yr ardal, ac yma y bu oddigerth y blynyddoedd y bu yn y fyddin. Wedi gadael yr ysgol aeth i'r Chwarel Fawr i brentisio i fod yn chwarelwr, ac yn ôl ei gydweithwyr roedd yn chwarelwr campus, ymhob adran o'r gwaith. Rhoddodd 27 mlynedd o wasanaeth gyda'r Frigâd Dan Leol, ac yno hefyd roedd yn uchel ei glod – am ei sirioldeb a'i gymwynasgarwch yn wyneb anawsterau lu. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â'i weddw Jean, ei ferch Sheila, a'r ddau fab Keith a Ray, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

GWELLA – Da iawn yw deall fod y pentrefwyr hynny fu'n cwyno yn o arw yn ystod gwyliau'r Nadolig, rhai yn yr ysbyty, eraill yn eu cartrefi yn radol wella, a rhai fu'n yr ysbyty, wedi dychwelyd adref. Dymuniad dechrau'r flwyddyn iddynt oll – adferiad llwyr yn fuan iawn:

Mrs Blodwen Evans, Caledfryn; Mrs Mary Thomas, Ffordd Tŷ Du; Mrs Gracie Davies, Woodford; Miss Morfudd Williams, Gwenallt, Stryd Newton; Mrs Annie Jones, Stryd Newton, Mrs Maggie Price, Stryd Siarlot; Owen Davies, Stryd yr Wyddfa; Mrs Megan Lloyd Williams, Stryd y Dŵr; Mrs Lowri Davies, Maes Padarn; Hugh Curig Owen, Maes Eilian; Mrs Betty Graham, 42 Dôl Elidir (y rhain yn Ysbyty Gwynedd); Mr Joe Thorne, Dôl Elidir; Mr Iorwerth Prydderch, Teras y Cae, Stryd Goodman; Mrs Roberts, Tŷ Newydd, Clegir.

RHEDEG – Llongyfarchiadau i Paul a Linda Prydderch ar ennill y ras redeg dan 12 oed yn Llannerch-y-medd; a Julie Bayliss yn ail, ac Eirian Roberts yn drydedd.

CYNGERDD – Cynhaliwyd Cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn gan Gantorion Llanberis dan arweiniad Mrs Linda Griffiths, Dolafon. Yr unawdydd oedd Miss Julie Wynne gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Cafwyd cyfraniad hefyd gan Miss Rhian Owen a Mrs Roberta Griffiths, a pharti o blant o'r ardal.

Y Parch Alun Hawkins fu'n darllen rhannau o'r Ysgrythur.

Gwir fwynhawyd y Noson o Ganu Carolau gan blant Ysgol Dolbadarn dan arweiniad Mrs Eirlys Pierce, a Mrs Gwen Hughes yn cyfeilio, a'r darlleniadau gan blant yr ysgol.

CASGLIAD ARBENNIG – Yn ystod wythnosau diwethaf yr hen flwyddyn brawychwyd Miss Maggie Jones (y ddiweddar Miss Maggie Jones erbyn hyn), Islynne, Y Stryd Fawr, pan dorrodd rhywun neu rywrai i fewn i'w chartref a lladrata. Fe wnaed hyn eilwaith, a'r weithred atgas yn creu ofn i bawb o'r henoed oedd yn byw ar ben eu hunain.

Ar ôl trafodaeth ymysg rhai o aelodau Pwyllgor yr Henoed, penderfynwyd gwneud rhyw gasgliad bach a'i gyflwyno i Miss Jones. Ond, cyn medru gwneud hyn bu hi farw yn yr ysbyty. Wedi ymgynghori â'r teulu ac iddynt ddiolch i Glwb yr Henoed am eu meddwlgarwch, crybwyllwyd ganddynt y carent i'r arian a gasglwyd gael ei gyflwyno i ryw achos lleol er budd i'r pentrefwyr yn y dyfodol.

Deallwyd fod cronfa arbennig yn yr ardal dan Lywyddiaeth Dr Dan Hughes, pryd y gall pensiynwyr gael eu cynorthwyo ar achlysuron arbennig. Trosglwyddwyd yr arian gan Mrs Gwyneth Clarke, Trysorydd Pwyllgor yr Henoed i Dr Hughes yn y Clinic. Y swm ydoedd £59.50.

DYWEDDÏO – Estynnir llongyfarchiadau i Adrian, mab Mr a Mrs Wakeham, Stryd Newton a Gwenfair, merch Mr a Mrs Shipley, Rhosddu, Llanrug ar eu dyweddïad ar Ionawr 5.

PENBLWYDD – Llongyfarchiadau i Sandra Jane Foulkes, 9 Dôl Elidir, ar ddathlu ei phenblwydd yn un ar hugain oed.

LLONGYFARCHIADAU i Paula Jones, Ael-y-Bryn, Stryd Newton ar ei dyweddïad â Gwynfor Lloyd Roberts, 18 Y Garreg, Groeslon.

LLONGYFARCHIADAU i Owain Gwyn Griffith, Llwyn Piod ar ddathlu ei benblwydd yn 21 ar Ionawr 12. Ein dymuniadau gorau iddo.

LLONGYFARCHIADAU i Nia Gwyn Griffith, Llwyn Piod a Lisa Rudkin, Gerafon ar gael eu dewis i fynd i Ddosbarthiadau Meistr 'Mathemateg ar gyfer Pobl Ifanc'. Trefnir y penwythnosau gan Adrannau Mathemateg Coleg y Brifysgol, Bangor.

DYMUNA Owain Gwyn a Vera Griffith ddiolch o galon i'w teulu a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd Owain ar achlysur ei benblwydd yn 21.

DYMUNA Mrs Delia Parry, Plas Tirion, ddiolch o galon i'w theulu a chyfeillion am y caredigrwydd a amlygwyd iddi wedi ei damwain. Dymunwn ninnau wellhad buan i Mrs Parry.

DYMUNA Mrs Jean Roberts, 13 Stryd Goodman, a'r teulu ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Grace Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch ar golli ei thad.

Hefyd cydymdeimlwn â Mr Gareth Reynolds, 15 Stryd Goodman, ar golli ei fam.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ragfyr 13, dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Y wraig wadd oedd Miss Heather Roberts, Llanberis. Dangosodd sut i addurno teisen Nadolig, a hi roddodd Foncyff Nadolig fel gwobr i'r Raffl. Fe'i enillwyd gan Mrs Jan Davies. Enillydd raffl y mis oedd Mrs Martha Hughes.

Diolchwyd i Miss Roberts a'r gwestwragedd gan Mrs Jean Elis a Mrs Betty Humphreys. Y gwestwragedd oedd Mrs Glenys Jones, Mrs Betty Jones, Mrs Mair Jones a Mrs Martha Hughes. Rhannwyd y mins-peis gan y gwestwragedd, a chawsant eu gwerthfawrogi gan yr aelodau.

PELDROED LLANBERIS – Enillydd y Ras Pram mewn amser o 12 munud 47 eiliad oedd John Ifor a Dic Williams. Roedd yr amser yma yn record.

Diolch i'r rhai a roddodd y gwobrau.

Dyma rifau ac enillwyr Raffl Nadolig 1984 Peldroed dan 18 oed Llanberis:

1. £25 (1689) Steven Thomas, 89 Maes Padarn, Llanberis.
2. £10 (3806) D.E.J., 5 Ffordd Hyfrydle, Talysarn.
3. £5 (2017) J.H. Jones, 2 Bryn Golau, Llanberis.

*(Parhad ar dudalen 5)*

**E.W.Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

Ffôn: 870202

**TREFNWYR ANGLADDAU**

**CEIR AR GYFER PRIODASAU**

**GWASANAETH TACSI**

# LLANBERIS
## (parhad)

4. Port (1905) C. Saynor, 42 Maes Padarn, Llanberis.
5. Sieri (3876) John Roberts, d.o. Swyddfa'r Post, Caernarfon.
6. Gwin (2946) Andrew Griffith, 7 Llain Wen, Llanberis.
7. Siocled (0439) Cled Jones, Minffordd, Llanberis.
8. Cyw Iâr (3263) Evan Thomas, 89 Maes Padarn.
9. Teisen Nadolig (0038) Robin, 430 Ferodo.
10. Martini – (0877) Eileen Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug.
11. Siocled (3296) G. Ellis, d.o. Cwellyn, Caernarfon.
12. Sieri (1357) Alwyn, Tŷ'r Ysgol, Llanberis.
13. Tun Bisgedi (1658) V.W. Thomas, 89 Maes Padarn.
14. Port (0808) David Parry, 3 Tai Gwyrfai, Deiniolen.
15. Gwin (0161) Gerald, ABC.
16. Sigarennau (1122) Margaret Rees Jones, London House, Llanberis.

**YSGOL DOLBADARN**

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Jane Roberts (Athrawes) ar ei phriodas. Dymunwn bob hapusrwydd iddi hi a'i phriod i'r dyfodol.

CASGLIAD Y DEILLION – Gwnaed y Casgliad Blynyddol yn yr ysgol a hefyd yn y Gwasanaeth o Naw Llith a Charolau a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Padarn. Eleni fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £93. Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achos teilwng hwn.

DIDDORI'R HENOED – Brynhawn dydd Mercher, Ionawr 9, aeth Côr yr Ysgol gyda Mrs E. Pierce, arweinydd, Mrs G. Hughes, cyfeilydd, a'r prifathro i ddiddori'r henoed yng Nghanolfan Dyddiol yr Henoed, ym Maesincla, Caernarfon.

Canwyd nifer o garolau newydd gan y côr ac fe ddarllenwyd rhannau o'r Ysgrythurau gan rai o'r plant. Mwynhawyd y prynhawn yn fawr gan yr Henoed yn ogystal â'r plant a'r athrawon. Diolch yn fawr i Staff y Ganolfa am ddarparu lluniaeth mor flasus i'r plant ar ddiwedd y cyfarfod.

GWNEUD TÂP CASSETTE – Ychydig ddyddiau cyn i'r ysgol gau am Wyliau'r Nadolig gwnaed tâp cassette o Gôr yr Ysgol yn canu carolau. Drwy gymorth Cwmni Recordio Sain llwyddwyd i gynhyrchu dau gant o'r tapiau. Profodd y fenter yn un lwyddiannus a phoblogaidd iawn yn y fro, a bu cryn ofyn am y tapiau. Ond os oes rhywun angen tâp, y mae ychydig ar ôl am bris o £1.70. Diolch yn fawr i Miss Marion Davies, Athrawes, am ei llafur caled yn trefnu gwerthiant y tapiau a'u dosbarthu ynghanol prysurdeb y Nadolig.

CYDYMDEIMLAD – Yn ystod y dyddiau diwethaf daeth profedigaeth i ran dau aelod o staff yr ysgol, sef Mrs Jane Roberts, Athrawes, a Mrs D. Grace Roberts, goruchwyliwr amser cinio. Collodd Mrs Grace Roberts ei thad a Mrs Jane Roberts ei thad yng nghyfraith. Cydymdeimlwn â'r ddwy ac â'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

GWAELEDD – Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mrs Iona Jones, staff y gegin, sydd wedi bod yn wael ers dechrau'r tymor.

Balch iawn oeddem o weled Mrs Megan E. Jones, staff y gegin, yn ôl wrth ei gwaith. Bu Mrs Jones yn wael am gyfnod byr.

CROESO i ddau ddisgybl newydd i'r ysgol, sef Melvin a Matthew Powell. Maent wedi dod i fyw i Bro Glyder, Nant Peris. Mawr hyderwn y byddant yn hapus yn ein plith.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jane Roberts ddiolch o galon i'r Prifathro, staff, y plant a staff y gegin am eu rhodd haelionus ar achlysur ei phriodas. Diolch yn fawr iawn.

## RHEW PADARN 1947



Tynnwyd y llun yma ym mis Mawrth 1947, pryd y rhewodd y llyn yn gorn.

Mr a Mrs Morris Ivor Jones (gynt o Glynllifon, Ffordd Tŷ Du) sydd wedi mentro ar y rhew a Gwenda eu merch yw'r merch fach. Ymfudodd y teulu i Corby yn 1956. Bu farw Moi y llynedd, ond erbyn hynny roeddynt wedi symud tŷ ac wedi setlo yn Wrecsam lle mae Gwenda wedi ymgartrefu hefyd, hithau erbyn hyn gyda'i theulu ei hun, bachgen a merch.

Cafwyd benthyg y llun gan Miss Morfudd Williams, Gwenallt, Stryd Newton.

## CYFAREDD Y PLANT



*Enillodd ŵyr ac wyres Mrs Betty Williams a'r diweddar Gynghorydd Trefor W. Williams, 4 Coed y Glyn, wobr mewn cystadleuaeth 'Charm of Childhood' a drefnwyd gan eu papur newydd lleol yn Timperley. Yn y llun gwelir Timothy (2 a hanner oed) a Katie (5) gyda'u mam, Mrs Kevin Paul Wyn Williams.*


**W.H. JONES**

Trydanwr

**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati


# PRIODAS GOHEBYDD



*Rhagfyr 29 — dyna ddyddiad pwysicaf y flwyddyn yn nyddiadur Jane — sef diwrnod ei phriodas â Keith Roberts, 13 Stryd Goodman. Jane yw gohebydd yr Eco yn Llanberis — a hi yw trefnydd dyddiadur y mis o'r cychwyn. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.*

*Dymuna Jane a Keith ddiolch o galon i'w teuluoedd, cymdogion a chyfeillion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd.*

# LLYNNOEDD

**Yn sŵn yr Heidro heddiw,**
**Dan garreg las ein bro,**
**Caed Peris wedi sychu,**
**A gwyrdd ei garped gro.**

**Yn sŵn y cerbyd melyn**
**A'r bicell wrth ei gwaith,**
**Ni chlywyd corn y chwarel**
**Na'r hoelion ar eu taith.**

**Caed gwaed ar fryn y Castell**
**Flynyddoedd maith yn ôl,**
**Mor goch oedd dwfr Llyn Peris,**
**Diniwed waed ein ffôl.**

**Caed gwaed yn rhedeg eto**
**Yn aberth yn ein bro,**
**Ar allor nerth a phŵer**
**Aeth bywyd triw i'r gro.**

**Nid byth y credai undyn**
**I ddyfroedd Marchlyn mawr**
**Chwistrellu drwy bibellau**
**I fwydo'r trydan-gawr!**

**Daeth Peris eto'n las i'r lan**
**Ac fe ddaeth torgoch eto i'r fan.**
**Daeth cronfa lasddwr haidd i'r Llan,**
**A lleuad gysgod yn y man!**

**DILYS BAYLIS Ionawr 1985.**


**Y Bistro**

**45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

*Ffôn: LLANBERIS 871 278*

(Danny a Nerys Roberts)

**Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta**

# PENISARWAUN

**Gohebydd:-Mrs. Ann Evans, Sycharth (Ffôn:- Llanberis 872407)**

YSGOL TAN-Y-COED – Diolch i Siôn Corn am alw i weld y plant. Cafodd pob un anrheg ganddo.

CYNGERDD Y NADOLIG – Roedd yr ysgol dan ei sang ar gyfer y Cyngerdd, pryd y cafwyd eitemau gan blant y tri dosbarth. Casglwyd dros £40 tuag at Gronfa Ethiopia i wneud cyfanswm o £52.25 o ychwanegu cyfraniadau'r plant dros y tair wythnos flaenorol.

Cydymdeimlwn â Mrs Ann Thomas (athrawes y babanod), a'r teulu oll, o golli tad yng nghyfraith Mrs Thomas.

YR URDD – Bnawn Mercher, Rhagfyr 19, cafodd aelodau'r Urdd ddisgo Nadolig dan ofal Mr Dewi Lake. Roedd mamau'r pwyllgor wedi darparu lluniaeth ysgafn i'r plant. Diolch yn fawr iddynt.

Ar Ionawr 4ydd, aeth 33 o blant ynghyd ag athrawon a rhieni i Theatr Gwynedd i weld Panto 85 Rwj Raj. Profodd y pantomeim yn llwyddiant ysgubol a chafodd chwech o blant Penisarwaun gyfle i fynd ar y llwyfan i helpu Neigwl y Dewin (Gari Williams) i dynnu llun y Wrach Las. Diolch i Mrs Elizabeth Jones a Mrs Mary Eliot am wneud y trefniadau.

Treuliwyd awr ddiddorol yng nghwmni Miss Phyllis Elis ddydd Mercher Ionawr 16. Dangosodd ffilmiau ar Sbaen i'r plant. Diolch yn fawr iddi.

Dyma raglen mis Chwefror:
Chwefror 6 – Sleidiau a chwis
Chwefror 13 – Canolfan Hamdden 5-6 o'r gloch.
Chwefror 20 – Gwneud Crempog
Chwefror 27 – Sgwrs gan Arthur Rowlands, Caernarfon.

CAPEL BOSRA – Rhagfyr 15, bu plant yr Ysgol Sul yn ysgol Tryfan, Bangor, i fwynhau 'Dwli Dolig' dan nawdd Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Cymerodd pump ohonynt ran mewn cystadlaethau chwaraeon yn y gampfa ac roeddent yn amlwg wedi mwynhau eu hunain. Daeth gweddill y plant yno tua 4 o'r gloch i fwynhau canu a chlapio gyda'r grŵp 'Pererin'. Yn dilyn, cawsant ffilm 'Tanglewood's Secret', a lluniaeth ysgafn.

Trefnwyd rhaglen arall i'r plant hefo straeon, sgetsys a digon o amrywiaeth. Cynhelir y gwasanaeth yng nghapel Ebeneser Deiniolen, am 2 o'r gloch Chwefror 10, trefnir bws i gludo'r plant. Gwneir casgliad at y newynog yn Ethiopia.

PARTI – Diolch i'r athrawon, mamau a ffrindiau a fu mor brysur yn darparu parti Nadolig i'r plant. Ond ein diolch pennaf i Siôn Corn am gofio galw. Diolch yn fawr i chwi Santa.

Bore Sul cyn y Nadolig bu'r plant yn cynnal eu gwasanaeth Nadolig dan hyfforddiant yr athrawon. Stori Babwshca o Rwsia oedd ganddynt y bro hwn. Diolch i chwi blant am wneud eich gwaith mor ganmoladwy.

Yn y pnawn, bu'r plant yng ngwasanaeth Cristingl yn Eglwys Santes Helen. Cafodd pob un oren i'w goleuo.

EGLWYS Y SANES HELEN – Ddydd Sul Rhagfyr 23, cafwyd gwasanaeth Cristingl undebol. Mae hwn yn wasanaeth sydd bellach wedi ennill ei blwyf yn ystod y Nadolig a mawr yw ein diolch i'r Ficer a Mrs Edwards am wneud y cyfan mor liwgar trwy baratoi'r holl orenau a hefyd i athrawon yr Ysgol Sul am eu cymorth. Diolchwn hefyd i'r rhai fu'n addurno'r eglwys ac i Miss Foulkes am y goeden Nadolig a Berwyn Paterson am y goleuadau oedd arni.

Noswyl y Nadolig cafwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid a hyfryd oedd gweld cynulleidfa mor deilwng wedi dod ynghyd.

Gwelsom Santa yn Neuadd yr Eglwys brynhawn Gwener, Rhagfyr 21 yn nhe parti plant yr Ysgolion Sul lle bu'n dosbarthu anrhegion o ffrwythau ac arian i'r plant. Diolch yn fawr, Santa, ac i'r ffyddloniaid a drefnodd yr achlysur.

GYRFAON CHWIST – Diolchwn unwaith eto am y Gyrfaon Chwist sydd yn cael eu trefnu gan Mr Selwyn Griffith. Maent yn dod ag arian i'r Gronfa Atgyweirio. Bu Chwist lwyddiannus iawn nos Wener 21 Rhagfyr a bellach mae'n agos i £100 o elw wedi ei sicrhau.

ATGYWEIRIO – Bellach mae'r gweithwyr wedi gosod eu sgaffaldiau ac yn brysur yn trin y coed yn nenfwd yr Eglwys. Bydd y gwasanaethau yn cael eu cynnal yn y Neuadd dros gyfnod y gwaith hwn.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn yr amlenni a ddosbarthwyd yn ystod gwasanaeth y Cristingl. Eisoes daeth yr apêl â £150 tuag at gyfrif yr Atgyweirio.

DIOLCH – Ar ddechrau blwyddyn, fe hoffem ddiolch i'r ffyddloniaid a fu'n glanhau'r eglwys yn arbennig felly i Mrs Mary Davies am ei llafur diflino.

Cydymdeimlwn â Mrs G. Pritchard, 3 Ffrwd Madog, Brynrefail, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

GWAELEDD – Carem ddymuno adferiad iechyd i bob un sydd ag anhwylder arnynt yn ystod y tywydd oer yma.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlwn â Mrs Pritchard, Llys y Gwynt, ar golli ei chefnder yn Sir Fôn.

Rhagfyr 29, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, bu farw Mr Edward Green, Bron-y-Waun. Ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Green a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Dafydd Owen a Sharon yn eu profedigaeth o golli modryb i Helen.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs J. Gwynfryn Jones, 18 Bryntirion ar ddathlu eu priodas ruddem Ionawr 22.

Dymuniadau da i Miss Judith Green ar gyrraedd un ar hugain.

CROESO cynnes i Mr a Mrs Iorwerth Thomas a Huw, sydd wedi dod yn ôl i'w hen gynefin ac ymgartrefu ym Mron y Gaer (yr hen ficerdy).

Yr un pryd dymunwn wellhad buan i Mr. Iorwerth Thomas a gafodd ei gymryd yn wael yn fuan ar ôl symud i'w gartref newydd.

Roeddem yn falch o weld Mr Geraint Williams, Careb, adref o Bahrain, a Dylan adref o'r fyddin, i fwynhau'r Nadolig gyda'r teulu.

CRONFA NEUADD BENTREF – Nos Fercher, Rhagfyr 19, bu rhai o aelodau pwyllgor y Neuadd o amgylch y pentref yn canu carolau. Casglwyd £19.60. Diolch i bawb a ddaeth, ac i'r rhai a gyfrannodd.

DIOLCH
Dymuna Mrs. M.J. Roberts, Tai Croesion ddiolch yn fawr am y cardiau â'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn ddiweddar â'r Nadolig, ac yn enwedig i aelodau Undeb y Mamau Cwm y Glo a Llanrug am ei wneud yn benblwydd arbennig iawn. Hefyd hoffai ddiolch i'w chymdogion a fu mor garedig wrthi pan oedd yn sâl ac hefyd amser yr eira.

CLWB CANT Y NEUADD
Bellach mae 139 aelod yng Nghlwb Cant y Neuadd, ond mae croeso i aelodau newydd. Cysylltwch â Huw Williams neu Leslie Larsen am fanylion. Cafwyd noson 'Bingo' yn Neuadd yr eglwys, nos Wener, Ionawr 25. Cafwyd tua £20 o elw i gronfa'r Eco.
Enillwyr Clwb Cant, Ionawr
£15 Rhif 121, Gwilym Jones, Cân y Môr, Y Groeslon.
£10 Rhif 79, Mrs. J.M. Jones, 4 Llys y Gwynt
£5 Rhif 24, Mrs. E.Jones, Heather Bank, Penisarwaun.

DYDDIAD I'CH DYDDIADUR
Cynhelir cyngerdd gyda pharti Lleisiau'r Gweunydd (arweinydd Einir Wyn Owen) yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas, nos Fercher, Mawrth 27 am 7.30 o'r gloch. Yn ymddangos gyda'r genod bydd Gari Williams; y canwr poblogaidd Dafydd Edwards, ac Annette Bryn Parri.
Bydd tocynnau ar gael cyn bo hir gan Einir Wyn Owen (Ffôn Llanberis 872438) Cost y tocynnau fydd £1.50 i oedolion a 75c i blant a phensiynwyr.


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


## DATHLU DAU CANMLWYDDIANT YR YSGOL SUL (1785-1985)

'Datgan dyled ... Diogelu'r dyfodol'

Dyma logo y byddwch yn gweld tipyn arno eleni – logo daucanmlwyddiant yr Ysgol Sul. A'r arwyddair? 'Datgan dyled ... diogelu'r dyfodol'.

Pa ran mae eich Ysgol Sul chi'n ei gymryd, tybed? Mae taflen ar gael eisoes yn rhestru tua thri dwsin o ddigwyddiadau amrywiol ar draws Cymru.

Yr uchafbwynt fydd penwythnos ieuenctid yng Ngholeg y Bala, Mai 3-5, hefo 200 o ieuenctid o bob enwad yn dathlu efo cyflwyniad roc, rali a gweithgareddau. Ar y dydd Sadwrn, bydd rali genedlaethol yn Ysgol y Berwyn. Ydi'ch pwyllgor plant neu bwyllgor ysgol Sul chi am drefnu bws i'r Bala?

Os oes unrhyw drefniadau lleol pellach yn cael eu gwneud gyrrer y wybodaeth rhag blaen i Ysgrifennydd y Cyngor er mwyn cael taflen wybodaeth gyflawn am yr holl ddigwyddiadau drwy Gymru benbaladr:


Cyfeiriad Ysgrifennydd y Cyngor yw:
Y Parch J. Haines Davies, Goleugell, 24 Ffordd Cadwgan, Colwyn, LL29 9PY, Clwyd. Ffôn: (0492) 515463.

1785


Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwrnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)
Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad
Cerrig newydd a gwaith adnewyddu: dim ots pa mor bell
Stoc helaeth o'r cerrig gorau: dyfynbris am ddim
AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

# CHWARELWYR GER PONT BALA 1896



*Diolch i Mr John Ll. Evans, Nefyn (gynt o Gwm-y-Glo) am anfon y llun diddorol yma i'r Eco. Criw mawr o chwarelwyr ar ddiwedd diwrnod gwaith, efallai — ond beth yn union oedd yr achlysur tybed? Pwy all ein helpu?*

## SEFYDLU CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

**Annwyl Olygydd,**

**Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r llu o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa a gysylltodd â mi ynglŷn â'r mater uchod yn dilyn fy llythyr yn y rhifyn diwethaf (Eco 99). Mae'n amlwg fod brwdfrydedd mawr o blaid y syniad.**

**A wnaiff pawb sydd â diddordeb nodi y cynhelir cyfarfod cyhoedus yn Ysgol Gynradd Llanrug, am 7.30 nos Lun, Chwefror 11, 1985 i lansio'r Gymdeithas, ethol swyddogion, llunio cyfansoddiad ac ystyried rhaglen.**

**Os na allwch ddod ond eich bod yn awyddus i ymaelodi, anfonwch amlen efo'ch cyfeiriad a stamp at Gymdeithas Hanes Bro'r Eco, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, ac fe gewch fanylion yn y man.**

**Yn gywir,**
**R. John Roberts.**


## AR WERTH

**TŶ AR WERTH**
**3 Green Terrace, Deiniolen. Cysylltwch â Ieuan Morris, 8 Tai Gweledfa, Deiniolen.**

**2 gadair esmwyth lliw brown a mwstard. Ffôn: Llanberis 870695.**

**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**
(Richard a Meirwen Thomas)
**Llanrug**
*Ffôn:* CAERNARFON 4652


## ANRHYDEDD I ŴR A FAGWYD YN NEINIOLEN

Cafodd fy nghefnder, y Parch R. Berwyn Roberts, sy'n byw yn Vancouver, Canada ers dros chwarter canrif ac yn weinidog gyda'r Wesleaid ond yn awr wedi ymddeol, yr anrhydedd yn yr Hydref y flwyddyn ddiwethaf o bregethu yng Nghymanfa Ganu Undebol Canada a'r America oedd yn cael ei chynnal yn Portland, Oregon.

Braint fawr iawn oedd iddo gael yr anrhyedd hon, gan fod cannoedd yn tyrru yno. Mae fel ein Eisteddfod Genedlaethol ni yn cael ei chynnal mewn gwahanol leoedd bob blwyddyn. Yr wythnos ddiwethaf cefais bapur o'r enw 'Ninnau', oedd yn cynnwys yr ysgrif hon yn Saesneg. Y Cymry sydd yn Vancouver sy'n casglu at ei gilydd ac yn hel y newyddion yn debyg i'r papurau Bro a gyhoeddir yn ein gwahanol ardaloedd ni.

Roedd y ganmoliaeth a roddwyd i Berwyn yn ddiddiwedd. Arweinydd y Gymanfa oedd Mr Noel John, o Landeilo, de Cymru. Mab Mr a Mrs Tom Roberts, 7 Ffordd y Gogledd, Deiniolen a brawd Jack Maldwyn a Will oedd Berwyn, y cwbl bellach wedi marw ond y fo. Bu ef a'i wraig drosodd yn 1983 am y tro cyntaf er eu hymfudiad. Roedd ganddo un mab, ei unig blentyn, oedd yn Fargyfreithiwr yn Prince George rhyw 500 milltir o Vancouver ac roedd yn sâl pan oedd ei rieni yma, ond bu farw o'r Cancr yn fuan iawn ôl ddychwelyd ac yntau ond rhyw 35 oed gan adael gwraig a dau fachgen bach.

Dyma gyfieithiad o gynnwys y Papur.

"Dechreuwyd oedfa'r bore yn ystafell adloniant Gwesty'r Marriott gyda chynulleidfa gre, gan fod lleoliad yr adeilad yn ei gwneud yn hawdd i'r dyrfa gyrchu ato er y dywedai llawer yr hoffent adeilad Eglwysig. Ar ôl datganiad gan Miss Ann Davies Thomas, galwodd Berwyn y dyrfa i addoli gyda'r geiriau 'Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd' a chanwyd yr emynau ar y dôn 'Blaenwern' i osod pawb yn yr ysbryd priodol i addoli. Roedd y gwasanaeth yn ddwyieithog ond gyda medrusrwydd gwnaeth y Parch Berwyn Roberts waith penigamp. Y gair 'rhaid' redai drwy'r rhan gyntaf o'i bregeth 'Rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad'; 'Rhaid Iddo fynd i Samaria'; 'Rhaid i mi gyrchu fy mhraidd'; 'Fel y cododd Moses y sarff – felly rhaid i minnau gael fy nyrchafu.'

Gair arall yn ei bregeth oedd 'rhydd', bod cariad Duw yn Rhydd, a bod yn Rhydd yw bod yn gariadus. 'Duw Cariad Yw.' Beth sy'n Rhydd? Oedd Iesu'n Rhydd? 'Rhoddaf fy mywyd i lawr drosoch o'm hunan ewyllys.'

Ei drydydd pwynt oedd mai Llyfr perthnasol yw'r Beibl, a bod yn gariadus yw bod yn berthnasol. Ei ystyr yn Gymraeg yw 'Rhwymo' fel addewid rwymedig meddyg yn gweinyddu triniaeth llawfeddyg am bum awr i achub bywyd person.

I orffen ei bregeth, soniodd am fod yn garcharor: 'Gwna fi'n garcharor o Dduw . . . yna byddaf yn Rhydd.' Rhaid i rywun roddi rhywbeth i mewn i fywyd er mwyn cael rhywbeth allan.

Gracie Owen, Caernarfon.

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

LLONGYFARCHIADAU i Helen Jones, Glan Gors, ar ei dyweddïad â Mr Tony Davies o Langefni. Dymuniadau gorau i'r ddau.

DIOLCH – Dymuna Menna Dauncey Williams, Elan, ddiolch yn fawr iawn i bawb o bell ac agos a fu'n ei helpu i gasglu dimeiau. Ers iddi ddechrau casglu mae £38 wedi ei anfon i'r Apêl Leukemia, a £20 at Gronfa Scanner i Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl.

LLONGYFARCHIADAU i nifer o blant y pentref sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiad piano yn ddiweddar – Gradd I – Manon Elis, Non Llywelyn Jones, Bethan Jones. Gradd II – Ruth Wyn Parry, Lynn Roberts, Ceryl Roberts. Gradd VI – Nicola Wallis. Maent i gyd yn ddisgyblion i Mrs Heulwen Williams, Cefn y Gwynt.

Gradd I – Menna Dauncey Williams. Mae Menna'n ddisgybl i Ann Hopcyn, Gorffwysfa.

Gradd I – Theory – Sioned Owen. Gradd I – Sian Emlyn Hughes.

CYDYMDEIMLAD – Diwrnod Nadolig bu farw Mrs Margaret Jones, 19 Cremlyn. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR – Bu cyfarfod cyntaf eleni nos Fercher Ionawr 9 yn yr ysgol. Y gŵr gwadd oedd Mr Arthur Rowlands, Caernarfon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar 'Tywys y Deillion'. Diolchwyd iddo gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Etholwyd Mrs Mair Price yn gynrychiolydd y gangen ar bwyllgor Rhanbarth yr Anabl. Enillwyd y raffl gan Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd. Y gwestwragedd oedd Mrs Beti Owen, Mrs Eirlys Sharpe, Mrs Mary Griffiths.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol nos Fercher, Chwefror 13, pryd ceir sgwrs ar ffiseotherapi gan Mrs Mary Wyn Jones.

Nos Wener, Ionawr 4, daeth Pwyllgor Anabl Merched y Wawr at ei gilydd ym Mhlas Menai. Pwrpas y noson oedd cyflwyno rhodd o £1,000 i'r cyfarwyddwr addysg, Mr Gwilym Humphreys. Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio'n galed am flwyddyn i godi'r arian, sydd yn mynd i brynu offer i helpu plant mud a byddar.

CYFARFOD CYHOEDDUS – Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Lun, Chwefror 4 am 7.30 i drafod cael carnifal eto eleni. Ceir cefnogaeth dda iawn yn y pentref yn ystod wythnos y carnifal ond gobeithio daw mwy i gefnogi ar y pwyllgor eleni.

YR URDD – Bu plant yr Urdd yn casglu o amgylch y pentref yn ddiweddar. Y casglwyr oedd Ceryl, Llinos, Tracey, Clare, Meinir, Lynn, Ceri, Paula, Angharad, Kelvin, Gwen, Bethan, Sarah, Llinos, Wenna, Haf, Lynn. Y cyfanswm oedd £38.97 – diolch yn fawr iddynt i gyd.

LLONGYFARCHIADAU i Emma Bardsley oedd yn 18 oed Ionawr 23, a hefyd i Angela Walley, Coed Bolyn Bach oedd yn 18 ar Ionawr 7.

ROBERTS - JACKSON
Mae Mr. a Mrs. Raymond Colin Roberts Y.H., Reanna, 19 Stad Eryri, Bethel yn falch o gyhoeddi dyweddiad eu merch ieuengaf Llinos gyda Steven, Minffordd Cottage, Llanrug. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.


DAWNSWYR MORRIS – Gan fod Dawnswyr Morris y pentref bellach wedi chwalu, penderfynwyd defnyddio'r arian oedd ar ôl yn y gronfa i bwrpas arbennig.

Deallwyd bod ysgol y pentref angen Peiriant Fideo ar gyfer gwersi'r plant a chan fod pob un o enethod y Dawnswyr Morris wedi bod, neu yn, ddisgyblion yn yr ysgol, rhoddwyd yr arian i gyd tuag at brynu'r peiriant yma.

Felly, trosglwyddwyd y swm o £215.04 i Mr Islwyn Ll. Jones, y Prifathro, gan Mrs Nan Owen, Berwyn, ar ran Pwyllgor y Dawnswyr Morris.




**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**

*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*


# DINORWIG

**GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**

CYMDEITHAS LENYDDOL – Yn y Ganolfan nos Fercher, Rhagfyr 12 1984, cafwyd sgwrs a ffilm gan Mr Dafydd Orwig, Bethesda, ar hanes ei daith i Oberammerau. Mwynhawyd y sgwrs a'r ffilm yn fawr. Llywyddwyd a chyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan Mrs Megan Williams, Môn. Talwyd diolch gan Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n Fawnog.

CAROLAU – Rhagfyr 20, yn y Ganolfan, bu gwasanaeth o garolau, yng ngofal Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol. Cymerwyd rhan gan y plant, Dafydd, Arwyn ac Iwan Jones, ac Aaron Jones; Eleri a Sian Evans, Rhydfadog. Hyfforddwyd hwy gan Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawnog. Rhoddwyd deialog gan Mrs Betty Peris Roberts, Mrs Katie Hughes, a Mrs Rene Morris, Maes Eilian. Darlleniad o'r ysgrythur gan Miss Marina Roberts, Tŷ'r Ysgol, a Mrs Annette B. Parri, Cynefin. Carol gan Mr David J. Thomas, 8 Maes Eilian. Carol gan y tair chwaer, Annette, Olwen a Marina.

MARW – Rhagfyr 15, 1984 yn sydyn yn ei gartref, Tŷ Capel, M.C. Dinorwig, bu farw Mr Richard Harris Williams, yn 64 mlwydd oed. Roedd yn gymeriad arbennig o hoffus, gyda gwên a sirioldeb at bawb, yn gymydog penigamp, a pharod ei gymwynas, yn gyfaill i bawb yn neilltuol i'r ieuanc. Gŵr llawn o hiwmor a direidi lond ei lygaid, ac yn weithiwr cydwybodol gyda'i waith yn glanhau'r ffordd. Bydd colled fel ardal ac eglwys yn Ninorwig ar ei ôl. Mae'n cydymdeimlad yn ddwys gyda Mrs Dilys Williams ei weddw, a'r mab Mr Eric Iolen Williams, ac â'i chwaer Annie a'i gŵr Robert, a'r cysylltiadau teuluol eraill yn eu hiraeth a'u colled sydyn.

MARW – Bu farw Mrs Alice Lewis, Bryn Peris, Coventry Drive, Rhyl, ar Ragfyr 23, 1984, yn Ysbyty Bodelwyddan yn 87 oed. Ganwyd a magwyd hi yn Blue Peris Ffarm, Dinorwig, yr hynaf o blant Henry a Mary Lloyd Roberts. Aeth i Lundain i weini pan oedd tua deunaw oed, a chyfarfu â Mr Edgar Lewis, brodor o Wolverhampton, a phriododd yng Nghapel Wilesden Green, a byw yn Kilburn am bron i 50 mlynedd, ac yn aelod ffyddlon o gapel Charing Cross. Pan fu i'w gŵr ymddeol daethant i Rhyl, ac ymaelodi yng Nghapel Clwyd Stryd. Roedd yn weddw ers saith mlynedd. Gwasanaethwyd yn yr angladd ar Ragfyr 27 1984, gan ei gweinidog, y Parch Hughes Jones, a'r Parch Richard Jones, a fu'n gweinidogaethu yn Charing Cross, Llundain, amser yn ôl, ac yn ei hadnabod yn dda. Bu gwasanaeth yn Clwyd Stryd, ac yna yn Amlosgfa Bae Colwyn. Gedy chwaer, Mrs Elizabeth Robinson, Caernarfon, a brawd, Mr Evan Lloyd Roberts, Bolton. Collodd ei dau frawd ieuengaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef Mri. Tom Lloyd Roberts, ac Arthur Lloyd Roberts. Gedy fwlch eto yn y teulu.

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad iechyd buan i Mr Richard Gwilym Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig, sydd wedi bod i mewn ac allan o'r Ysbyty yn ddiweddar. Hefyd i Mr Emlyn Griffith, 8 Bro Elidir, Dinorwig, a fu yn yr ysbyty wedi ei daro'n wael yn ddiweddar. Da gennym ddeall ei fod gartref ac yn well. Daliwch i wella gyfeillion.

CYMDEITHAS UNDEBOL LENYDDOL – Nos Iau, Ionawr 10, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Undebol o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Cymerwyd rhan mewn darlleniadau o'r Ysgrythur, a myfyrdodau gan yr aelodau canlynol: Mr David J. Thomas, Maes Eilian; Miss Marina B. Roberts, Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol; Mrs Annette B. Parri, Cynefin; Mrs Katie L. Hughes, Maes Eilian; Mrs Betty L. Roberts, Maes Eilian; Miss Ellen W. Jones, Ty'n Fawnog; Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch; Mrs Medwen Griffith, Foel; Mrs Katie Griffith, Arwelfa; Mr Hugh Thomas, Bro Elidir; Mrs Megan Morris, Minffordd; Miss Marian Jones, Bro Elidir; Mr O.R. Williams, Bro Elidir. Cymerwyd rhan mewn anerchiad gan y Parch Ifor L. Williams, Bangor ar Thema yr Oedfa. Cafwyd eiliadau o ddistawrwydd mewn coffhad am y diweddar Mr Richard H. Williams, Tŷ Capel, Dinorwig, gyda theyrnged iddo gan y Ficer, Aled W. Edwards. Terfynwyd trwy weddi. Cyfeiliwyd gan Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, a chanwyd nifer o emynau.

PENBLWYDD 21 OED – Penblwydd hapur iawn i Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed, ddydd Llun, Ionawr 21. Mae hi'n ysgrifenyddes Cymdeithas Lenyddol Undebol, Dinorwig. Pob dymuniad da a phob lwc i'r dyfodol.

COFION – Ein cofion at bawb o'r ardalwyr sy'n cwyno y dyddiau oer yma.

MARW – Ionawr 20, 1985, yn ysbyty Gwynedd, o Creigle, Dinorwig, yn 76 mlwydd oed, bu farw Mr Robert Hugh Thomas. Cydymdeimlir â'i weddw Annie, a'r plant a'r wyrion a wyresau yn eu hiraeth a'u profedigaeth lem a sydyn. Bylchwyd ardal Dinorwig unwaith yn rhagor yn ei farw.

DIOLCH – Dymuna Mrs Dilys Williams ac Eric Iolen, Tŷ Capel, Dinorwig, a Mrs Annie Roberts, Garth Fawr, y Felinheli, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad a brawd ffyddlon, hefyd diolch am y llu cardiau a'r blodau a dderbyniwyd. Diolch arbennig i'r meddygon teulu, yr heddlu, gwŷr Ambiwlans a'r Parchedigion Trefor Lewis, Deiniolen; E. Idris Davies, Porthaethwy; Stanley H. Williams, Cesarea; H. Walter Jones, Bangor; Eifion Williams, Llanfairfechan; Aled Edwards, Deiniolen; Tudor Davies, y Felinheli; Ronald Wyn Roberts, Deiniolen; a'r Parch Ifor Ll. Williams, Bangor. Hefyd swyddogion, cyfeilyddion a chwiorydd Eglwys M.C. Dinorwig; Mrs M.J. Roberts, Islwyn; Teulu Bron Eilian; Teulu 10 Bro Elidir; ei gydweithwyr yng Nghyngor Sir Gwynedd, a Mr Myrddin Pritchard, Llanberis am y trefniadau angladdol.


**I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...**

**Osmond W. Shaw**

DEINIOLEN

*Ffôn:*
*LLANBERIS 870545*

**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**

# NEUADD Y PENTREF

## gan Goronwy Owen

**Chwarelwr oedd fy nhaid Bang**
**Chwarelwr yw fy nhad Bang**
**Chwarelwr fyddaf innau Bang**
**A'r gorau yn y wlad BANG.**



*Os oes rhywun yn gwybod yn well, pwy yw'r rhain, byddaf yn falch o gael fy nghywiro. Yn fy nhyb i safant fel hyn:*
*Rhes gefn — Wil Bach, Fy hunan, John Rees, Ernest Ffos, Harri Coed a Nowi Maes Llwyn.*
*Rhes Ganol — Arthur Allen, William Huw, Nansi Jones Ceunant, Eirlys Jones, Doris Morris, Menna Jones, Gracie Huws, Rhiannon Davies, John Hayes a Robert Morgan.*
*Rhes flaen — Nansi Jones, Mair Rowlands, Clara a Nellie Wyn.*
*Wrth sylwi ar wyneb caregog iard y bechgyn, does dim rhyfedd bod creithiau ar ein pengliniau yn aros o hyd.*

Ar y gnoc olaf, torrodd y llechan yn ddau ddarn, ac fe gefais gymeradwyaeth lawer uwch nag oedd y gân yn ei haeddu. Ar lwyfan y Neuadd y penliniwn, yn gwisgo gwasgod a het chwaral fy nhad. Cyngerdd Plant ydoedd, a ni, dosbarth Jane Ann, yn fugeiliaid, meddygon, nyrsus a chogyddion oedd yn gwneud ein rhan. Doedd y clwt llechan y cnociwn ar ddiwedd pob llinell ddim i fyny i'r egni a roddais i'r slap olaf. Gellwch chi yn naturiol, ddirnad penbleth hogyn bach pedair oed wrth weld y fath ddamwain yn digwydd, ond roedd y chwerthin o gyrrau Aberdaron, yn chwerthin iach.

Rhyw dair blynedd wedyn, yn Nosbarth Rhiwen Jones, gwnaethom ddawns y Robin Goch. Faint ohonoch sy'n cofio blychau sigaret 'Robin'? Ohonyn nhw y gwnaed y capiau. Sylwch ar y darlun. Coron o ddarluniau robin, ffrogiau bychain o bapur crêp i'r genod, a bron goch o'r un deunydd i ni fechgyn. Doedd dim llawer o arian i'w wastraffu arnom yn y dauddegau. Yn y cyngherddau hyn, nid yn unig doedd dim sêt wag yn yr adeilad, fe ddodwyd cadeiriau o'r tai cyfagos yn y ddwy dramwyfa. Rhyw ail beth oedd Rheolau Diogelwc, ac mae ceisio dychmygu'r alanast allai fod wedi digwydd yno, y tu hwnt i allu rheswm.

Weithiau, defnyddia'r Pwyllgor Addysg yr 'Hall'. Ddywaith fe'n cerddwyd allan o'r ysgol yn y boreau i edrych ar ffilmiau ynghylch glanweithdra corfforol. Cofiaf yn dda rhyw gartŵn ar bryfyn yn cario budreddi, a rhyw lanc ifanc yn rhoi ei alaw fydr ar deisen penblwydd ei gariad. Bob dydd am dair wythnos wedyn, deuai Miss Huws Sd. 3 o amgylch i archwilio pwy oedd wedi ymolchi'u dwylaw, ac i'r rhai a farnwyd yn deilwng, roedd bathodyn 'Clean hands' i'w wisgo yn label ein côt. Wel, roedd hyn yn bwysig, ond sut oedden nhw yn disgwyl i ni fechgyn gadw ein dwylaw yn lân, a dim ond un tap dŵr oer rhyngom, yn yr ystafell ddillad. Rhaid oedd ciwio i gael diod o ddŵr.

Hefyd, bob rhyw ddwy flynedd, deuai criw o fechgyn Dr. Barnado i roi cyngerdd i ni. Eto fe awn i lawr trwy'r pentra, ar ôl talu ein dwy geiniog i fwynhau cyngerdd cerddorol. Miwsig clychau, xylophone a chimes oedd ganddynt, nid miwsig ar gân.

"O fana. Smydwch. Seti ni ydi rheina."

Doedd dim dewis – dim ond ufuddhau.

"Peidiwch ag ista yn fana eto. Yn y ffrynt 'da chi i fod, a byhafiwch 'ch hunan. 'Dw i'n nabod hwnna. Hogyn Now Gronwy ydi o. Mi ddeuda i wrth 'i dad o."

Aethom i'r seddau blaen a swatio. Bob nos Lun, Mercher a Gwener, hawliai hanner dwsin o ferched canol oed y seti cefn, Anti Meri Oldfield yn eu plith, i fwynhau gwerth chwe cheiniog o 'Romance'. Doedd wiw i ni geisio gwneud sŵn, ond roedd rhaid i ni ddiodde eu clywed nhw yn ymgolli yn y stori.

"O, y beth bach. Sbïwch ar yr hen gena 'na yn 'i hambygio hi."

"Ww, mae o'n mynd i'w lladd hi."

"A!, mae'r boi da yn dwad. Mi fydd o'n 'i safio hi."

"Ylwch, mae'r llall yn dwad trwy'r ffenast. Mae o wedi'i saethu o'n gelan."

"Gwatchia di y cythral, mi ddo i ar dy ôl di."

Rhwng edrych ar y darluniau, gwrando ar sylwadau'r merchaid, a darllen y geiriau, roedd dwy awr o bictiwrs yn waith caled. Ac wrth gwrs, roedd y piano ar ochor y llwyfan, bob hyn a hyn, yn ymuno yn yr hwyl. Nawr, bob tro y gwrandawaf ar yr overture William Tell, gwelaf geffylau cowbois yn carlamu o flaen fy llygaid, ac mae In a Monastery Garden yn dal i olygu y gusan olaf a'r ddau air pendant rheini 'The End'.

Hen ffatri wlân oedd y Neuadd yn wreiddiol, mi debygaf, ac roedd arogl olew yn codi o'r llawr i'n ffroenau. Yn Compton House roedd teulu'r ffatri yn byw, ac yn perthyn i ochor fy nhad a theulu'r 'Rhelfa. Mrs Wakham a'i dau fab a'i throi yn lle i ddangos ffilmiau, ac yn wir, roedd 'Y Pictiwrs' yn lle pwysig ym mywyd adloniadol y pentra. Gweithiai Tom ac Eric y peiriannau mewn rhyw gwt bach yn uchel i fyny ar wal gefn yr adeilad, a byddai eu mam yn derbyn yr arian wrth y drws, a chadw trefn.

Doedd pawb ddim yn fodlon fod 'Darluniau Byw', yn cael eu dangos yn y Neuadd. Yn wir, credai rhai o'r bobl hynaf, mai rhan o gynllwyn y diafol oedd y 'pictiwrs'. Llareiddiwyd tipyn ar y syniad hwn, pan ddangoswyd yr epig fawr *King of Kings*. Cynhaliwyd seiat Capel Coch awr yn gynt, er mwyn i'r aelodau o dan arweinyddiaeth y Parch J.P. Davies, fynd i weld y ffilm. Pwysig yw sylwi na ddiddymwyd mo'r cyfarfod. Roedd arian i fynd i'r Pictiwrs ddipyn bach yn haws i'w cael, ar ôl bendith y capeli.

# Angen help i drechu'r fandaliaid

**Oherwydd costau ychwanegol am fandaliaeth, mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn apelio am gymorth y trethdalwyer, am iddynt hysbysu'r cynghorwyr lleol am unrhyw un a welir yn achosi difrod neu yn amharchu eiddo cyhoeddus.**

Bu'n ofynnol i'r Cyngor dalu dros £200 yn ddiweddar am ddifrod a wnaed drwy fandaliaeth i gysgodfannau.

Hysbyswyd bod costau gwreiddiol y cysgodfannau hyn dros £1,000 i gychwyn, a bu'r Cyngor yn ystyried a oedd hi'n werth gwario cymaint o arian y trethdalwyr ar godi'r cysgodfannau hyn, os oeddynt am fod yn dargedau i fandaliaid.

Byddwch yn helpu i gadw'ch trethi i lawr os hysbyswch eich cynghorwyr lleol ar unwaith, os gwelwch unrhyw berson yn achosi difrod neu'n amharchu eiddo cyhoeddus.

Gwnaed difrod yn ddiweddar i gysgodfannau ym Methel, Rhiwlas, Brynrefail a Phenisarwaun.


**SCIPIAU TIM**



**o £16**

CYTUNDEB DYDDIOL NEU WYTHNOSOL
**TIM FRAZER JONES**
**BUARTH BERAN, DEINIOLEN**
LLANBERIS 871354



**GWYNETH ROBERTS**
(Siop E. Wilson Hughes gynt)
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.
**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

# O YSGOL BRYNREFAIL

Nid oedd digon o ofod i'r lluniau yma ar dudalen 'Sibrydion o'r Ysgolion' – ond fe geir yno'r storïau sy'n gysylltiedig â nhw.

## YMLAEN I'R ROWND GYN-DERFYNOL



*Tîm pêl-droed bechgyn hŷn yr ysgol ar ôl eu buddugoliaeth yn erbyn Ysgol Uwchradd Prestatyn yn rownd go-gyn-derfynol Cwpan Ivor Tuck. Llongyfarchiadau iddynt — a phob hwyl yn y rownd nesa. Nid oedd Steven Riley a Neil Wannop yn bresennol pan dynnwyd y llun.*

## CASGLWYR DIWYD DOSBARTH 1E



*Disgyblion dosbarth 1E sydd wedi bod wrthi'n brysur yn cyfri'r arian sydd i'w anfon ar ran holl blant yr ysgol i Gronfa Achub y Plant.*

**A WYDDOCH CHI PWY?**

**Fe aeth i'w wely'n gynnar**
**Gyda'i botel fach dŵr poeth,**
**Heb feddwl gofyn cwestiwn**
**Ai ffôl oedd hyn ai doeth?**
**Yr oedd yn rhewi'n drwm drwy'r wlad**
**Beth arall wnâi, yn eno'r tad.**

**A toc y wraig ymlwybrodd**
**I'r gwely at ei gŵr –**
**Roedd —— yn bytheirio**
**A gweiddi, dŵr, dŵr, dŵr;**
**Gofynnodd hithau – 'neno'r tad**
**Oes raid it ddeffro yr holl wlad?**

**Rhaid nawr oedd newid gwely**
**A hithau'n noson oer;**
**Y ddau yn nhraed eu sannau**
**Yn crynu yng ngolau'r lloer:**
**Planced o eira yn cuddio y parc**
**Ond planced go wlyb yng Ngroeslon Marc.**

**Y wers wrth gwrs, yn eno'r tad,**
**Rhaid torri ar unwaith ewinedd dy draed.**

**MI WN I**

Does dim angen dweud mai potel dŵr poeth wedi byrstio fu'n symbyliad i lunio'r gerdd uchod.

# O BANTRI BETH




Pryd sydyn, blasus gyda thatws trwy'r crwyn.
2 nionyn bach wedi eu malu'n fân
4 owns o Gaws Edam wedi ei gratio
4 owns o Friwsion Bara
hanner peint o lefrith
pupur a halen.
Cymysgwch y cwbl a'i osod mewn dysgl fas. Ei goginio mewn pobty – gwres 450 gradd F – am 15-20 munud. Addurnwch â thomato.


Am waith
**Cynllunio**
o bob math
TAI NEWYDD
NEU ESTYNIADAU
**LEN ROBERTS**
**Waun Howel**
**LLANRUG**
**Ffôn: Llanberis**
**870971**
Prisiau rhesymol


# LLANBERIS

**(Atodiad)**

ELLIS MORRIS

Yn Ysbyty Gwynedd ar Ionawr 4, yn dawel, bu farw Ellis Morris yn 76 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r diweddar Harri (Teiliwr) ac Ellen Morris, 8 Stryd Bethesda lle'i ganwyd ac y treuliodd ei oes. Roedd yn un o unarddeg o blant.

Un o gymeriadau mwyaf tawel a bonheddig yr ardal ydoedd 'Yr hen Êl', fel yr adweinid ef gan ei gyfeillion.

Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio i'r Chwarel, ac yn ôl ei gyd-weithwyr roedd yn uchel iawn ei barch am ei bersonoliaeth tawel, gonest a chydwybodol. Ni ddymunai neb regi o fewn ei glyw, roedd gormod o barchedig ofn arnynt. Wedi i'r gwaith yn y chwarel ddod i ben, bu'n gweithio gyda'r Cyngor Sir. Yma eto fe weithiodd yn ddistaw a chydwybodol tan ei ymddeoliad.

Roedd yn ffyddlon iawn yng Nghapel Coch tra parhaodd ei iechyd. Yr oedd yn ddarllenwr brwd ac yn hyddysg iawn. Ei ddiddordeb pennaf oedd allan yn yr awyr iach, yn bugeilio'r defaid, ac yn crwydro llethrau'r mynyddoedd. Treuliodd flynyddoedd lawer yn bugeilio ar fferm 'Tŷ Newydd' ac yn sgwrsio â'i gyfaill holl Mr Michael Pritchard (Ffordd Capel Coch).

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn 2 Stryd Bethesda ac yna yn Amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis B.D.

Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll, yn arbennig â'i dair chwaer, Mrs Mary Thomas, Mrs Gladys Roberts a Mrs Gaynor Pritchard yn eu profedigaeth.

WEDI YMDDEOL – Dymuniadau gorau oddi wrth Mrs Gladys Hughes a'r plant i Hugh Ellis Hughes (Hugh Glo), 1 Tai Gadlys ar ei ymddeoliad yn 65 mlwydd oed. Mae Mr Hughes wedi bod yn cario glo i bobl Llanberis a'r cylch ers bron i 30 mlynedd. Mae'r meibion yn awr yn rhedeg y busnes cludo glo. Ein llongyfarchiadau ninnau i Mr Hughes gan ddymuno ymddeoliad hapus iawn iddo, a gwerthfawrogiad yr ardal am flynyddoedd maith o wasanaeth.

DIOLCH – Dymuna Mr Glyn Williams, 18 Maes Padarn ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ato tra bu'n wael yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DYMUNIADAU GORAU i Mr Owen Lewis, Cilan sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU

I Mrs Helen Ann Sharp, 28 Maes Padarn ar gael ei phenodi yn ddirprwy 'Sister' ar Ward Seiriol yn Ysbyty Gwynedd.

I Maldwyn Lewis, 13 Stryd Ceunant ar gyrraedd ei benblwydd yn 21 ar Ionawr 27.

I Adrian Wakeham, Glenthorne, Stryd Newton ar ei ddyweddïad â Gwenfair Lloyd, Rhos Ddu, Llanrug.

I Peter Williams, 5 Llainwen Isaf ar gyrraedd ei benblwydd yn 18 oed ar Ionawr 7.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


**Padarn Lake Hotel**

Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR**
**LLANBERIS**
**870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hote ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein llofftydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



# CANRIF O HYSBYSEBION

## John Roberts
## Y Trefnydd Hysbysebion

**Os cneifiwch chi fochyn mi gewch lot o dwrw ond dim ond 'chydig o wlân. Rhyw feddyliau fel'na oedd gennyf 100 rhifyn yn ôl, yn Ionawr 1976, wrth sefyll ar sgwâr rhynllyd Llanrug yn ystyried ble ar y ddaear yr oeddwn am gychwyn, fel trefnydd hysbysebion Eco'r Wyddfa. Fi, y mochyn, ar fin cael fy mlingo, a dim i'w ddangos amdano. Onid oeddwn i wedi brolio, yn wir wedi addo, y buaswn yn llenwi Eco'r Wyddfa â hysbysebion gwŷr busnes y fro, gan elwa ar dair blynedd o brofiad fel Trefnydd Hysbysebion Y Cymro?**

**Ond ar y Cymro roedd gen i bapur i'w ddangos, traddodiad i dynnu arno, trefniadaeth tu cefn. Yma ar sgwâr Llanrug roedd gen i fag du, ei lond o bapur gwyn, beiro a sictod ym mherfeddion fy stumog. Be tase'r cyfan yn methu wedi'r holl sŵn? Syllais tua garej fysus y diweddar annwyl Eric Morris. Gwyddwn ei fod yn gefnogol i'r 'pethe' a phenderfynais mai dyma'r lle i drio fy lwc gyntaf.**

Cael fy nghyfeirio i'w gartref yn Nhanycoed. Cnocio'n betrus ar y drws:

"Ylwch – da' ni'n gobeithio cyhoeddi papur – dydan ni ddim yn gwbod faint werthith o – dydan ni ddim yn siŵr iawn fydd 'na groeso iddo fo – ella bydd o'n fethiant llwyr ond mi rydan ni'n trio'n gorau a phwy a ŵyr . . . Fase chi, syr, yn ystyried rhoi hysbyseb fach ynddo . . . fel arbrawf? Pedair punt fydd y gost."

A minnau'n gobeithio y cymerai ddwy i roi hwb i'r galon a'r coffrau.

Yna gwên hynaws. Eric Morris yn estyn am ei lyfr siec ac archebu gwerth £48 – hysbysebion blwyddyn gron. Mae hysbyseb Bwsiau Arfon yn dal yn yr Eco, a'r busnes bellach yng ngofal ei ferch Rhiannon. Ond mi fydda i'n ddiolchgar am byth i'r diweddar Eric Morris, y dyn bysus, am fy nechrau innau ar fy nhaith.

**DI-FWLCH**

Dim ond dau arall, mi gredaf, a fu'n hysbysebu'n ddi-dor, sef Gwaith Cerrig Beddau Llanrug (dau berchennog Gwilym Jones, Gorwel ac M. Rowlands) a Siop Groser, y Sgwâr, Llanrug (tri pherchennog, Stan Jones, O.R. Parry ac yn awr John a Roberta Griffith). Bu eraill yn hysbysebu bron y ddi-fwlch, sef E. Wilson Hughes, Llanberis (Gwyneth Roberts yn awr) ers y trydydd rhifyn a Becws Deiniolen (dau berchennog E.W. a M. Williams, yna D.E. a R.P. Jones). Hefyd bu Garej Minffordd, Bethel yn hysbysebu'n rheolaidd gyda hysbyseb hanner tudalen ddwywaith neu dair y flwyddyn ers y rhifyn cyntaf. Hysbysebwyr eraill y rhifyn cyntaf oedd Siop Rosalind, Llanberis, Gwesty Dolbadarn, Llanberis a Modurdy Menai, Y Felinheli.

Yn rhifyn 9 ymddangosodd hysbysebion dau arall a'n cefnogodd yn ddi-fwlch oddi ar hynny, sef W.J. Griffiths, Plymar, Llanrug a Wavell Roberts, Llanrug, 'pen cigydd y fro' fel y geilw'i hun. Slogan W.J. Griffiths (neu Gwilym Plymar i chi a fi) yw 'Dim un dasg rhy fychan, dim un dasg rhy fawr'. Pan fethodd yn lân â mynd i ddelio ag un broblem oherwydd anawsterau tu hwnt i'w reolaeth, bu i'r cwsmer blin edliw iddo'r geiriau hynny gan haeru na fu'n driw i'w slogan. Ond mae gan bawb hawl i fethu unwaith ac fel y dywedais wrth Gwilym i'w gysuro – o leia mae'n profi fod pobl yn darllen y print mân!

Fe brofodd Wavell Roberts hynny hefyd. Wyddoch chi iddo werthu cig i ddyn o Gloucester yn sgîl ei hysbyseb yn Eco'r Wyddfa. Dyn yn hanu o'r cylch a'i ffoniodd o'r ddinas honno ar ôl gweld ei hysbyseb. Holi ydoedd a wyddai Wavell lle'r oedd rhyw dŷ neu'i gilydd yn y fro. Addawodd Wavell geisio'r ateb a maes o law galwodd yr holwr yn y siop tra'n ymweld â'r ardal. Cyn gadael efo'r ateb prynodd dalp go dda o gig.

Y mae Eco'r Wyddfa yn wir yn gyfrwng rhagorol i hysbysebu. Mae'r gwerthiant wedi ei ganoli ar ardal fechan iawn ac mae hynny'n llawer gwell o safbwynt hysbysebu na chynulleidfa wasgarog. Peidiwch â chymryd fy ngair i – gofynnwch i Bill ac Eileen Griffiths, Bethel, prynwyr dodrefn a hen bethau, holwch y Bistro, Llanberis neu Linda, Trin Gwallt, Llanrug. Mae'r hysbysebwyr rheolaidd oll yn medru tystio fod hysbysebu'n yr Eco wedi rhoi hwb i'w busnes a hynny am bris rhad o gymharu â'r papurau mawr.

Gan na thelir ceiniog o gyflog i swyddogion yr Eco mae'r costau gymaint is. Byddai hysbyseb o faint wythfed o dudalen (maint hysbyseb Lleufer Pritchard, Waunfawr neu Westy'r Foelas, Llanrug dyweder), yn costio £10 i'w gosod unwaith neu £8 y mis gyda discownt i hysbysebwyr rheolaidd. Costiai hysbyseb o'r un maint dros £30 ym mhapurau'r Herald lle byddai'n gorfod cystadlu â llu o hysbysebion eraill am sylw. Dyna pam fod mwy a mwy o bobl busnes yn troi at yr Eco i gyrraedd eu cwsmeriad.

**CYFARCHION**

Am yr un rhesymau mae degau o fusnesau yn manteisio ar ein colofnau bob Nadolig i ddymuno'n dda a diolch i'w cwsmeriaid. Yng nghanol y prysurdeb cafwyd ambell lithriad mae'n wir – fe ddywed Gwilym, Crefft Elidir, Deiniolen wrthych inni gael ei rif ffôn yn anghywir ddau Nadolig yn olynol. Yn Llythyrdy Waunfawr bu i'r cyn-berchnogion ddymuno Nadolig Llawen i bawb y llynedd, ac fe ddymunodd Gwilym Jones, Cerrig Beddau, Llanrug Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn rhifyn Ebrill!

Gwn eich bod yn gwerthfawrogi'r cyfarchion Nadolig ac fe'ch sicrhaf nad ydych yn colli newyddion ac erthyglau yn eu sgîl. 12 tudalen oedd maint y rhifyn cyntaf ond roedd rhifynnau'r Nadolig diwethaf yn 28 tudalen. Y plygwyr druan sy'n dioddef.

Mae'n costio mwy i argraffu Eco'r Wyddfa na'r incwm a geir o'r gwerthiant ac oni bai am yr hysbysebion ni fyddai yn talu ei ffordd.

Da chi felly CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR – maen nhw'n eich cefnogi chi. Carwn ddiolch iddynt oll am fod mor barod eu cymwynas dros y 100 rhifyn diwethaf a dymuno pob llwyddiant iddynt am gannoedd i ddod.

Carwn ddiolch hefyd i'r golygyddion am eu hamynedd wrth ailwampio tudalennau i gwrdd â gofynion ben set, i'r wasg am wneud eu golau (sorri gorau) a hefyd i'r Trefnydd Busnes, Goronwy Hughes am gymryd y baich anfon biliau oddi arnaf.


Pan ddechreuais gasglu'r hysbysebion, gwirfoddoli wnes am flwyddyn neu ddwy i roi'r cyfan ar ei draed. 100 rhifyn yn ddiweddarach rwy'n dal wrthi, yn dal i fygwth rhoi i fyny ac yn dal i fwynhau bob munud. Serch hynny os oes rhywun a hoffai helpu buaswn yn croesawu cymorth. Rwy'n chwilio'n arbennig am rywun ifanc i ddysgu ac yna gymryd drosodd y gwaith. Efallai wedyn y caf sgwennu i'r papur!

# CEUNANT

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Einir Parri, Morwl ar basio ei harholiad piano Gradd VII y Coleg Brenhinol. Ei hathrawes yw Mrs Annette Bryn Parri. Hefyd ei chwaer, Gwenno, ar basio arholiad ffidil Gradd III. Ei hathrawes yw Mrs Carol Llywelyn.

LLONGYFARCHIADAU – Daeth llwyddiant i ran Louis Thomas, Hafodlas, a'i grŵp 'Louis a'r Rocyrs' yn Noson Wobrwyo Sgrech yng Nghaerfyrddin ddydd Sadwrn Ionawr 26. Enillodd y grŵp Wobr Arbennig Sgrech am y cyfraniad mwyaf i'r byd pop Cymraeg yn ystod 1984. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.


AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981



- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas




Perchennog: E.P. Hughes
MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

# EICH BAR

**A'r Eco bellach wedi cyrraedd ei ganfed rhif**
**chwennych eich barn chwi'r darllenwyr**
**cynrychiolwyr y 2,400 ohonoch sy'n darllen**
**o'ch amser i ymateb i'r gohebyd**



*Dyma Delyth, Eleri a Dylan Williams, Peris View, Llanberis. Mae'r teulu i gyd, gan gynwys mam Eleri yn ei ddarllen o'r cychwyn — naw mlynedd yn ôl. "Difr a diddorol — ac yn cael blas arbennig ar Goronwy Owen" oedd y farn.*



*"'Rwy' i a'r wraig yn ei ddarllen o glawr i glawr", meddai Salisbury Roberts, Waterfall View, Llanberis "ac yn mwynhau storiau Goronwy Owen yn fawr iawn". Mae'n anfon copi o'r Eco trwy'r post i ffrindiau yn Surrey.*



*Hap a damwain oed cyfarfod ag aelod arall o deulu Williams (gweler uchod)! Bu'r Eco yn dod i gartref John, 6 Allt Goch, o'r cychwyn. Peldroed yn gyntaf ac yna newyddion lleol Llanberis yw ei drefn o ddarllen yr Eco.*


AM WAITH
PAENTIO
A PHAPURO
O BOB MATH

**LEN ROBERTS**
**WAUN HOWEL**
**LLANRUG**
**Ffôn Llanberis**
**870971**
PRISIAU RHESYMOL




*Er nad yw'n darllen pob dim sydd ynddo mae Bryn Jones, 16 oed, Balaclava House, yn hoffi troi at y dudalen beldroed — "i weld sut mae Llanber yn ' wneud yn y 'league'."*



*"Mae o'n reit dêg — gyda dipyn o bob dim ynddo" — meddai Gareth Reynolds, 15 Stryd Goodman Llanberis.*



*"Dwi'n fodlon iawn efo fo" oedd geiriau Ann Hughes, 10 Dolafon Cwm-y-glo. Mae'n ei gael o'r cychwyn. Ar wahan i newydddion lleol Cwm mae'n hoff iawn o'r sylw mae eisteddfodau'r fro'n cael yn yr Eco. Hoffodd yn fawr iawn dudalennau plant Ysgol Cwm-y-glo mewn rhifyn diweddar. Yn y llun hefyd mae ei merch Cheryl.*



*Mae Mrs Margaret Rowlands, 94 Maes Padarn, yn derbyn 'Lleu hefyd gan ei bod yn wreiddiol o Garmel' — ond mae'n well ganddi'r Eco. Mae ei merch Wendy, sydd yn y llun gyda'i mam ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail yn hoffi darllen "Sibrydion o'r Ysolion" bob mis.*



*"Mae'r newyddion yn yr Eco'n dda" meddai Mrs J.M. Jones, 21 Talybont, Llanrug "ac yn debyg mewn llawer ffordd i'r "Caernarfon and Denbigh". Mae Mrs Jones yn ei gael o'r cychwyn ac yn cofio'n dda am Mrs Walsh yn ei ddosbarthu yn y cyfnod cynnar.*



*Dyma Alun Williams o Danycoed. "Dim cwyn" meddai "Dwi'n licio'r amrywiaeth sydd ynddo — y llythyrau, yr hen luniau, chwaraeon — dwi'n edrych ym ymlaen at ei gael."*



*Hoffi cael mwy o hen hanesion, fuasai Donald Owen, Tegfryn, Ffrodd yr Orsaf, Llanrug — yn hytrach na chymaint o newyddion pentrefi. Mae hefyd, gan ei fod yn wreiddiol o Ddyffryn Nantlle, yn darllen Lleu — a'r un yw ei farn am y papur bro hwnnw.*



*Thomas W. Jones, 6 Rhos Rug, Llanrug "Un da iawn 'di o. Dwi'n sbio 'mlaen at ei gael bob mis". Er ei fod yn ei ddarllen yn gyffredinol, mae diddordeb mawr ganddo yn y y dudalen chwaraeon — yn enwedig fel cyn-beldroediwr a sylfeinydd clwb snwcer y pentref.*

Nid bob siaradwr oedd eisiau tynnu 'i lun. Ein diolch hefyd i Eirlys Hughes, 1 Ffordd y Gogledd, Deiniolen, oedd yn gweld yr Eco "o fudd i'r holl deulu ac i Alun Foulkes, Tyddyn Gwndwn, Bethel a fuasai'n hoffi gweld mwy o chwaraeon ynddo. Diolch i'r rhai "di-enw" ar strydoedd Bryn'refail a Chwm-y-glo am eu sylwadau hefyd

# AMDANO

**penderfynasom fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau i eich papur bro. Ar y tudalennau yma mae Eco'n rheolaidd! Diolch i bob un ohonoch am roi r ddiwrnodau oer Ionawr 20 a 26.**



*Bydd Philip Guy, o Barc Hendre, Caernarfon a Debbie Thomas, 35 Rhydfadog, Deiniolen, yn priodi yn Awst ac yn cartrefi yn Neiniolen. "Rydyn ni'n cael yr Eco bob mis yng Nghaernarfon" meddai Philip "o Lanberis ydan ni'n dwad". Barn Philip yw mai "papur hen bobl" ydy'r Eco ac fe hoffai pe bai mwy o chwaraeon ynddo.*



*"Ydw, 'rwy'n ei dderbyn ac yn ei ddarllen ddwywaith os nad mwy. Fel cyn-chwarelwr rwy'n licio'r hen hanesion chwarel....Mae rhywbeth ynddo — fedra i ddim dweud be'. Ond dwi'n ei licio'n iawn", meddai David Morris Jones, 8 Bro Deiniol, Deiniolen.*



*Nid yw May Evans, 84 Pentre Helen, Deiniolen, yn ei ddarllen gan nad yw'n deall Cymraeg — ond mae'n ei dderbyn yn gyson er mwyn ei phlant sy'n ei ddarllen a'i fwynhau.*



*Mae Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel yn un arall sy'n derbyn yr Eco o'r cychwyn. Hoffai weld rhagor o newyddion o'r ysgolion a phlant yn cael cyfle i wneud eu rhan.*



*Cofia Angela Williams, Tŷ'r Ysgol, Bethel' yn dda am gychwyn yr Eco. Roedd yn yr ysgol gynradd ar y pryd ac yn un o'r plant a wnaeth ei rhan mewn cyngerdd i ddathlu'r achlysur "Ron i ar y 'xylophone'." meddai Angela . "Mae'n braf rwan troi i newyddion Bethel a chael hanes y rhai oedd yn yr ysgol efo fi". Newid neu ychanegu rhywbeth? "Na, mae bob dim dwi eisiau 'i weld ynddo fo" meddai hi.*

ac yn arbennig i'r **dair** o Lanberis am eu sylwadau hefyd am ddweud fod yr Eco'n "ddifyr ac yn llawer gwell na'r Caernarfon and Denbigh"!



*Mae'r Eco wedi bob yn dod i gartref Gerald Rowlands (chwith), sef 5 Bryn Golau, Waunfawr yn gyson o'r cychwyn "Mi fydda i'n troi at newyddion Waunfawr yn gyntaf ac yna at y chwaraeon". Beth fuasai'n hoffi weld yn ychwanegol? "...Mwy o am ddiscos ac ati". Ar y dde mae Andrew Roberts. Nid ein bod ni'n rhai am ddatgelu oed pobl — ond digon yw dweud mae 7 oed oedd Gerald ac Andrew pan ddaeth y rhifyn cyntaf o'r Eco o'r wasg.*



*Mae Ann Wyn Jones, Heulfryn, Waunfawr, yn fodlon ar yr Eco fel ag y mae. Mae'n ei gael yn rheolaidd bob mis ac yn troi'n syth at newyddion y pentref.*



*Bu T.G.Williams, 13 Trfe Eflian, Waunfawr, yn derbyn yr Eco yn rheolaidd ar un amser — ac yna stopiodd. Teimlai fod gormod o hen newyddion ynddo ar y pryd. "Does gen i ddim yn erbyn y papur" meddai "ac rwyf, unwaith eto yn ei brynu'n achlysurol".*



*Dyma Gari Davies, Hafan, Waunfawr — wyneb cyfarwydd i ddilynwyr ein timau peldroed lleol "Dwi wedi bod yn ei gael o'r cychwyn — I mi, does dim, i'w weld yn cael ei adael allan". Mae ganddo, fel gellid disgwyl hynny, ddiddordeb mawr yn y dudalen gefn bob mis.*



*Er nad yw Evelyn Anderson, 11 Tŷ Hen, yn hoffi'r Eco cystal â Lleu (daw ei theulu o Ddyffryn Nantlle) mae'n ei dderbyn yn rheolaidd a hynny o'r cychwyn. Mae'n fodlon iawn â'r sylw a roi'r i newyddion lleol Waunfawr — ac mae'r lluniau a geir ynddo yn dda.*



*Danny Webb, Bryn Tirion, Penisarwaun, "...yn ei gael o'r diwrnod cynta'... Wedi methu dim un. Hoff iawn o'r hen hanesion".*


**IEUAN WILLIAMS**

Glanffrwd

**DEINIOLEN**

**Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



*Yr 'Offis Gocyn' ac adeiladau eraill cysylltiedig â'r hen waith copr ger Llyn Peris. Llun — Gwynfor Roberts, Llanberis.*

# TALWRN Y BEIRDD

## Cynnyrch Llanrug

Cynnyrch Tîm Llanrug yng nghystadleuaeth 'Talwrn y Beirdd' a ddarlledwyd Ionawr 2. Colli fu eu hanes yn erbyn Tîm Mynytho. Aelodau'r tîm oedd Len Jones, Twrog Jones, Harri Jones, Glyn Parry, John Roberts a Dafydd W. Thomas.

**Hir-a-thoddaid – Mynydd**

**Af yn nhawelwch harddwch yr hwyrddydd,**
**I weled llenni y machlud llonydd;**
**Y Foel fel cerflun dan gŷn cerflunydd**
**A'r hwyr yn ymhel dros warrau'r moelydd,**
**Olion o dân heulwen dydd – lliwiau tes**
**Yn gweini ar fynwes, gwin ar fynydd.**

**Harri Jones**

**Pennill telyn**

**Etifeddais dyddyn teidi**
**Gyda phennau a thir pori,**
**Ond wrth aros ger y pentan**
**Ni fydd seigiau yn fy nghrochan.**

**Twrog Jones**

**Cywydd – Antur y Waunfawr**

**Estyn y mae Bryn Pistyll,**
**Er y gwan, ei her i'r gwyll;**
**Ni chred y gair 'methedig'**
**Yno'r brau a gyrcha'r brig,**
**Yn alluog, yn llawen –**
**O anobaith, gwaith a gwen.**

**Lle bu'r siop gwerthu popeth,**
**A'r Antur yn fur di-feth,**
**Yn hin gu y Waun hwy gânt**
**Urddas a theg hyfforddiant;**
**Turnin a phob punt ernes**
**O heth lem, gymdogaeth les.**

**John Roberts**

**Limrig yn ymwneud â chanu**

**Rhyw saer bach cyffredin oedd Eifion,**
**Ond ei fryd oedd ar ddringo'i entrychion;**
**Canodd bennill i'w nain**
**Un fwynaidd ei sain**
**Erbyn hyn mae ymysg y rhai rhyddion.**

**Twrog Jones**

**Cwpled caeth – Wal;atal**

**Heno'r af â'r maen i'r wal**
**Heti ni chaiff fy atal.**

**John Roberts**

**Cywaith rhydd – Telyneg 'Stryd'**

**Er pan ddaeth teli i bob tŷ,**
**Pob copa walltog adre dry**
**At 'Coronation Street', am rin**
**Yr hen frawdoliaeth, ar y sgrin,**
**A daeth i ben gymdogaeth, sgwrs;**
**Unigol gwys – hunanol gwrs.**

**Ble'r aeth rhialtwch dawns a ffair**
**A chaeth ddewiniaid trin y gair?**
**Enciliwyd i barlyrau clyd**
**Heb fentro mwyach ar y stryd.**
**Pa angen – y mae Hilda a Stan**
**Yn byw, a marw, ar ein rhan.**

**John Roberts**

**Ateb llinell**

**Yr oedd sen ar ardd Siani**
**– Oglau hemp fu ei magl hi.**

**Dafydd W. Thomas**

**Trioled – 'Wrth y tân'**

**Er oered hen f'aelwyd i**
**Mae'r cof yn fyw yn nawns y fflamau**
**Am wres a rhin dy gusan di;**
**Er oered hen f'aelwyd i;**
**A welir eto'n huno ni**
**Gan ysol fflam hen reddf ein nwydau?**
**Er oered hen f'aelwyd i**
**Mae'r cof yn fyw yn nawns y fflamau.**

**Len Jones**

**Englyn yn cynnwys y gair 'dos' ddwywaith**

**Ac awen deg, am gân dos – i wrando**
**Mireinder yr Eos;**
**Dos a'r lloergan yn annos,**
**Lleisiwr pêr yn nyfnder nos.**

**Harri Jones**

**Pennill Ymson 'Trydanwr'**
**(yng ngorsaf Dinorwig)**

**Mae Prydain gyfan angen paned o de**
**Daeth 'Dynasty' i ben, a dyna i chi le!**
**Deng eiliad o rybudd am fwy o bŵer**
**I greadur fel fi dydi o fawr o amser;**
**Go damia Alexis am fod cymaint o bitsh**
**A gwneud i mi godi – i bwyso switch.**

**Dafydd W. Thomas**

**Englyn Cywaith – Cred**

(Nodyn i'r prifathro gan rieni plentyn sydd ar fin cychwyn ei flwyddyn olaf yn yr Ysgol Gynradd)

**'Rhoddwch ddos o luosi – ac adio'i**
**Gyd yn Saesneg 'leni;**
**Cans mynd mae o'ch chwarae chi**
**I ddyfroedd 'Dysg o Ddifri'.'**

**Glyn Parri**

**Sgôr derfynol: Mynytho 45, Llanrug 43 a hanner.**

# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8 Glanrafon**

GŴYL Y GENI – Nos Sul, 23 Rhagfyr, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Rehoboth gan y plant a dan ofal Mrs J.M. Williams, Pennant. Cafwyd ymateb rhagorol gan yr oll oedd yn gwasanaethu. Perfformiwyd Gŵyl y Geni gan y plant a chafwyd carolau gan Beverley a Kelly a chafwyd ambell i garol Saesneg gan y rhai sydd wedi dod yma i fyw yn ogystal â doniau lleol.

Hefyd roedd amryw o blant yr ardal gartref ar eu gwyliau ac ymunwyd mewn canu carolau gan y gynulleidfa gyda chyfeiliant gan Mrs J.W. Jones a Mr Bleddyn Roberts.

Dyma rai a gymerodd ran yn ychwanegol at yr uchod – Alan, Iestyn ac Owain, Llinos a Karen, Charmaine, Michelle, Sian, Helen, Sharon a Monique.

Diolch yn fawr i Mrs J.M. Williams ac i bawb am noson ddifyr ac adeiladol.

LLONGYFARCHIADAU i Eilian Williams, Pennant, ar ei ddyweddïad â Gwen Jones o'r Bala.

EGLWYS SANT PERIS – Roedd yr eglwys yn llawn yn y Gwasanaeth hanner nos i ddathlu Gŵyl y Nadolig. Gweinyddwyd yr offeren gan y Rheithor, y Parch Alun J. Hawkins, yn cael ei gynorthwyo gan Mr Derek Jones, yr organyddes oedd Miss Jennifer A. Ellis, tra darllenwyd yr Epistol gan Miss Heather Wyn.

LLONGYFARCHIADAU - i Llinos Haf 10 Glanrafon ar fod yn llwyddiannus yn yr arholiad piano Gradd 1 (Theori) a chael tystysgrif dosbarth cyntaf.


COLEG PRIFYSGOL CYMRU
ABERYSTWYTH

GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG
I FYFYRWYR ALLANOL

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1985. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG
neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cymhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 12 Ebrill 1985.



LLOGI CEIR AR GYFER PRIODASAU AC ANGLADDAU. LLOGI BYSUS MINI.

J.M. WILLIAMS

TREFNYDD ANGLADDAU

CABS DEINIOLEN

12 TAI FAENOL, DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 871591

# Eco'r Wyddfa

Chwefror 1885 — PAPUR BROFAOL CYMREIG — Pris 1 geiniog

Registered for transmission abroad



**At Drigolion LLANBERIS CWMYGLO EBENEZER**

Newyddion da
Nwyddau rhad
Ar gyfer y gauaf

. . .

Esgidiau i Ddynion
Esgidiau i Ferched
Esgidiau i Blant
Os ewch i stonding

**ISAAC ROBERTS A'I FAB**

Yn llofft y Farchnad, Caernarfon

Cewch weld

**Y STOC FWYAF**

a welsoch erioed o'r ESGIDIAU GOREU A'R RHATAF

. . .

Ceir yr un cyfleusdra am fargen ag a geir yn ein siop yn Mangor

Sicrhawn hefyd fod **Y Prisiau yn is nag erioed!**

**PEIDIWCH AG ANGHOFIO!**

Fe fyddwch ar eich hennill yn fawr trwy dalu ymweliad a'r Stonding

**ISAAC ROBERTS A'I FAB LLOFFT Y MARKET CAERNARFON**

**SALE FAWR**

**YR AFR AUR**

Y mae y canlynol yn parhau ar gael:
Ychydig ddwsinau o UMBRELLAS ALPACA a SIDAN i'w gwerthu yn hynod o rad.

250 o HETIAU FFELT i fechgyn mewn DU, GLAS neu BROWN – am 9½c – gwerth 1/6

HOSANAU I DDYNION am 6c – gwerth 10½c

Lot fawr o CALICOS MELYN CAEROG llydan am 2 geiniog

Digon o'r WLANEN LWYD dda honno – newydd ddyfod i mewn am 3½c.

Lot fawr o STYFFIAU at BEISIAU am 5½c – llathen o led; pris ½c (mewn patrymau mân)

**PIERCE & WILLIAMS**

**HADAU! HADAU! HADAU!**

**T. MORRISON – NURSERYMAN**

A ddymuna hysbysu ei gyfeillion lluosog, a'r Cyhoedd yn gyffredinol, ei fod wedi symud o Rhif 9 Stryd y Llyn i'r SIOP NEWYDD (wedi ei threfnu yn briodol ar gyfer ei fasnach) yn yr

**HEN FARCHNAD GIG, CAERNARFON**

Dymuna T. Morrison ddychwelyd ei ddio.chgarwch gwresog i'w Gwsmeriaid lluosog am eu Cefnogaeth garedig hyd yn hyn, ac hydera drwy dalu sylw dyladwy i'w Fusnes, y parheir i sicrhau cefnogaeth.

**COED FFRWYTHAU! RHOSYNAU! BYTHWYRDDOLION!**

A phob planhigion ereill i'w cael gan

**T. MORRISON**

Gwerthwr Hadau a Nurseryman
**STRYD FAWR A STRYD Y FARCHNAD CAERNARFON**

**RHYBUDD PWYSIG**

Defnyddiwch yr unig

**LIW GLAS PARIS o eiddo RECKITT**

Gwrthodwch bob efelychiad isel-bris sydd wedi ei rwymo mewn raglen er mwyn efelychu LLIW GLAS PARIS o eiddo RECKITT

Y mae Lliw Glas Paris bob amser yn dda, ac y mae ychydig ohono yn mynd ymhell iawn, ac yn rhoddi lliw hardd i'r lliain.

Gwelwch enw
**RECKITT**
ar bob rhaglen.

**COMPOUND KAY**

at beswch ac annwyd – sydd yr un mor wasanaethgar i geffylau a gwartheg
Prisiau: 9½c. 2/9.

**COMPOUND KAY**

**DODREFN! DODREFN! DODREFN!**

Pob math o Cypyrddau, Chests of Drawers, Cadeiriau, Sofas.

. . .

Guards ac Alberts Aur.

. . .

Pa le y ceir stock harddaf, ac yn sicr, rhataf yng Nghymru?
Ateb gan

**JOHN GRIFFITH 38 HIGH STREET CAERNARFON**

D.S. Modrwyau aur priodi. Room breifat i'w ffitio.

# HELYNT Y FYNWENT RYDD yn ardal Y WAENFAWR A'R BETTWS

## Brwydr yr Eglwyswyr a'r Ymneilltuwyr yn Ffyrnigo

Ym mis Hydref 1884, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Waenfawr gyda'r bwriad o sefydlu pwyllgor i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael Mynwent Rydd i'r ardal gan fod Mynwent Bettws Garmon yn llawn. Yn y cyfarfod hwnnw, pasiwyd i Mr T. Jones, yr Ysgolfeistr fod yn Ysgrifennydd, a'i fod ar gais y Cyfarfod i ysgrifennu i berchennog y tir gerllaw Mynwent Bettws Garmon i ofyn a fyddai'r perchennog yn foddlon i werthu y darn tir hwnnw.

Perchennog y tir hwnnw yw'r gwr bonheddig Mr Jones o Borthmadog. Cawsom ganiatad ganddo i gyhoeddi llythyr a dderbyniodd gan Mr Jones, Ysgolfeistr Waenfawr ac Ysgrifennydd y Pwyllgor i geisio am Fynwent Rydd.

Dyma'r llythyr:

"Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yma ddydd Llun, i gymeryd i ystyriaeth yr angenrheidrwydd am gael claddfa rydd yn perthyn i'r ardal, gan fod mynwent Bettws Garmon wedi llenwi. Pasiwyd ein bod yn anfon attoch i ofyn a fyddech yn foddlawn i werthu darn o dir wrth ochr Mynwent Bettws, ac am ba bris. Teimlaf yn ddiolchgar am air oddi wrthych.

Thomas Jones."

Deallwn oddi wrth ein gohebwyr yn ardaloedd y Waenfawr a'r Bettws Garmon fod llawer iawn o ymffreuo a dadleu wedi digwydd yn yr ardal ers y cynhaliwyd y Cyfarfod Cyhoeddus hwnnw. Y mae yr Eglwyswyr yn credu fod yr Ymneillduwyr am ddwyn tir gerllaw eu mynwent hwy; ac y mae'r Ymneillduwyr yn yr un modd yn ddrwgdybus iawn o fwriadau'r Eglwyswyr yn gwrthwynebu iddynt gael Mynwent iddynt eu hunain gerllaw un y Bettws. Mae'r dadleuon wedi achosi peth loes i lawer o'r trigolion, ond y mae'n ymddangos ar hyn o bryd mai poethi y mae'r ddadl, ac y bydd yn rhaid wrth awdurdod uwch i benderfynu beth fydd tynged y Fynwent Rydd.

Er mwyn ceisio lliniaru peth ar deimladau y ddwy ochr, ceisiasom fyned at wreiddyn y ddadl, a chawsom sgwrs gyda dau o'r personau hynny sydd ar flaen y gad. Cyhoeddwn yma sylwadau y ddau rheini:

Y mae'r Parchedig D. Lewis, Ficer y Waenfawr yn dadlau'n gryf yn erbyn safle'r Fynwent Rydd:

"Y mae y brif-ffordd i Beddgelert yn rhedeg un ochr i'r fynwent, Bettws Inn a'r ardd y naill ben iddi, a'r tir yn y pen arall yn gogwyddo gormod at yr afon i gael mynwent sych; ac o ganlyniad, rhaid fod Mr Thomas Jones & Co. wedi bradgynllwyn i gymeryd oddi arnom ni yr unig ddarn tir addas fel claddfa wrth ochr; ie, **unig** ochr, mynwent y Bettws.

Os bydd raid i'r mater gael ei benderfynu mewn llys barn, cofiwch y bydd raid i hyd yn oed ysgolfeistriaid ffrwyno eu teimladau mewn lle o'r fath, ac nid rhoddi rhaff iddynt fel ag y gwneir weithiau mewn cyfarfodydd ethol bwrdd ysgol."

Ond y mae Mr Thomas Jones, yr Ysgolfeistr yn dadleu yn wahanol:

"Honnir i flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ymdrechu cael gan Mr Jones, Portmadoc, yr **unig** ddarn tir hwnnw yn y Bettws i'r Ymneilltuwyr, a thrwy hynny, gau yr Eglwys allan yn llwyr ac am byth; a'r tir hwnnw wedi ei addaw i'r Eglwyswyr i helaethu Mynwent y Bettws. Y mae y cyhuddiad yn hollol anheg, oblegid fod yn y Bettws gyflawnder o dir tuag at eangu mynwent y Bettws, a digon o le ychwanegol i gael mynwentydd. Ni ofynnwyd am ddarn penodol o dir o gwbl."

Dyna deimlad dau o arweinyddion y frwydr; ond beth yw eich barn chwi ar yr ymrafael? Anfonwch eich llythyron atom i'r papur hwn er mwyn i bawb gael cyfle i leisio barn.

# CEUNANT

**Marwolaeth Ddisyfyd**

Ddechrau Ionawr, bu David Hughes, gyriedydd adnabyddus perthynol i'r Sportsman Hotel, Caernarfon, farw yn hynod ddisymwth ar y ffordd ger Panthyfryd. Yr oedd efe ar y pryd yn gyrru cerbyd yn yr hwn yr oedd Mr. Rowland Jones, trafaeliwr gyda'r Meistri Jones a Price, gwin fasnachwyr. Pan wedi disgyn ar y ffordd, gwelwyd Hughes gan Mr. Jones yn cwympo. Aeth Mr. Jones ato, a chafodd gynorthwy, ond yr oedd David Hughes wedi marw ymhell cyn i'r Dr. Hughes, Waenfawr, allu cyrraedd y lle.

**Priodas.** Griffith John Hughes â Mary E. Griffith, Plastirion Lodge, Llanberis, yng Nghapel Coch, Llanberis ar Ragfyr 31 1884.

**Gwellhad buan:** Y mae ein hannwyl weinidog, y Parch Edward Roberts yn bur wael. Dymunwn adferiad buan iddo.

# DINORWIG

**Marwolaeth:** Ionawr 3 bu farw Mrs. Alice Roberts, annwyl briod Mr. Thomas Roberts, Chwarel Fawr, yn 64 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn mynwent Machpelah. Yr oedd yn aelod dichlynaidd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ninorwig.

**"Gadawodd briod hoff yn myd y siom,**
**Mewn hiraeth dwys i gario 'calon drom';**
**Yr undeb dorrwyd – cwlwm oes ddinam,**
**A 'deg o blant' a welsant briddo'u mam.**
**Bu'n wraig grefyddol, siriol ar ei rhawd,**
**A charedigrwydd purlawn yn ei nawd:**
**Gorphwysed mwy mewn hedd, tra'r awel wibia**
**O amgylch cell ei hunell yn Machpelah."**

**Glan Padarn**

**Cyfarfodydd Pregethu.** Y mae trefniadau yn cael eu gwneud i gynllunio cynnal pregethau ar y Pasg yn yr Ysgoldy, Disgwylfa, Cefnywaen ac yma; y pregethwyr i fyned ar gylch drwy'r capelau. Mwy o fanylion yn ein rhifyn nesaf.

# CWM-Y-GLO

**Marw:** A hithau'n ddim ond 23 oed, bu farw Maggie, merch ieuengaf Hugh Prichard y postman, dri diwrnod wedi'r Nadolig. Ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu oll yn eu trallod.

**Priodas:** Yng Nghaernarfon, ddiwrnod ar ôl y Nadolig, priodwyd J. Griffith Jones, Bryngro â Catherine Roberts, Sportsman Hotel, Caernarfon.

# LLANBERIS

**Priodasau:** Ddiwrnod cyn y Nadolig '84 yng Nghapel Moriah, Caernarfon, priodwyd Evan William Evans, Charlotte Street â Mary Closs Williams, Garreg Wen.

Priodas fy nghyfaill, sef Mr. E.W. Evans, Charlotte Street, Llanberis a Miss Mary Closs Williams, Carregwen, Llanberis.

**O fro deg yr hyfryd un – i fro dlos**
**Hyfryd wlad y ddau-un;**
**Yn geindeg, ond rhyw gyndyn**
**Evan a ddaeth i fy'n ddyn.**

**Moriodd i fynwes Mary – 'nara deg**
**Mal gŵr doeth, o ddifri,**
**A'i rediad at briodi – ac yn siwr**
**'Rydoedd o'n garwr redodd hen gewri.**

**Heigied ar bob rhyw egwyl – lawenhad**
**O law nef i'th breswyl;**
**Fy hen ffrynd da, mwynha mewn hwyl!**
**Y Garreg Wen, a gwraig annwyl.**

**Granvillefab**
**Austin, Texas**

Ar ddiwrnod olaf yr hen flwyddyn, yng Nghapel Coch, priodwyd Griffith John Hughes, Ceunant, Llanrug; ac yn ddiweddar o Dde Affrica, â Mary E. Griffiths, Plastirion Lodge.

Ar Ionawr 22ain, priodwyd John David Williams, Maenllwyd Isaf, ag Elizabeth Morris, Dolbadarn Hotel.

Bydded i'r tri phâr bob bendith yn eu bywyd newydd yn y stad briodasawl.

**Blaenor** Yng Nghapel y Methodistiaid Calfinaidd, Preswylfa, ar Ionawr 5, derbyniwyd John Edward Roberts yn flaenor gyda'r eglwys.

**Marwolaethau**

Y mae ein cydymdeimlad yn fawr â theuluoedd a chyfeillion y rhai hyn a adawodd y fuchedd hon yn ddiweddar.

Mrs Margaret Morgan, Alltgoch a fu farw ar Ddydd Calan.

Ar Ionawr 24, Eliza Jane, merch fach 3 mis oed Mr. Thomas Roberts, 'Snowdon"

Ionawr 28, yn bedair a phedwar ugain oed, Grace, priod Mr. Charles Currie, Llwyncelyn.

Ionawr 29, Mrs Catherine Williams, Cwm Meilir, yn saith deg a phedair oed.

# Y FACHWEN

**Atgyweirio:** Deallwn y dechreuir yn fuan ar y gwaith o adnewyddu'r capel oddi mewn. Bydd yn cael ei wneud ar draul o £400.

**DIHAREB Y MIS**

Os gwnewch eich hun yn ful, bydd pawb a'i bwn ar eich cefn.

O wlad y Daniaid


# DWYWAITH O AMGYLCH Y BYD

## Hanes Teithiau Y Cymro Enwog o Ffestiniog a Lerpwl

## Y diweddar WILLIAM OWEN THOMAS

**480 o dudalennau. Pris 5/-: ond cynigir ef am dri mis yn unig am 4/3**



# MR. T. CAPON
## SURGEON DENTIST

**'MARINO'**
**20, NORTH ROAD, CAERNARFON**

Sydd yn ymweld â'r lleoedd canlynol yn eich ardal chwi:-

**LLANBERIS**- Y dydd Mawrth cyntaf ar ôl Sadwrn tâl yn nhŷ Mr. John Huxley Thomas, Rotherham House o 4 - 7

**EBENEZER** - Yr ail ddydd Mawrth ar ôl Sadwrn tâl yn nhŷ Mr. Thomas, Caradog Place o 3 - 7

# EISTEDDFOD CHWARELWYR DINORWIG
# UCHELGAIS ORMODOL?

Chwi a gofiwch i ni grybwyll yr uchod yn ein rhifyn a ddaeth o'r printers cyn y Nadolig 1884. Roedd cyfarfod arbennig wedi ei alw yn Ysgoldy Deiniolen i drafod y posibilrwydd o sefydlu Eisteddfod i Chwarelwyr Dinorwig. Cynhaliwyd y cyfarfod cyhoeddus ar Ragfyr 10fed; etholwyd Mr Dewi Peris Jones yn Gadeirydd ac Ap Deiniol yn Ysgrifennydd. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw fod yr anrhydeddus ysgrifennydd i anfon llythyrau i bob rhan o Chwarel Dinorwig, yn gofyn ar iddynt anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod nesaf. Bu'r ymateb yn ysgubol, a threfnwyd y cyfarfod hwnnw ym Mhonc Steam Mills Jarret ar Ragfyr 17. Adroddwyd fod y ponciau i gyd yn ffafriol i'r syniad.

Ond yn y cyfamser, bu rhai yn gwrthwynebu y syniad hwnnw, ac yr ydym yma yn cyhoeddi rhannau o lythyr W.H. sydd yn amheus iawn o fwriad ac amcanion y chwarelwyr. Gadawn i chwi, ddarllenydd doeth, bwyso a mesur y dadleuon o'r ddwy ochr, a byddwn ninnau yn ddigon parod i roi lle teilwng yn y papur hwn i unrhyw lythyr a dderbyniwn ar y mater llosgawl hwn.

Dyma lythyr W.H.:

**"'Chwarelwyr Deiniolen a Llenyddiaeth'**

Ymddengys fod rhyw gyffrawd llenyddol yn ymdonni dros Chwarelwyr Dinorwig yn y dyddiau hyn, yr hwn sydd yn ddigon nerthol i ddwyn eisteddfod chwarelyddol fawr ar ei war. Gobeithio na chollir y llong na'i llwyth yn yr ymchwydd, ond y glania yn ddiogel yn hafan llwyddiant.

Y mae y cyffro hwn yn rhyfedd a dieithr, ond tra yn y gwaith, sylwer, yr ysgydwir hwy gan y cyffrawd hwnnw. Nid oes dim brwdfrydedd gartref dros lenyddiaeth. Gwywai yr Undeb Llenyddol drwy'r blynyddoedd, ac eleni, darfu amdano. Sefydlwyd Cymdeithas Lenyddol a Dadleuol pobl ieuanc Dinorwig a Deiniolen, ond y mae nychdod dygn yn ymborthi ei bywyd hithau ers talm.

Ond y mae y bobl am eisteddfod!

Y dyn na fedr rwyfo cwch dros Lyn Padarn yn tybio y gall lywio y 'Great Eastern' dros y 'Werydd!

Ad-drefner yr hen Undeb Llenyddol enwog: bydded ei derfynau yn eang fel cynt, ac yn eangach!

A ydyw ymsyniadau W.H. yn gywir? Ai yn y gwaith y mae'r chwarelwyr am drefnu eu llenyddiaeth? Pam nad ydyw Undebau Llenyddol y cylch yn ffynnu? Anfonwch eich ymatebion i'r papur hwn.

# BETHEL

Damwain Angeuol i Gymro Ifanc Oddi Cartref

Derbyniasom y newyddion trist am farwolaeth Thomas Thomas Hughes, mab Thomas a'r ddiweddar Catherine Hughes, Cremlyn. Morwr oedd wrth ei alwedigaeth, a thra'n cyflawni ei orchwylion ar fwrdd y 'barque' "Glanperis" perthynol i Gwmni Llongau Llanberis, cyfarfyddodd â damwain angeuol ym mhorthladd Newcastle, New South Wales, Awstralia ar Dachwedd 28ain 1884. Fe'i claddwyd yn Newcastle ar Ragfyr 6ed.

**Canlyniad Cwest** ar Robert Jones, Gongl Ddu. Tua mis yn ôl yr ymadawedig yn yfed yn Nhafarn y Gors Bach. Wrth ddychwelyd adref, rhoddodd bibell â thân arni yn ei boced. Aeth ei ddillad ar dân a llosgodd ei ochr yn ddrwg iawn. Bu'n orweddog heb fwyd, a drws ei dŷ wedi cloi, nes trengi. Rhoddwyd 'dedfryd agored' arno.

**LLANBERIS**

# EBENEZER

**Damwain Angeuol**

Cymerodd amgylchiad difrifol iawn le yma nos Fawrth, 6ed o Ionawr. Fel yr oedd Mr. Griffith Hughes, perchennog y Prince of Wales Inn yn myned i'w wely digwyddodd iddo, drwy ryw ddamwain, gwympo i lawr oddi ar y grisiau. Ni ynganodd yr un gair byth, a bu farw rhwng chwech a saith boreu ddydd Mercher. Yn y trengholiad, rhoddwyd dyfarniad o 'Farwolaeth ddamweiniol'. Yr oedd yr ymadawedig yn frawd i Mr. Hugh Hughes, Vermont, America, yr hwn a gyfarfyddodd â damwain angeuol ychydig fisoedd yn ôl.

MARW – Ar Ionawr 16, a hithau yn bedwar ugain oed bu farw MARY, annwyl briod Mr. William Williams, asiedydd, 15 Caradog Place. Dymunir ar i'r papurau Americanaidd gofnodi'r uchod.

# LLANRUG

**Llwyddiant Eisteddfodawl:** Llongyfarchion i Mr. John Pritchard a Miss Parry am ennill y wobr gyntaf ar y ddeuawd yn Eisteddfod Goronnog Llangefni ddydd Nadolig 1884. Bu Miss Parry a'i chwmni hefyd yn fuddugol ar ganu 'Fy angel bach'.

**Priodas:** Yng Nghapel Mawr, Llanrug, ddau ddiwrnod cyn y Nadolig '84; priodwyd Mr. Daniel Owen Davies, Penybuarth a Miss Miriam Jane Williams, Drwsddeugoed. Dymunwn yn dda i'r ddau yn eu bywyd priodasawl.

# WAENFAWR

**Cwmni Dramayddol y Waenfawr.** Mae'r Cwmni wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer rhoi perfformiad o'r ddrama 'Glyndŵr' yn y Guild Hall, Caernarfon, ddiwedd mis Chwefror. Y mae y chwilfrydedd a achoswyd gan berfformiadau y cwmni hwn mewn lleoedd eraill yn sicr yn ddigon o ernes am lwyddiant y perfformiad yng Nghaernarfon.

**Marwolaethau.** Ionawr 12 yn 59 oed, bu farw Mary, priod Mr. Phillip Jones, Gall y Bont.

Ionawr 19 yn 70 oed, bu farw Samuel Morgans, Glanygors. Yr oedd yn flaenor ymroddedig a duwiol yn y Waenfawr ers 1861. Gwr tawel, yn siaradwr eithaf rhwydd, a chysondeb yn ei feddyliau. Ofn mawr bod yn dramgwydd i rai eraill.

Cydymdeimlwn â'u teuluoedd oll.

# LLANDDEINIOLEN

**Swper i Gôr Eglwys St. Helen**

Cafodd y Côr, yn rhifo tua 50, eu gwahodd i swper danteithiol yn Glasgoed gan Mr. Trevor Hughes. Wedi clirio y byrddau, traddododd Mr. Hughes anerchiad dyddorol, a dywedodd y bwriadai sefydlu ystafell ddarllen yng nglŷn ag Eglwys ST. Helen mor gynted ag y byddai y ddyled ar yr adeilad wedi ei dileu. Ar ôl hyn cafwyd caneuon, carolau & a therfynwyd noswaith adeiladol gyda diolchgarwch gwresog i Mr. a Mrs. Trevor Hughes am y croesaw calonog a'r difyrrwch mawr a fwynhawyd.

**Arwerthiant yng Nghaernarfon**

Yn ystod y mis rhoddodd y Meistri E.H. Owen a'i Fab, lyfrau diweddar beriglor Llanddeiniolen ar werth. Yn mysg y llyfrau roedd Geirlyfr Cymraeg/Lladin a Lladin/Cymraeg Dr. Ioan Davies.

---

Mae'r tywydd wedi bod mor dyner mewn rhai lleoedd yn Ngogledd Cymru fel y ceid briallu yn y dyffrynoedd.

# HYNODION O'R NEWYDDION

Credir fod dros 40,000 o bobl allan o waith yn Llundain, a gellir dywedyd eu bod yn cynrychioli 150,000 o bersonau; ond y mae 'play' yn myned ymlaen yn 'Drury Lane Theatre' sydd yn costio £2,000 yr wythnos; ac yr oedd swm o £12,000 wedi ei gael trwy 'bookio' ymwelwyr cyn i'r 'pantomime' gael ei chwareu.

---

Yn ôl adroddiad swyddogol y Llywodraeth, treuliwyd £247,130 ar lawddrylliau at wasanaeth y fyddin yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

---

Bydd i faintioli y stamp dimai gael ei leihau cyn bo hir, er na newidir ei liw; os cydymffurfir ag awgrymiad Pwyllgor y Llythyrnodau a fu yn cyfarfod yn ddiweddar i ystyried lliw a maintioli ein llythyrnodau drwyddynt draw.

---

Hebryngwyd William Armstrong i gladdfa Watford ... ond yr hyn a osododd hynodrwydd ar ei gynhebrwng oedd maintioli anferth yr arch; yr hwn oedd chwe troedfedd a naw modfedd o hyd, tair troedfedd ar draws yr ysgwyddau, a dwy droedfedd o ddyfnder. Llogwyd men i gludo y corph i dŷ ei hir gartref, gan nas gellid cael elorgerbyd a'i cynhwysai. Pwysai yr ymadawedig agos i bedwar can pwys, a bu am flynyddoedd yn cadw tafarndy.

---

Y mae pedwar allan o bob pump o erwau tiroedd y wlad hon yn perthyn i tua chwe chant o bobl. Nid yw felly yn syndod fod y rhan fwyaf o'r 37,000,000 trigolion yn methu cael lle i fyw.

---

Dirwywyd siopwr yn yr Wyddgrug i hanner coron o'r costau am werthu 'butterine' yn lle ymenyn, a bu rhaid i ddau yng Nghaer dalu dirwy o 50 swllt a'r costau am yr un trosedd. Ymddengys fod twyll yn y cyfeiriad yma yn beth cyffredin drwy y deyrnas, a bod yr heddgeidwaid yn deffro i amddiffyn y cyhoedd rhagddo.

---

Ym mhen ychydig o amser bydd y twnel dan afon Lerpwl yn barod i osod rheiliau ar ei waelod. Y mae gwaith y seiri meini arno wedi ei lwyr orphen. Ei hyd sydd 1300 llath.

---

Y mae Sultan Twrci wedi pryn 'tricycle' yn Llundain at wasanaeth ei wragedd.


## Yn eisiau yn ddioed:
## 12 o FERCHED IEUANC CYMREIG

i fyned i New South Wales, Awstralia, fel morynion i Amaethdai ac i Deuluoedd Preifat.

Cyflogau; o £20 i £50 y flwyddyn

Dwy bunt ydyw y Cludiad gydag Agerlong o Plymouth i Sydney

Ymofyner â Goruchwyliwr Llywodraeth New South Wales,
Herald Office, Caernarfon



**Sales by Messrs Owen & Son**

## ETIFEDDIAETH PANTAFON

Pant Afon, Hafod, Pant Ifan bach,
Ynghyda'r holl Dir oedd berthynol
ym Mhlwyf Llanrug

**HEFYD**

Tan Dinas a'r Tir ym Mhlwyf Llandwrog
Gosodir yr oll o'r uchod wrth
AUCTION GYHOEDDUS
dydd Iau, Chwefror 12es, 1885

**Pob manylion yn yr hysbyslenni**
**William Hugh Owen, Goruwchwyliwr**

# YMDDYGIAD HYNOD CYMRO YN YR UNOL DALEITHIAU

## Robert Closs o Lanberis yn neidio o Gerbydres

A ninnau ar fyned i'r printers, derbyniasom y newyddion trist a gofnodir gennym isod. Gobeithiwn roi mwy o wybodaeth i chwi yn ein rhifyn nesaf ynglŷn â'r digwyddiadau hynod a gofnodir yn yr hanesyn hwn o wlad bellenig yr Unol Daleithiau.

Derbyniodd Mr. John Closs o Fair Haven, Vermont, lythyr oddi wrth ei nai, John D. Closs o Cambria, Wisconsin, yn ei hysbysu fod ei gefnder, Robert Closs, tra yn teithio tua Chicago, wedi neidio oddi ar y gerbydres fuan, pan oedd yn myned yn ei llawn gyflymder, ac nad oes dim gair wedi ei glywed yn ei gylch er hynny.

Aeth Robert a John D. Closs i America o Lanberis yng ngwanwyn 1884 i weithio yn chwarelau Pennsylvania. Oddi yno, symudasant at eu hewythr nes i'r chwarelau sefyll dros y Nadolig. Gan nad oedd yn debyg y dechreuid gweithio y chwarel honno am beth amser, penderfynasant fynd i Wisconsin at berthnasau eraill.

Wedi treulio'r Nadolig yn New York, symudasant i New Canton, Virginia, ac yno y penderfynasant godi ticed i fyned i Chicago. Cyrraeddasant Indianapolis ar Ionawr 4 eleni. Yno, yn ôl fel yr ysgrifennodd John D. Closs at ei ewythr – "ffeindiwn fod rhywbeth yn bod ar Bob. Yr oedd ei lygaid yn fflamio yn ei ben, ac yr oedd arno ofn pawb ddeuai i'n cyfarfod ar y stryd." Er i John D. Closs erfyn arno i ymweld â'r doctor, gwrthod a wnaeth Bob.

### AR Y GERBYDRES

"Ar ôl i'r tren gychwyn, dyma fo'n dweud wrthyf fod y 'conductor' yn sicr o'n lladd ni. Dywedais innau wrtho am beidio cyboli lol mor wirion. Ar ôl hyn cysgodd, ac mi gysgais innau. Wedyn, y peth cyntaf a glywais oedd ei glywed wrth ddrws y cerbyd yn gwaeddi 'Tyrd i lawr, y maent yn mynd i'n lladd ni'; ac ar y foment dyna fo yn neidio o'r tren mor sydyn a mellten. Neidiais innau i'r drws mor fuan ag y gallwn, gan feddwl ei ddal, ond yr oedd wedi mynd i lawr. Mor fuan ag y ffeindiais hynny, rhedais yn ôl am fy het a'm top coat, gael i mi neidio i lawr ar ei ôl, ond daliodd y 'conductor' a'r 'brakeman' fi. Gofynais iddynt stopio y tren mewn mynyd, ond gwrthodasant wneud. Nid oedd y tren yn stopio mewn dim un depot nes cyrraedd Chicago. Neidiodd Bob annwyl o'r tren am dri o'r gloch y boreu pan oedd o fewn 135 milldir i Chicago. Yr oeddwn yn Chicago erbyn saith yn y boreu ddydd Llun. Y cyntaf a welais oedd policeman, a dyma yn dod ataf ac yn gofyn i mi am beth yr oeddwn yn crio. Dywedais wrtho bob peth o'm helynt."

Deallwn fod 'conductor' y gerbydres wedi ei gymeryd i'r ddalfa am beidio a stopio'r tren yn ôl ei ddyletswydd.

Arhosodd John D. Closs yn y depot yn Chicago am ddau ddiwrnod i ddisgwyl am unrhyw newyddion am Robert, ond er iddo anfon pedwar telegraph, ni chlywodd ddim.

### ANOBAITH!

"Nis gwn yn y byd beth i'w wneud eto. Yr wyf wedi gwneud fy ngore – cymaint ag sydd yn fy ngallu, ond yr wyf bron a dyrysu o'i acho."

------

Yr oedd Robert Closs yn fachgen ieuanc dymunol iawn, yn dda ei foesau, ac yn un a hoffid yn fawr gan ei gydnabod. Trwy ei ddiwydrwydd yr oedd wedi medru casglu cryn dipyn o arian er nad oedd ond 22 mlwydd oed.

Hyd yr adeg yr ydym yn ysgrifennu, nid oes yr un gair wedi ei dderbyn yn ei gylch o gwbl, ond ofnir fod y cwymp wedi profi yn angeuol iddo. Y mae ein teimladau gyda'i rieni yn Llanberis a chyda'i berthnasau a'i gyfeillion yn yr ardal.

### PERYGLON CHWAREU Y BEL-DROED

Dywed y 'British Medical Journal' mewn erthygl ar y cwestiwn yma, nid yn unig fod llawer o chwareuwyr yn cael torri eu hesgyrn a'u pennau yn y fath chwareu ffol, ond hefyd fod ugeiniau o fechgyn 'delicate' y swyddfeydd a'r masnachdai, drwy or-luddedu eu cyrph yn y chwareuon hyn, yn magu ynddynt afiechyd y galon, ac yn dyrysu y gyfundrefn gieuol.

Nid chwareu iachusol, dewr a dynol ydyw mewn gwirionedd, ond difyrrwch barbaraidd ydyw, yr hwn a ddylai ddilyn ymladd teirw i ddifancoll.

Dylai dynion ieuanc ein gwlad roddi clust o ymwrandawiad i awdurdodau mor hyddysg a'r uchod ynglyn ag afiechydon a gwallau y corph dynol.

## 'SKATIO' YM MHANTAFON, LLANRUG

Yn dilyn y tywydd rhewllyd diweddar, deallwn i'r Parch Henry Bailey Williams wahodd nifer o'i gyfeillion o dref Caernarfon i 'skatio' ar y llyn. Yn anffodus, nid oedd y rhew yn ddigon cryf a bu nifer o ddamweiniau; cyn gymaint â deg ohonynt yn gwlychu, ac un yn suddo hyd at ei wddf. Deallwn fod y Parch Bailey Williams yn falch iawn o addasrwydd y llyn i 'skatio', a'i fod yn mynd i drafferthion i gael wyneb y llyn yn barod ar dywydd oer i'r 'skaters'. Wedi diwrnod o 'skatio' bydd wyneb y llyn wedi ei dorri i fyny, ond mae gan y Parch Bailey Williams ddyfais i dywallt dŵr poeth ar yr wyneb ac yna o orlifo y llyn fel bod wyneb llyfn arno yn barod i'r rhew nesaf. Llongyfarchwn ef am ei feddylgarwch dros 'skaters' Caernarfon.

## STORI WIR

Gwelodd pregethwr trystfawr ddynes a baban yn wylo ganddi yn myned allan o'r eglwys. "Nid yw eich baban yn fy aflonyddu," meddai y pregethwr wrthi. "Nid fel yna y mae, syr," meddai y ddynes, "y chwi sydd yn aflonyddu ar y baban."

## O'R LLYS SIROL

### MARCHOGAETH MERLYN YN WYLLT AR Y FFORDD FAWR

Cawsom nifer o gwynion o ardal Llanberis yn ystod y misoedd diweddaf am nifer o lanciau yn marchogaeth eu merlod yn wyllt ar hyd y ffordd fawr, ac yn achosi cryn anniddigrwydd i ffordddolion eraill. Da gennym gyhoeddi fod yr arferiad hwn wedi dod i sylw'r awdurdodau priodol, ac y bydd llai o berygl i ddefnyddwyr y ffordd fawr yn ardal Llanberis o hyn ymlaen.

Er mwyn rhoi diwedd ar yr arferiad, gwnaeth yr awdurdodau esiampl o David Williams, gwas i Mr John Jones, Ty Clwt; a'i ddirwyo i ddeg swllt a chostau am farchogaeth merlyn yn wyllt ar y ffordd fawr. Cafwyd amryw o gwynion cyffelyb amdano yn yr ardal.

### RHWYSTRO TRAFNIDIAETH

Yn y Llys Sirol yng Nghaernarfon, cyhuddwyd Griffith Hughes, Ceunant, o fod wedi troseddu y gyfraith drwy dorri twll yn y ffordd fawr rhwng Ceunant a Chaehoedyn, ac hefyd i ganiatau tua pump llwyth o dywod i orwedd ar y ffordd am amser gormodol, a thrwy hynny, rwystro trafnidiaeth. Dywedodd y cyhuddiedig y credai ei fod yn gweithredu yn gyfreithiol os y gwnaethai y ffordd yn iawn wedi iddo orffen.

## Y GOLOFN GOGINIAETH

**Cinio Rhad**

Prynwch werth swllt o'r darnau rhataf o gig eidion neu ddafad. Torrwch ef yn ddarnau mân, gan ei roddi mewn dau chwart o ddŵr, a gadewch iddo sefyll yn ymyl y tân nes y berwo, ac yna, bydd yn soup tra maethlon. Gellir ei dewychu â blawd ceirch, rice, bara wedi ei grasu, neu gellir ei dywallt ar gloron. Gellir twymo y soup a'r cig gyda llysiau eraill i ginio drannoeth. Yn y dull hwn, aml y gwna gwerth swllt o gig ddigon o ginio am dri diwrnod. Halen a phupur i'w hychwanegu yn ôl yr archwaeth.

**Wyau mewn Teisennau**

Os peidir â rhoddi wyau mewn teisennau nes y byddo yr holl ddefnyddiau eraill wedi eu cymysgu, gwna dau yr un gwasanaeth â thri – pan eu dodir i mewn yn gynt.

**Boreufwyd rhagorol i Blant**

Malwch dri neu bedwar o wynwyn, a berwch hwy mewn tri chwart o ddwfr; yna ychwanegwch beint a hanner o yd Indiaid, wedi ei fwydo yn flaenorol mewn dwfr oer. Berwch y cyfan am hanner awr neu fwy. Ychwanegwch bupur a halen; ac os gellir, beint neu chwart o laeth wedi ei hufenu, a gellwch roddi ychydig o fara ynddo wrth ei ddefnyddio. Ni chostia y cyfan uwchlaw pedair ceiniog, a gwna ddigon o bryd i hanner dwsin.

## YR AWDURDOD IECHYDOL GWLEDIG A LLADD-DY LLANBERIS

Mewn cyfarfod o'r Awdurdod Iechydol Gwledig yng Nghaernarfon, adroddwyd fod Rheolwyr Elusennau Tlodion Rhuthun wedi gwrthod gwerthu tir i'r bwriad o adeiladu lladd-dy cyhoeddus arno yn Llanberis. Dylai'r mater hwn gael sylw difrifol y plwyfolion gan fod y gwrthwynebiad yn hollol afresymol o gofio fod pobl Llanberis wedi gwneud cymaint i wella gwerth yr eiddo heb i'r llywodraethwyr wario dim. Penderfynwyd fod y mater yn cael ei drosglwyddo i Warcheidiaid y Plwyf.

## Y DDAMWAIN YN CHWAREL DOROTHEA

### CRONFA HAELIONUS I'R GWEDDWON A'R AMDDIFAID

Cofus i ddamwain drychinebus ddigwydd yn y chwarel uchod ar derfyn y flwyddyn ddiweddaf, pan y lladdwyd saith o ddynion ac yr anafwyd un arall. Gadawodd y lladdedigion hyn saith o weddwon a dau ar hugain o blant amddifaid heb unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer; ac ni fydd yr un a achubwyd yn alluog i ymaflyd yn ei waith am amser maith. Y mae tanysgrifiadau haelionus wedi dyfod i law eisoes.

Cydnabyddir unrhyw swm a ddymunir gyfrannu at anghenion y gwragedd a'r plant yn rhad ac am ddim yng ngholofnau 'Eco'r Wyddfa'.

Parch R. Thomas, Cadeirydd
W.W. Hughes, Trysorydd
N. & S.W. Bank, Penygroes.
W. Herbert Jones, Ysgrifennydd

## YSTORMYDD ENBYD O EIRA AR Y CYFANDIR

Yr wythnos diweddaf ysgubodd ystormydd enbydus o eira dros y rhan fwyaf o'r cyfandir, gan achosi colled bywydau ac eiddo. Yn y rhannau gogleddol o Italy yr oedd yr eira yn 7 metre o ddyfnder. Mewn lle o'r enw Deveis yn y rhan honno o'r wlad, yr oedd 60 o bersonau wedi eu claddu yn yr eira. Mewn lle arall, syrthiodd to eglwys i mewn gan gladdu nifer mawr o bobl oeddynt wedi dod yno am noddfa rhag yr ystorm. Yn Chaumont ceir fod yr eira yn wyth llath o ddyfnder.

Pellebyr o Paris a ddywed fod yr eira yn drwchus anarferol mewn llawer o fannau yn Ffrainc. Yn La Monte, claddwyd amryw o dai a nifer o bobl. Gwnaed dinistr mawr yn ngerddi a gwinllanoedd Ffrainc hefyd.

## HYNODION

Pan ofynnwyd i heddgeidwaid yn ddiweddar sut yr oedd pethau yn ei ardal ef, atebodd mai ychydig iawn o waith oedd yn ei gael yno, a'i fod ar fedr troi ei sylw yn fwy nag erioed att y capelydd, am mai ynddynt hwy y byddai 'rows' yn cymeryd lle amlaf y ddyddiau hyn.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

CYNGERDD NADOLIG

Nos Iau, Rhagfyr 21, trefnwyd cyngerdd Nadolig gan adran gerdd yr Ysgol, yn cynnwys eitemau gan gorau, partion, deuawdau, unigolion, grŵp llinynnol a chwythbrennau a Band Prês yr Ysgol. Mwynhawyd paned a mins pei wedi'r cyngerdd.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i'r plant canlynol a fu'n llwyddiannus mewn arholiadau offerynnol dan nawdd Colegau Cerdd Brenhinol Llundain:-

Dylan Williams - Gradd 3 - pres
Iwan Gruffydd Williams -Gradd 3 - pres
Sian Wyn Jones - Gradd 3 - pres
Gwyn Bowie Thomas - Gradd 4 - pres
Grahame Williams - Gradd 6 - pres
Gwenno Parri - Gradd 3 - ffidil
Menna L. Jones - Gradd 3 - ffidil
Emma Bernard - Gradd 3 - ffidil



*Gwyn Meirion — ar ei ffordd i'r Ffindir.*

CYNGERDD GWYL DEWI – Mae Senedd Ewrop wedi dynodi 1985, trydydd canmlwyddiant geni Bach, Handel a Scarlatti yn 'Flwyddyn Gerdd Ewrop'. Mae adran gerdd Ysgol Brynrefail yn bwriadu dathlu'r achlysur gyda chyngerdd Gwyl Dewi yn neuadd yr Ysgol ar nos Iau, Chwefror 28 am 7.30 p.m.Bydd tocynnau ar werth gan ddisgyblion yn Ysgol, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

GWYN YN Y FFINDIR – Llongyfarchiadau i Gwyn Meirion Roberts ar gael ei ddewis i chwarae trwmped i Gerddorfa Gwynedd sy'n mynd ar daith i'r Ffindir ym mis Mawrth

PARTI NADOLIG PENDALAR – Trefnodd disgyblion y chweched barti Nadolig i ysgol Pendalar ar ddydd Llun, Rhagfyr 12. Dechreuodd y prynhawn gyda gemau a chanu yn ystafell y 6ed. Ymlaen wedyn i'r cantîn lle y cawsant ddigon i'w fwyta, a chyfarfod â Sion Corn i gael anrheg.

Hoffai'r disgyblion ddiolch i Mr. Pleming am gasglu'r arian noddi, ac am drefnu'r anrhegion. Diolch hefyd i Mrs. Evans am drefnu'r bwyd.

TRIPIAU – Ar Ionawr 16 aeth Mrs. Beryl Jones, pennaeth yr Adran Saesneg, a hanner cant o ddisgyblion i Ysgol Tryfan i weld perfformiad o 'Cider with Rosie'Ar Ionawr 17 aeth Mr. Thomas, Mrs. Megan Roberts a Mrs. Evans â disgyblion o'r ysgol i Theatr Gwynedd ym Mangor i weld perfformiad o'r 'Three Penny Opera'.

SGÏO – Ar Ragfyr 19 aeth Mrs. Wros â12 o blant o'r ysgol i Gaeredin i Bencampwriaeth Sgïo Ysgolion Prydain. Yr oedd 36 tîm yn y gystadleuaeth ac Ysgol Brynrefail oedd yr unig un i fod gyda 3 thîm. Ysgolion yr Alban aeth a'r pump safle cyntaf gyda thimau'r ysgol yn 9ed, 16eg a 18ed.

PARAU BADMINTON – Ar ddiwedd tymor diwethaf cawsom gystadleuaeth Badminton (parau).Allan o ddeg pâr, enillwyd y gystadleuaeth gan David Addie a Susan Jones, gyda Neil Jones a Sioned Roberts yn ail.



*Susan Jones a David Addie*

CANLYNIADAU PÊL RWYD
Yn erbyn Ysgol Tryfan
Tim 13 yn colli 12 - 9
Tim 15 yn ennill 13 - 6
Yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle
Tim 13 yn ennill 15 - 6
Tim 15 yn ennill 16 - 8
Tim 17 yn gyfartal 1 - 1

GYMNASTEG NODDEDIG I ETHIOPIA – Dydd Sul, Ionawr 20, bu tair geneth, dan ofal Mr. Jenny Leetche yn cymryd rhan mewn gymnasteg noddedig am bedair awr yng nghampfa'r ysgol i hel arian at gronfa Ethiopia. Y genethod oedd Jillian Price(Llanrug), Kirsty McCann ac Anna Wood o Geunant. Casglwyd £24 gan Jillian, £15 gan Anna a £5 gan Kirsty. Llongyfarchiadau i'r tair am weithio mor galed.

Yr oedd yr arian a gasglodd y genethod yn rhan o'r cyfanswm o £360 a gasglwyd trwy'r ysgol tuag at blant Ethiopia.

PÊL DROED
Rownd Derfynol Adran Gwynedd Cwpan Ivor Tuck

Mewn gêm agos ar gae'r ysgol yn erbyn Ysgol Eifionydd, Porthmadog, cyfartal oedd y sgôr 2 - 2. Yn yr ail chwarae ym Mhorthmadog, cyfartal oedd y sgôr unwaith eto (2 - 2) ar ôl chwarae amser ychwanegol. Felly, roedd yn rhaid cymryd ciciau cosb i benderfynnu'r enillwyr.

Y canlyniad terfynol oedd 5 - 2 i'r Ysgol a bechgyn hŷn yr ysgol yn Bencampwyr Ysgolion Gwynedd.Y tro diwethaf i'r ysgol wneud cystal â hyn oedd yn y chwe degau pan oedd dau o'r athrawon presennol yn y tîm, sef Mr. Iwan Williams a Mr. Selwyn Allsup. Yn y tîm hwnnw hefyd oedd Gwilym Williams, John Richards a Percy Allen.

Fel pencampwyr Gwynedd fe chwaraeodd tîm yr ysgol yn erbyn Coleg Kelsterton o Lannau Dyfrdwy, yng Nghwpan Banc Barclay's. Fe brofodd y Coleg hefo dau chwaraewr rhyngwladol yn eu tîm yn llawer iawn rhy gryf i fechgyn yr ysgol a colli fu eu hanes am y tro cyntaf y flwyddyn yma o 8 gôl i 1.

Mae Steven Owen (Cwm y Glo) capten tîm pel droed yr ysgol wedi ei ddewis unwaith eto hefo pymtheg o fechgyn eraill o Gymru gyfan i fynd i Ganolfan Chwaraeon yng Nghaerdydd am hyfforddiant. Fel un o'r ddau gôl geidwad yn y garfan mae'n edrych fel bod gan Steven siawns dda iawn o gael ei gapio y flwyddyn yma.

GWYL NOFIO'R YSGOL
Cynhaliwyd Gwyl Nofio'r Ysgol ym Mangor ar ddydd Gwener, Rhagfyr 14. Sefydlwyd wyth record newydd. Dyma'r canlyniadau i gyd:

**Dull Rhydd**
Genethod Ieuengaf, Meinir Williams 24.46 eiliad (record); Genethod Iau, Mandy Williams 27.55 eiliad; Genethod Hŷn, Robina McLann, Llinos Davies 20.91 (record); Bechgyn Ieuengaf, Trystan Thomas 26.33; Bechgyn Iau, Dafydd Jones 22.62, Aled Jones (rhag ras) 21.87 (record); Bechgyn Hŷn, Iestyn Jones, 18.56 (record).

**Dull Broga**
Genethod Ieuengaf, Meinir Williams 38.81; Genethod Iau, Olwen Jones 32.54; Genethod Hŷn, Llinos Davies 28.26; Bechgyn Ieuengaf, Bryn Thomas 36.67; Bechgyn Iau, Aled Jones 29.06; Bechgyn Hŷn, Matthew Shaw 22.29 (record).

**Dull Cefn**
Genethod Ieuengaf, Meinir Williams 29.97 (record); Genethod Iau, Mandy Williams 30.76; Genethod Hŷn, Llinos Davies 28.46 (record); Bechgyn Ieuengaf, David Griffiths 34.86; Bechgyn Iau, Aled Jones 29.81; Bechgyn Hŷn, Iestyn Jones 24.28 (record).

Cyfanswn pwyntiau
Eilian – 82
Elidir – 126
Eryri – 82
Gwyrfai – 80

CODI PWYSAU – Llongyfarchiadau i Gwynfryn Williams (Penisarwaun) am ddod yn gyntaf ym mhencampwriaeth codi pwysau i blant ysgolion Cymru yng Nghaerdydd. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i Gwynfryn fod yn bencampwr ei wlad. Mae'n cael ei hyfforddi gan Ieuan Owen yn ei glwb yn Llanrug.

CWPAN IVOR TUCK
Yn Ysgol Uwchradd Prestatyn
Rownd Go-gynderfynol trwy Gymru Gyfan

**Brynrefail 4 Prestatyn 1**
(Brynrefail yn Bencampwyr Gwynedd a Prestatyn yn Bencampwyr Gorllewin Clwyd)

Ar ôl curo Porthmadog, Prestatyn oedd gwrthwynebwyr tîm yr ysgol ar y 25.1.85.


Chwaraeodd y bechgyn yn arbennig o dda yn y gêm yma – yn enwedig yn yr hanner cyntaf. Un o gefnwyr Prestatyn a roddodd y bêl yn ei rwyd ei hun pan oedd dan bwysau blaenwyr Brynrefail. Cyn hanner amser roedd Gwyn Morris wedi sgorio ddwy waith eto i roi'r ysgol dair gôl ar y blaen.

Fe wellhaodd chwarae'r ymwelwyr ar ôl yr egwyl ond anodd iawn oedd cael y bêl heibio i Michael Roberts, gôl geidwad yr ysgol. Hanner ffordd drwy'r hanner fe sgoriodd Prestatyn ond ymhen ychydig wedyn fe sgoriodd Gwyn Morris ei drydedd gôl i selio'r fuddugoliaeth. Perfformiad canmoladwy iawn unwaith eto gan y bechgyn o dan gapteniaeth brwdfrydig Stephen Owen.

Rhaid disgwyl yn awr i weld pwy fydd yr ysgol yn ei chwarae yn rownd gyn-derfynol y cwpan.

**POBL LLANRUG**
– ydych chi eisiau Eisteddfod yn y pentref eleni?
Os ydych
DEWCH YN LLU
i'r Ysgol Gynradd
erbyn 7.30
Nos Fercher, Chwefror 11
**CEFNOGWCH**
mewn ffordd ymarferol


Gan mlynedd yn ôl fel hyn y teithiai darpar gwsmeriaid Garej Minffordd, Bethel.



Gan rhifyn yn ôl – rhifyn cyntaf Eco'r Wyddfa – roeddem yn hysbysebu'r Morris Marina.

Mewn 100 rhifyn eto bydd ein ceir diweddaraf yn dal yn geir da. Dewch i'w gweld drosoch eich hun, gan gynnwys y ROVER newydd.

**GAREJ MINFFORDD BETHEL**

**Ffôn: Y Felinheli 670451**

**Dymuniadau gorau i Eco'r Wyddfa ar ei 100fed**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## PRIODAS EURAIDD 1940



O ganol miloedd o drigolion bro Eco'r Wyddfa fuo neb mwy haeddiannol i gael eu cofio na Mr a Mrs Richard Trevor Jones, gynt o Bontrhythallt. Buont yn ddiwyd iawn mewn gwasanaeth yn Y Winllan. Y mae eu coffadwriaeth hwy ac eraill yn annwyl ac yn fendigedig. Gobeithio y daw cyfle i roi'r hanesion am bawb ar gof a chadw.

Priodwyd Mr a Mrs R.T. Jones yng Nghapel Mawr M.C. Llanrug, Ionawr 31 1890. Gan eu bod wedi gadael Pontrhythallt ar symud i fyw i Gaernarfon, yr oeddynt yn dathlu eu priodas euraid yn Stryd Tithebarn. Buont yn cadw siop groser yno am flynyddoedd ac yn bur lwyddiannus.

Yr oedd R.T.J. yn 70 pan yn dathlu ei briodas euraid, a'i briod ddwy flynedd yn ieuengach.

Dechreuodd ef weithio yn y Chwarel yn Llanberis pan oedd yn 13 oed. Pan tua 22 mlwydd cychwynnodd fusnes fel cigydd yn Llanrug a chariodd y busnes ymlaen yno am 23 mlynedd.

Adeiladodd 28 o dai ym mhlwyf Llanrug. Bu'n aelod o un o'r cynghorau plwyf cyntaf. Cynrychiolai Caeathraw a Cheunant ar Gyngor Dosbarth Gwyrfai.

Yr oedd R.T.J. yn adnabyddus iawn mewn cylchoedd cerddorol. Bu'n arweinydd Cymanfa M.C. Cylch Caernarfon ac amryw gorau a phob amser yn barod i hyrwyddo achosion da. Yn 1939 trefnodd raglen o gerddoriaeth gysegredig a chanwyd gan gôr unedig yng Nghapel Engedi Caernarfon ar nos Sul. Darlledwyd y Rhaglen, ac R.T.J. oedd arweinydd y côr.

Wedi mynd i fyw i Gaernarfon, taflodd ei hun i weithio gyda'r achos cenhadol ym Marc Lane am ugain mlynedd. Ef oedd Llywydd yr Achos ac Arolygydd yr Ysgol Sul.

Bu hefyd yng ngwasanaeth Cwmni Mri Strauss Piano Caernarfon am flynyddoedd.

Bu Mrs Jones hefyd yn hynod o selog gydag achos crefydd ar hyd ei hoes ac yn arbennig yn yr Ysgol Sul.

Bu'n fam ardderchog i naw o blant. Y mae disgrifiad Paul o wraig ffyddlon yn bwrpasol iawn i ddisgrifio Mrs Jones hefyd 'wedi gwarchod gartref yn dda'.

Pan oedd Mr a Mrs R.T. Jones yn dathlu eu priodas euraid yng Nghaernarfon yr oedd eu mab a'i wraig yn dathlu eu priodas arian yn America.

Pwy sy'n barod tybed i roi ychwaneg o hanes y teulu da yma?

**Collwyd gwedd a rhinweddau – mam a thad**
**Mwy maith iawn eu heisiau:**
**I'n hiraeth ni chawn eiriau**
**I'r lech ddwys ar lwch y ddau.**

**GLAN RHYDDALLT**

### Y DDRAMA

Dywedir mai drama 'Glyndŵr' (Beriah Evans) oedd y gyntaf a gyfansoddwyd ac a berfformiwyd yn Gymraeg. Yn Llanberis y perfformiwyd hi gyntaf yn 1881. Yr oedd Ap Glaslyn yn cymryd rhan amlwg ynddi.

Y cwmni trwyddedol cyntaf oedd Cwmni Drama Trefriw, a sefydlwyd yn 1886. Dyma'r cwmni a wnaeth fwyaf o waith i hyrwyddo'r ddrama Gymraeg. Yr oedd Ap Glaslyn yn perthyn i'r cwmni yma hefyd. Buont yn perfformio drama 'Rhys Lewis' trwy ran fawr o Gymru a nifer o drefi Lloegr. Yr oedd Ap Glaslyn yn un o actorion blaenaf Cymru yr adeg honno.

Bu'r cwmni o flaen yr Ynad yn Lerpwl yn cael trwydded i actio dramâu. "Show me what you've got to give the people" meddai'r ynad yn awdurdodol wrth Ap Glaslyn.

Ar hynny dyna'r Ap yn dechrau adrodd ac actio. Yr oedd yr Ynad wedi ei syfrdanu ac meddai "I am passing you with honours. Carry On". Cafodd y drwydded oedd yn darllen fel hyn:

"This is to certify that Mr John Owen (Ap Glaslyn) was examined and passed the Requirements of Standard VI. Recital. Elocutionist. March 26, 1885.

Accepted by Her Majesty. Inspector James Smith. Recitations, Hamlet, The Raven, Judgement, The Bells."

Oes rhywun yn gwybod ym mha le y mae'r drwydded yn cael ei chadw heddiw?

Anfonwch i ddweud wrth Olygydd yr Erthyglau, Mr Dafydd Whiteside Thomas. Diolch.

**GWADIAD PETR**

(Byr-a-thoddaid o waith Ap Glaslyn)

**Tair gwaith gwnaeth Petr i'w gŵydd – yn y llys**
**Wadu'n llwfr ei Arglwydd,**
**Tyngai, rhegai, yn rhwydd – nad oedd euog**
**Ond wele'r ceiliog yn edliw'r celwydd.**

**AP GLASLYN**

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.**

EGLWYS SANT GABRIEL – Nos Sul Rhagfyr 23 perfformiwyd drama'r Geni gan blant yr Ysgol Sul. Roedd y plant wedi cael eu dysgu gan Mrs Watkins ac athrawon yr Ysgol Sul. Daeth cynulleidfa dda iawn i'r gwasanaeth. Yr organyddes oedd Miss Susan Owen.

Nos Wener Rhagfyr 28 mwynhaodd y plant a'u rhieni eu hunain yn Theatr Gwynedd yn gweld pantomeim Rwj-Raj gyda Mari Gwilym a Gari Williams.

Nos Iau, Ionawr 10, cynhaliwyd cyfarfod i aelodau Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug.

LLONGYFARCHIADAU i Bryn Evans, 15 Dôl Afon a Steven Owen, 14 Dôl Afon ar gyrraedd eu penblwydd yn ddeunaw oed.

CYDYMDEIMLAD – Estynnwn y cydymdeimlad dwysaf â Mr Iorwerth Jones a'r teulu, Min-y-Don, yn ei brofedigaeth o golli ei fam ym Mrynrefail.

ADFERIAD BUAN – Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle a Mrs Elizabeth Evans, Gwylfa ar ôl eu damwain.

WEDI GWELLA – Bu pedwar o blant y pentref dan driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, sef Barry Hughes a'i chwaer Cheryl, 10 Dôl Afon, Elen Roberts, Awelon a Carys Williams, Bryn. Da iawn yw deall eu bod wedi gwella erbyn hyn.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Ifor Roberts, Awelon, ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniodd Elen tra bu yn Ysbyty Gwyedd.

LLONGYFARCHIADAU i Delyth Gwawr Williams, Nant Forgan, ar ei phenodi i swydd newydd gan y Cyngor Sir fel Swyddog Datblygu Celfyddydau Gweledol.

Bu Delyth yn ddisgybl yn Ysgol Cwm-y-Glo, Ysgol Brynrefail, Llanrug, cyn symud ymlaen i gwrs celfyddydau yn Lerpwl. Dilynnodd hyn gydag astudiaeth yng Ngholeg Celf Winchester lle enillodd radd BA mewn Dylunio Gweadwaith yn 1982. Ers hynny bu'n gweithio fel dylunydd i gwmni yn Llundain cyn dod yn ôl i'r ardal i dderbyn y swydd newydd. Pob dymuniad da i ti Delyth.

LLONGYFARCHIADAU Susan, merch Mr a Mrs E.G. Owen, Talgwynedd, ac Alan, mab Mr a Mrs R.E. Roberts, 10 Stryd Gelert, Caernarfon ar eu dyweddïad.

CLWB POBOL Y CWM – Cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu gŵyl y Nadolig, ddydd Iau Rhagfyr 20. Cafwyd darlleniadau ar y thema Gŵyl y Geni gan Mrs A. Hughes, Mrs H.M. Roberts, Mrs K. Watkin, Miss E. Hughes, Mrs R.H. Parry, a Mr Llew Hughes. Dilynnwyd gyda'r aelodau yn canu carolau, gyda Mr R.H. Parry, yn cyfeilio. Hoffem ddiolch i'r Brodyr Morris, y Becws, am y mins peis a'r bara brith. Enillwyd y raffl gan Mrs M. Williams, Elidir View.

Dydd Iau, Ionawr 10, cynhaliwyd Bingo, gyda Mrs E. Price yn galw. Cafwyd pnawn difyr a hwyliog, a llawer o wobrau wedi eu hennill. Yr aelodau eu hunain oedd yn cyfrannu tuag at y gwobrau.

**SEFYDLU CYMDEITHAS HANES AR GYFER BRO ECO'R WYDDFA**

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i sefydlu'r gymdeithas uchod yn

**YSGOL GYNRADD LLANRUG**

**NOS LUN CHWEFROR 11**

**am 7.30 p.m.**

Dewch yn llu i gael dechrau da




**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU
neu unrhyw fath o gynnyrch coed
ffoniwch
**BRYN**
**LLANBERIS 870793**
**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)**

MERCHED Y WAWR – Cyfarfu'r gangen nos Fawrth, Ionawr 8, dan lywyddiaeth Mrs Bethanne Williams. Y siaradwr gwadd oedd Mr Maldwyn Thomas M.A. o Fangor. Ei destun oedd 'Newyddiaduriaeth, a chyfraniad tref Caernarfon i argraffu Cymraeg'. Syndod i ni oedd clywed fod 26 o bapurau Cymraeg yn dod o'r wasg yno, ar un adeg, ond erbyn hyn mae'r argraffdy wedi ei losgi i'r llawr. Sylweddolwn yn awr fod twf yr iaith Gymraeg mor ddyledus i'r gweithgarwch fu gynt ym mhrifddinas y Wasg Gymreig. Rydym yn dra diolchgar i'r gŵr gwadd am gael golwg ar ôl-rifynnau o'r Herald Cymraeg a'r Caernarvon and Denbigh. Gofidiem nad oedd amser yn caniatau inni gael pori rhwng y cloriau trwchus. Cylchrediad yr Herald Saesneg oedd un fil, ar ei sefydlu yn 1831, dan olygyddiaeth J. Bransby a'i bris yn 4c. Roedd y cylchrediad yn un fil, a'r Herald Cymraeg yn ddeunaw mil am bapur ceiniog. Nid oes argraffdy papurau wythnosol ar ôl yn y dref erbyn hyn. Er hynny yma yr argreffir amryw Bapurau Bro bob mis gan wasg gymharol ieuanc. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Mrs Ifanwy Jones a threfnwyd y te gan Mrs Whiteside Thomas, Mrs Amy Smith, Mrs Jones, Bronwylfa a Mrs Beryl Thomas. Diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Huws. Enillydd y wobr lwcus oedd Mrs Gwen Elias.

CAPEL MAWR – Cynhaliwyd te parti i 80 o blant yr Ysgol Sul bnawn Llun Rhagfyr 17. Ymwelodd Sion Corn a rhoi anrheg i bob un ohonynt. Mawr yw ein diolch iddo. Diolchwn i bawb gyfrannodd yn ariannol neu drwy baratoi y bwyd, hefyd i famau ifanc y capel am weinyddu. Diolch i Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion a Mrs Mair Jones, Ogwen am ddiddori'r plant. Diolch i Mr John Wyn Owen a Mr Gwilym Williams am baratoi'r festri ac i Mr Gareth Thomas am addurno'r Goeden Nadolig.

HAFAN ELAN – Llongyfarchwn Miss Annie Parry, 14 Hafan Elan ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Ionawr 13. Ein dymuniadau gorau am adferiad buan iddi.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mrs Lydia Jones, 15 Hafan Elan a Mr Elwyn Jones, 21 Hafan Elan.

DIOLCH – Dymuna Derfel Gruffydd ddiolch yn fawr i blant yr ysgol, eu rhieni, staff y gegin, yr athrawon, a'r llu cyfeillion am eu dymuniadau da a'u caredigrwydd tuag ato yn ystod ei waeledd diweddar.

PONTRHYTHALLT – Ar derfyn gwasanaeth yr Ysgol Sul, Ionawr 20, cyflwynwyd rhodd i Mrs Nesta Pritchard, Glanfa, fel gwerthfawrogiad o'i llafur diflino fel athrawes am flynyddoedd maith.

Cyfeiriodd Mr Glynne Owen wrth gyflwyno'r rhodd, am ei ffyddlondeb a'i llafur yn darparu'r plant yn eu gwersi, a'r arholiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Siaradwyd ymhellach gan Mrs E.Wh. Thomas.

Dymunwyd yn dda i Mrs Pritchard ar ei hymadawiad i ymgartrefu yn y Rhyl.

CYDYMDEIMLIR yn fawr â Mrs Hughes, Bwthyn, Ffordd yr Orsaf, ar farwolaeth ei chwaer ym Mrynrefail.

DYMUNIR adferiad iechyd i Mrs N. Owen, Trigle. Mae ar hyn o bryd yn aros gyda'i chwaer ym Methel.

Da deall fod Mrs Ena Jones, Bod Ifor yn gwella ar ôl dychwelyd adref o'r ysbyty.

DYMUNIR ADFERIAD iechyd i Mrs. Sally Jones, 29 Bro Rhuddallt, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH – Dymuna Mrs Ena Jones, Bod Ifor, Llanrug, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion, yn arbennig, Mrs Jennie Roberts, Elidir View, am bob caredigrwydd, cardiau ac anrhegion tra bu yn yr ysbyty. Diolch hefyd i feddygon a gweinyddesau Ward Caton, Walton, Lerpwl a Ward Gwynedd, Y Dewi Sant, Bangor.

DIOLCH – Dymuna Mrs J. Roberts, Elidir View, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei phrofedigaeth, ac am y rhoddion caredig o £357 i Eglwys Santes Helen.

### COFIO MRS STORER, BODWYN, LLANRUG

Pan ddeuthum yn weinidog i Lanrug chwarter canrif yn ôl, trigai tair chwaer arbennig iawn yn yr ardal – Mrs Mackinnon, Plas Tirion, Mrs Butler, Yr Hafod, a Mrs Storer, Bodwyn. Yn ddiweddarach daeth chwaer arall atynt o Benygroes, i fyw i'r ardal, sef Mrs Jones a ymsefydlodd yn Y Bryn. Mrs Storer oedd yr ieuengaf o'r pedair, a nodweddid hi fel ei chwiorydd gan urddas, sirioldeb a gweithgarwch di-flino. Cefndir amaethyddol oedd iddi. Ganwyd a magwyd hi yn ardal Llandwrog. Ymbriododd â Mr Percy Storer a bu'r ddau ohonynt yn ddiwyd yn cadw siop yn Llanrug am flynyddoedd. Ar ôl iddynt ymddeol, adeilasant Bodwyn lle buont yn croesawu ymwelwyr am nifer o flynyddoedd. Yr oedd gair da i Mrs Storer a'i phriod yn yr ardal gan bawb a'u hadwaenent fel cymdogion cywir. Bu Mrs Storer yn hynod o ffyddlon a gweithgar yn Eglwys y Capel Mawr, gan fynychu'r moddion yn gyson hyd nes y daeth henaint a llesgedd i'w rhwystro. Yn ei marwolaeth collodd yr ardal un o'i chymdogion hawddgaraf. Bu farw ddydd Mawrth, Ionawr 15. Hebryngwyd ei gweddillion i fynwent y Plwy, Llanrug, ddydd Gwener, Ionawr 18, pryd y gwasanaethwyd yn Bodwyn ac ar lan y bedd gan ei gweinidog, y Parch John Morris yn cael ei gynorthwyo gan ei chyn-weinidog, y Parch W.O. Roberts. Cydymdeimla Eglwys y Capel Mawr a'r holl ardal â'r teulu yn eu hiraeth.

Nawdd garedig y Nef a fo trostynt.
W.O.R.

ROBERTS, Jackson. Mae Mr. a Mrs. Raymond Colin Roberts Y.H., Reanna, 19 Stad Eryri, Bethel yn falch o gyhoeddi dyweddiad eu merch ieuengaf Llinos, gyda Steven, Minffordd Cottage, Llanrug. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

### THEATRIG – CYNHYRCHIAD NEWYDD O JULIA – DRAMA STRINDBERG

Cafodd cynhyrchiad Theatrig o'r ddrama Swedeg glasurol, 'Julia', dderbyniad gwresog gan gynulleidfaoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanbedr Pont Steffan yr haf y llynedd. Y mae Theatrig yn cynnig cyfle i Gymry Cymraeg ym mhob rhan o Gymru weld clasuron y theatr fodern yn eu hiaith eu hunain. 'Julia', gan Strindberg, (cyfieithiad Eirian Evans) yw cynhyrchiad cyntaf y fenter newydd hon ym myd diwylliannol Cymru.

Noson Ŵyl Ifan yw hi. Gwelir Julia, merch falch a bonheddig, yn fflyrtan gyda Jean, gwas uchelgeisiol i'w thad. Y mae'r sylw hwn yn codi ofn ar Jean i gychwyn, ond wedyn caiff ei blesio ganddo. Gyda'i fryd ar wella ei stad, mae'n dal ar y cyfle ac yn ei denu hi i garu. Mae'r nwydau a'r cynnwrf a gyffroir gan hyn yn arwain at wrthdaro ffrwydrol rhwng meistres a gwas.

Mae'r ymdriniaeth â phynciau cwbl fodern, gwrthdrawiad dosbarth a rhyw yn golygu bod y ddrama yr un mor berthnasol ac effeithiol heddiw â phan y'i gwelwyd gyntaf.

Bydd y cynhyrchiad yma yn teithio Cymru yng nghanol Chwefror. Cynhelir y perfformiad agosaf atom ni yn y fro hon yn Stiwdio Ddrama, Coleg y Brifysgol, Bangor, ddydd Sadwrn, Chwefror 16 am 7.30pm (Ffôn, Bangor 351351).

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

### APWYNTIAD SWYDDOG CELFYDDYDAU GWELEDOL

Mae Miss Delyth Gwawr Williams o Gwm y Glo, ger Caernarfon, wedi ei hapwyntio fel Swyddog Celfyddydau Gweledol i Gyngor Sir Gwynedd am gyfnod o ddwy flynedd, a chychwynodd ar ei gwaith ar Ionawr 7. Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n gyfrifol am yr arian ar gyfer y swydd, ac o'r herwydd, ni fydd unrhyw gost i drethdalwyr y sir.

Addysgwyd Delyth yn Ysgol Brynrefail cyn gadael am Goleg Politechnig Lerpwl, lle bu am gwrs blwyddyn celf sylfaenol, a Choleg Celf Winchester, lle graddiodd efo gradd BA mewn Dylunio Gweadwaith yn 1982. Er hynny mae Delyth wedi bod yn gweithio i Gild y Dylunwyr fel dylunydd gweadwaith yn Llundain.

Yn ei swydd newydd, bydd Delyth yn cydweithio efo galerïau, cymdeithasau celfyddydau gweledol ac artistiaid i godi delwedd y celfyddydau gweledol yn y sir. O'i swyddfa yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon, bydd hefyd yn gweithio i sicrhau cyhoeddusrwydd i waith galerïau ac artistiaid yng Ngwynedd.

Dywedodd Ioan Bowen Rees, Prif Weithredwr Cyngor Sir Gwynedd, 'Mae'r Cyngor Sir yn hynod o ddiolchgar i Gyngor Celfyddydau Cymru am y £22,000 y bydd yn costio i gynnal y swydd hon dros ddwy flynedd. Rydym hefyd yn ddiolchgar eu bod wedi cytuno fod gwybodaeth o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo'r celfyddydau gweledol yng Ngwynedd. Yn anuniongyrchol bydd gwaith Delyth Williams nid yn unig yn poblogeiddio'r celfyddydau gweledol, ond yn codi safonau cyflwyniad a dylunio – rhywbeth o'r pwys mwyaf os yw Gwynedd am gystadlu mewn diwydiant, marchnata a hyd yn oed twristiaeth."


**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
**E. PUGH**
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

Busnes newydd ym
Mro'r Eco . . .
**EMYR JONES**
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

STORFA
**Mace**
John a Roberta
**Griffith**
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael o fwydydd,
llysiau a diodydd
Archebion at eich drws
Ffilmiau fideo £1 y noson

**NORMAN JONES**
4 Tai Disgwylfa
LLANRUG
Ffôn:
CAERNARFON 3476
GLANHAWR
FFENESTRI
* Siopau * Tai *
* Swyddfeydd *
Gwestai * Ffatrioedd
Yswiriant Llawn
Hefyd peintio – tu fewn a
thu allan

# DEINIOLEN

**Gohebydd: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN – Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu gan y Comisiwn Elusenau at ddibenion elusenol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon y ceisiadau ynghyd â chopi o'r Fantolen ddiwethaf, mewn amlen wedi'i marcio 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen' i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, erbyn dim hwyrach na 28 Chwefror, 1985.

GWASANAETH CAROLAU – Daeth cynulleidfa dda o blant a phobl o bob oedran at ei gilydd i Gapel Disgwylfa, nos Sul, 23 Rhagfyr, i gymryd rhan ac i fwynhau'r Gwasanaeth Carolau dan arweiniad y Parchg. Aled Edwards, Llandinorwig. Mr a Mrs Gwyn Parri, Cynefin, oedd wedi trefnu'r Gwasanaeth am eleni ar wahoddiad Cyngor Eglwysi'r pentref, a mynegwyd diolch i'r ddau ohonynt am drefnu rhaglen safonol a diddorol. Mrs Annette Parri oedd cyfeilydd y noson ac roedd ei hymroddiad arbennig yn amlwg ar y cyflwyniadau cerddorol gyflwynwyd gan unigolion a phartïon. Gwasanaeth ardderchog oedd yn rhoddi naws a chyfeiriad priodol i bawb oedd yn bresennol ar gyfer Gŵyl y Nadolig.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GANOLFAN – Siomedig, a dweud y lleiaf, oedd nifer y rhai oedd â digon o ddiddordeb i droi i mewn i'r Ganolfan, nos Fercher 12 Rhagfyr, ar gyfer y Cyfarfod uchod. Yn y cyfarfod, fe adroddwyd bod rhyw 25 o fudiadau a.y.y.b. wedi defnyddio'r Ganolfan ar bron i 400 o weithiau yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Fe sieryd y ffigurau hyn trostynt eu hunain pa mor allweddol yw'r Ganolfan wedi tyfu i fod ym mywyd cymdeithasol y pentref, ac o'r herwydd gallesid disgwyl amgenach cefnogaeth. Yn y cyfarfod fe dderbyniwyd gyda diolch adroddiad llafar y Trysorydd, Mrs Miriam Lewis, ar Fantolen 1983-84 a oedd yn dangos bod y sefyllfa ariannol yn gadarn a diogel.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol bydd cynrychiolwyr pentrefol yn ymddeol oddi ar Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan ac fe etholir olynwyr iddynt o blith rhai fydd wedi eu henwebu gan wahanol fudiadau'r pentref. Y chwech aelod pentrefol ar y Pwyllgor Rheoli am 1984-85 fydd Dylan Jones (Clwb Ieuenctid), John Jones (Cyngor Eglwysi), Joyce Jones (Brownies), Mair Rees Jones (Plaid Cymru), Miriam Lewis (Merched y Wawr), William Orwig Williams (Seindorf). Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli a gynhaliwyd ar Ionawr 15, etholwyd y Swyddogion canlynol am y flwyddyn: Ysgrifennydd Cyffredinol, Mr G. Parry, Cynefin; Trysorydd, Mrs M. Lewis, Llys Myfyr; Cadeirydd, Mr D. Williams, 1 Pentre Helen; Is-Gadeirydd, J. Jones, Ceris.

Os am ddefnyddio'r Ganolfan, cysyllter â Mr W.O. Williams, Rhydfadog.

CYNGOR EGLWYSI – Y Parch Aled Edwards, Ficer Eglwys Llandinorwig, oedd yn arwain yn y Cyfarfod Dechrau'r Flwyddyn, a gynhaliwyd yn Festri Disgwylfa nos Lun, Ionawr 7. Torrwyd cwys newydd yn y cyfarfod gyda Mr Edwards yn arwain y myfyrdodau trwy ddarlleniadau Beiblaidd a dyfynnu rhannau o farddoniaeth I.D. Hooson ac eraill a'r cyfan yn adeiladu i fod yn arweiniad pendant i'r Flwyddyn Newydd.

Er cyfarfod gofyn cynrychiolydd Cartefi Dr Barnado sydd i annerch cyfarfod o Eglwysi'r Cyngor fis nesaf, cytunwyd i symud dyddiad y cyfarfod undebol nesaf i 19 Chwefror, a gofynnir i'r selogion nodi'r newid hwn.

Y SEINDORF – Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Seindorf ar Chwefror 3 am 7 o'r gloch yng Nghwt y Band. Croeso cynnes i bawb.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Ionawr:
1. £25, Mr D. Williams, 1 Pentre Helen.
2. £15, Mrs L. Williams, Tan-y-Fron, Dinorwig.
3. £5, Mr A. Parry, 45 Pentre Helen.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer Elen, Hafan, 7 Porth y Gogledd, ar ei llwyddiant yn arholiad gradd 4 piano yr Ysgol Gerddorol Frenhinol.

MARWOLAETH – Yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ddydd Iau, Rhagfyr 20, bu farw Mrs Naomi Parry, 10 Rhes Fictoria. Roedd hi'n ddeg a thrigain mlwydd oed, ac yn weddw ers 35 mlynedd. Ar hyd y blynyddoedd, roedd ei bryd ar ei theulu, ac roedd croeso cynnes i unrhyw un a alwai i'w gweld.

Bu'r angladd ddydd Llun, Rhagfyr 24, yng Nghapel Ebeneser ac yn dilyn yn yr Amlosgfa, Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis, y Parch Aled Edwards a'r Parch Euros Jones. Y cludwyr oedd Mr Irfon Thomas, Mr Cynrig Hughes, Mr Neville Williams, Mr Alwyn Williams, Mr John Hughes. Y galarwyr oedd Mrs Marlene Roberts, Mr a Mrs Myfyr Parry, Mr a Mrs Gwyndaf Jones, Rheinallt a Sion, Trystan, Cerys a Daniel, Lleucu, Blodeuwedd a Melangell, Mr J.D. Jones (brawd), Mr a Mrs R.D. Thomas, Mr a Mrs J.R. Price (chwiorydd a brodyr yng nghyfraith), Mr a Mrs W.I. Hughes (chwaer yng nghyfraith).

DIOLCHIADAU – Dymuna teulu y diweddar Mrs Naomi Parry, Rhes Fictoria, ddiolch o galon i'w cyfeillion ac ardalwyr am y cydymdeimlad dwys a'r caredigrwydd parod a gawsant yn ystod eu profedigaeth o golli Mam annwyl a Nain dyner.

DYMUNA Joyce a Gwyn ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu o anrhegion, a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar Ragfyr 22.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Rhagfyr 22, yn Eglwys Llandinorwig, priodwyd Joyce, merch Mr a Mrs Alun Roberts, 13 Maes Gwylfa a Gwyn, mab Mr a Mrs Elwyn Pritchard, 12 Thomas Street, Caernarfon.

Gwasanaethwyd gan y Parch Aled Edwards a'r Parch Michael Pritchard, brawd y priodfab, a'r organyddes oedd Mrs Gwen Griffith.

Y morynion oedd Miss Linda Wyn Jones a Mrs Sheila Dyson a'r gwas oedd Mr John Cotter, ffrind y priodfab. Sharon Jones oedd y forwyn fach a Sion Wynne y macwy.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty Victoria, Llanberis, ac roedd 76 o westeion, yno hefyd y cynhaliwyd y disco yn yr hwyr.

Byddant yn ymgartrefu yn Tidworth.

CARNIFAL – Oherwydd diffyg cefnogaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Ganolfan nos Lun Ionawr 14, pasiwyd yn unfrydol na fydd Carnifal yn y pentref yn y flwyddyn 1985.

Gobeithir cael ail-drafod y mater ar gyfer y flwyddyn nesaf.

PARTI – Cynhaliwyd Parti yn y Ganolfan yn ddiweddar i dderbyn 'Prydau Parod' neu 'Meals on Wheels'. Gwahoddwyd gwesteion lleol hefyd. Dechreuwyd gyda the a roddwyd gan yrwyr a chyfeillion 'Meals on Wheels', a dilynwyd gydag adloniant ysgafn gan Arfon Wyn a'i gyfaill, a thalentau lleol.

Diolch cywiraf a chynnes i bawb a roddodd mor hael er mwyn pleser ein cyfeillion hŷn.

DIOLCH – Dymuna Elfed Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'r teulu a'i ffrindiau oll am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan yn dathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed ar Ragfyr 10. Diolch yn fawr i bawb.

CYMORTH CARTREF – DIOLCH AMDANO. Dymuna Gwen Lloyd Roberts ddiolch yn gywir iawn i'r rhai hynny a fu gyda hi fel 'cymorth cartref' ar hyd y flwyddyn ddiwethaf gan ddymuno'n dda iddyn i'r dyfodol.

Oherwydd amgylchiadau anffafriol, ni lwyddodd i roi'r neges iddynt ddiwedd y flwyddyn. Dymuna bob bendith a nerth iddynt yn y gwaith gwerthfawr a wnânt.

YMFUDO – Symudodd Sister Molly Marable o Ddeiniolen i'r Alban i fyw ddiwedd y flwyddyn. Mae chwithdod o'i cholli – ond deallwn ei bod yn setlo yn ei chartref a'i swydd newydd. Pob bendith iddi hi a'i phriod.

LLONGYFARCHIADAU i Mam a Dad, sef Mr a Mrs Alun Evans, 32 Stryd Newydd, Deiniolen, sydd yn dathlu eu priodas arian ar Chwefror 13. Oddi wrth Terry, Stephen a Janice, Monica a Michael a'r teulu oll.

DIOLCH – Dymuna Mrs Theta Owen, Bryn Tirion, Mynydd Llandegai, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion tra bu dan driniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

DIOLCH – Carai'r Clwb Snwcer ddiolch yn fawr i dîm dartiau Tafarn y 'Bull' am y rhodd anrhydeddus a dderbyniwyd yn ddiweddar.

SEINDORF – Dyddiad i'w gofio. Cyngerdd yng Nghapel Ebenezer, nos Wener, Ebrill 19. Manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn yn y Ganolfan ar Ionawr 14 pryd y llywyddwyd gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Croesawodd Mrs Jones yr aelodau a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda iddynt, a darllenodd y llythyr misol. Y gŵr gwadd oedd Mr Cledwyn Williams, Llanrug. Croesawyd ef gan y llywydd. Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr Williams. Diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Gwen Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Thomas, Mrs H.J. Thomas a Miss Nancy Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Beti Wyn Davies. Cydymdeimlwyd â Mrs H.J. Thomas ar golli ei chwaer, a Mrs Marian Wyn Williams ar golli perthynas. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 4, pryd y disgwylir Mr W.J. Eames, prifathro Ysgol Gwaun Gynfi yno.

## CRIW NECCACO



*Dyma lun o griw oedd yn gweithio yn 'Neccaco' tua diwedd y flwyddyn 1944. Neccaco gyda llaw oedd hen sied fawr yng ngwaelod Gwaith Chwarel Dinorwig. Cymerwyd benthyg y Sied adeg y rhyfel gan y llywodraeth i wneud darnau o awyrennau ar gyfer y rhyfel. Un yn y llun yw'r ddiweddar Megan Owen o Ddeiniolen, yr ail o'r chwith yn yr ail res o'r top. Pwy yw'r lleill tybed? Cafwyd y llun gan Glyn Richards o Dregarth (gynt o Fethel).*

## Y SEINDORF YN 1955



*Seindorf Deiniolen yn ystod taith ym Mhen Llŷn ar ôl ennill Dosbarth 'A' yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli, 1955. Haydn White oedd yr arweinydd. Mae bellach yn byw yn Ne Cymru. Yn ôl perchennog y llun, W.O. Williams, 6 Rhydfadog, mae 6 o'r rhai yn y llun yn dal yn aelodau o'r seindorf.*

# DEINIOLEN (parhad)

## TÎM PELDROED 'VALLEY SWIFFT' 1912 - 13




*Diolch i Mr. Stanley Williams. Waunfawr gynt (gynt o Ddeiniolen) am y llun uchod. A oes rhywun yn adnabod yr aelodau? Dau enw sydd wedi dod i law yw 'Robin Ned' (yr ail o'r chwith yn y rhes uchaf). a Wil Preis, Cringae (pen y rhes ar y rhes uchaf)*

# TAN-Y-COED

**Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

CYDYMDEIMLAD – Ar ddechrau blwyddyn newydd a diwedd Rhagfyr daeth profedigaeth i ran teuluoedd yn y fro hon ac estynnwn ein cydymdeimlad fel ardal â hwy.

Collodd Mr a Mrs Gwilym Hughes, Oerddwr un a chysylltiad agos â hwy fel teulu ym marwolaeth Mr Robin Griffith, Caernarfon a Mrs Iola Butler, Haddef ym marwolaeth Mrs Storer, Bodwyn, Llanrug.

Ionawr 1af, bu farw Mr Owen Williams, gynt o Frynrefail, brawd Mrs Blodwen Hughes, 1 Tai Trefor.

Ionawr 3, bu farw Mrs Rosina Davies, Aberystwyth, mam Mrs Judith Jones, 2 Tai Bryngwyn.

Ionawr 11, bu farw Mr William Edwin Roberts, Penygroes, tad Mr Cyril Roberts, 1 Tai Minffordd, a thaid annwyl Glenda, Alwena a Lona, a thad yng nghyfraith Mrs Morfudd Roberts.

Mae cydymdeimlad y fro â chwi oll yn eich galar.

LLONGYFARCHIADAU i John Elwyn Jones, Dolwen ar ei lwyddiant yn Arholiad Theori Graddfa I yr Ysgol Gerddorol Frenhinol.

DIOLCH – Dymuna Ysgol Sul Tan-y-coed ddiolch i famau a charedigion yr Ysgol Sul am bob cymorth a chyfraniad mewn arian a chacennau tuag at lwyddiant y te parti Nadolig – i Sion Corn a gyflwynodd yr anrhegion i'r plant, i'r Parch John Morris am ddangos ffilm, ac yn arbennig i Mrs Bridgett Williams, Prysgol, a Mrs Margaret Williams, Cefn Llwyd am arlwyo'r byrddau.



*Gwasanaeth bedydd Catrin Lena, merch fach Mr. a Mrs. Stokes yng Nghapel Tanycoed. Llun y Parch John Morris.*

# Ffurflenni Cymraeg

Daeth awdurdodau dosbarth Gwynedd a'r Cyngor Sir at ei gilydd ym mis Mawrth 1984 i ffurfio Cyd-Bwyllgor Polisi Dwyieithrwydd gyda'r bwriad o hybu'r iaith Gymraeg a safoni ei defnydd yng ngwaith llywodraeth leol.

Un agwedd o waith y Pwyllgor dan gadeiryddiaeth Dafydd Orwig yw safoni ffurflenni Cymraeg ac annog y cyhoedd i'w defnyddio. O ganlyniad fe restrir isod nodiadau a ffurflenni Cymraeg ar gael yn swyddfeydd yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol a'r Dreth Incwm.

**Treth Incwm**
Lwfansau – nodiadau byr, 510
Lwfansau – nodiadau hir, 11P-1
Ffurflen Dreth - 11P
Mae ffurflenni eraill i'w cael o'r pencadlys os gofynnwch.

**Nawdd Cymdeithasol**
Pa Fudd-dâl F.B.2 – Tach 83
Budd-dâl salwch – Ffurflen gais, S.C.1 (Diw)
Tâl Salwch statudol – Ffurflen, S.S.P.1 (T)
FIS – Ffurflen, Fis 1 – Tach 83
FIS – Nodiadau, S.B.1 – Tach 83
Budd-dâl atodol – ffurflenni, B.1
Datganiad gan berson sy'n gwneud cais am fudd-dâl atodol, A.11
Budd-dâl plentyn – ffurflen, C.H.2 (Diw)
Rhagor o fudd-dâl i blant neu wraig – ffurflen, B.F.11.C. hefyd W.
Budd-dâl ar gyfer plant ychwanegol – ffurflen, C.H. 497
Budd-dâl niweidiau diwydiannol, B.F.11.D.
Budd-dâl mamolaeth – ffurflen, B.H.4
Grant mamolaeth, B.D.1
Pensiwn Ymddeol – Ffurflen, B.R.I.C.
Triniaeth ddanedd – nodiadau, D.11
Sbectol – Ffurflen, G11
Pwy sy'n talu llai o rent a threth – nodiadau, R.R.1
Triniaeth feddygol yn Ewrop – ffurflen, C.H.1

**CHWILIO**

**Mae'r haul wedi llithro yn ddistaw,**
**I wely heli y môr;**
**A brigau yr onnen mor heintus,**
**Yn gysgod dros ymyl fy nôr;**
**Pell yw y mynydd, a'r creigiau du,**
**A'r cymylau yn hedeg ar ffo,**
**Oeraidd yw'r hin, a min y gwynt,**
**Yn dwyn hen atgofion i go'.**

**Cysgu ni allaf, ar noson fel hon,**
**fy meddwl mewn cystudd oer;**
**Af allan o'r bwth bach, diaddurn,**
**I wylio codiad y lloer;**
**A safaf yn unig ar y llwybr troed,**
**A gwrando ar ramant y nos;**
**Sisial y gwynt mewn cariad â'r lloer,**
**A chri y gylfinir o'r rhos.**

**Canig y nant o geunant y cwm,**
**yn hapus yn llithro i lawr,**
**Gwrando a syllu, mewn dychryn a braw,**
**Edmygu'r distawrwydd mawr;**
**Cydwybod anesmwyth mewn hiraeth a serch,**
**A lle yn fy nghalon i'm gwlad;**
**Aflonydd fy enaid, o hyd yn llesgáu,**
**Prin a drud fy nhreftâd.**

**Rwy'n chwilio am rywbeth na allaf ei weld,**
**Anodd diffinio fy nod,**
**Chwilio am heddwch, am gysur heb boen,**
**draw dros y gorwel a'i rod;**
**Af 'nôl at y bwthyn cysgodol,**
**Y wawrddydd a ddywed y gwir;**
**Ond gwn yn fy nghalon bod cariad a hiraeth,**
**Yn debyg i dynfa y tir.**

**JOHN V. MORRIS,**
**RHIANFA.**

# BETWS GARMON

YN YR YSBYTY mae Brenda Jones, Cynefin, yn derbyn llawdriniaeth. Dymuniadau gorau am wellad buan iddi a gobeithio y caiff ddod adref yn fuan.

ADREF O'R YSBYTY – Mae Mr W. Thurley, Cwm Bychan wedi dod adref ar ôl cael llawdriniaeth i'w glun, llwyr wellhad iddo yntau.

LLONGYFARCHIADAU i deulu Bryn Afon, Ruth wedi rhoi genedigaeth i ferch fach, Fiona Ruth, chwaer fach i Richard.

CYDYMDEIMLWN Â Mr Morris, Eurika, wedi colli ei fam.

LLONGYFARCHIADAU i Caren Breeze, Ystrad Uchaf ar ei dyweddïad yn ddiweddar.

CROESO i deulu bach newydd i 2 Gwyrfai Terrace.

**CLEFYD Y SUL**

**Fore Sul ef yw'r sala - o bawb**
**A'r nawn bydd 'rhyw bethma'**
**Hwyr y dydd 'dim hanner da'**
**Fore Llun ef yw'r llonna!**
**Iestyn Maentwrog**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

CREFFT ELIDIR

**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**
**Crefftau llechi**: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.
**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**
HEFYD YN SIOP
**FFYN A CHERRIG**
**STRYD FAWR, LLANBERIS**

**J.M. JONES A'I FAB**
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**A THREFNWYR ANGLADDAU**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626**

LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol ar lwyddo mewn arholiadau cerddorol:
Piano:
Gradd 1 – Meilir Gwynedd, Nant, (Teilyngdod); Alaw Meleri Jones, Rhandir Mwyn (Teilyngdod).
Gradd 2 – Telor Hedd Iwan, Penyberth
Gradd 4 – Elliw Iwan, Penyberth
Gradd 5 – Iwan Ellis, Glyn Awel (Teilyngdod)
Theori:
Gradd 2 – Karen Roberts, Swn y Gwynt
Gradd 3 – Sian Llwyd, Dol y Coed
Gradd 5 – Iwan Ellis, Glyn Awel
Clarinet
Gradd 5 – Llion Iwan, Penyberth.

LLONGYFARCHIADAU i Karen Turner, Collfryn ar gyrraedd ei phenblwydd yn 18 oed.

I Mr a Mrs T.E. Jones, Cartrefle, ar fod yn daid a nain eto. Ganwyd mab, Hywel, i Trystan a Caroline.

DYMUNIADAU GORAU i Mr Rol Williams, Ardwyn, ar ei ymddeoliad.

DEALLWN mai tipyn o sioc a gafodd y meddyg mwyn Alwyn Miles pan sylweddolodd fod Hywel Gwynfryn eisiau holi Nancy sut y llwyddodd fyw hefo fo am 48 mlynedd – mwy fyth o sioc o wybod mai ar nos lau yr oedd raid wynebu'r camerâu. Dymunwn yn dda i'r ddau gan obeithio bydd y Gwynfryn yn cofio bod 6 noson arall i'r wythnos pan ddaw i'w cyfweld ar eu Priodas Aur!

CANOLFAN WAUNFAWR – Cynhelir Cyngerdd yn y Ganolfan, nos Wener, Chwefror 8, am 7.0 o'r gloch, yng nghwmni Dylan Parry a phlant yr Ysgol Gynradd. Arweinydd y noson fydd Norman Williams. Croeso cynnes i bawb.

DYDDIAD ARALL i'w gadw mewn cof – Nos Wener, Mawrth 22 – Cyngerdd er budd Muscular Dystophy yn y Ganolfan, yng nghwmni Teulu Ty'r Ysgol, Deiniolen, a Hogiau Llandegai. Gwyliwch y posteri.

CLWB 100 PLAID CYMRU – Dyma enillwyr y Clwb 100 am fis Rhagfyr:
1. Gwilym Hughes, Tref Eilian
2. Mrs Mwynwen Jones, 2 Tref Eilian.
3. Nan Hughes Roberts, Bodidra.

PLAID CYMRU – Cofiwch am gyfarfod y Gangen yn y Ganolfan, nos Wener, Chwefror 1, am 7.30 o'r gloch.

Y NEWYN YN ETHIOPIA – Yn ystod yr Ŵyl, bu Alaw, Bethan, Gwenan, Nia, Karen a Siandc o amgylch y tai yn canu carolau, a chasglwyd £10.50 tuag at Gronfa Achub y Plant. Diolch yn fawr iawn iddynt ac i bawb a gyfrannodd.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Dathlwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yng Ngwesty Plas y Coed, Betws Garmon ar Ionawr 3. Dymunodd Mrs Pat Parry, y Llywydd, Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau a chroesawodd Miss Maimie Roberts yn ôl ar ôl damwain. Dywedodd hefyd fod yn ddrwg ganddi na allai Mrs H.M. Evans ymuno â'r aelodau yn y parti oherwydd gwaeledd. Darllenwyd y Llythyr Misol a thynnwyd sylw at y materion perthnasol. Atgoffwyd yr aelodau am yr eisteddfod yn Ysgol Brynrefail Llanrug ar Ionawr 26. Mwynhaodd yr aelodau ginio Nadolig traddodiadol. Enillwyd y raffl gan Miss M. Roberts, Mrs M.O. Parry-Williams, Mrs M. Morgan Jones, Mrs Sexton, Mrs K. Overy a Mrs Pat Parry. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Chwefror 7. Y gŵr gwadd fydd Mr Duncan Brown, Gwelfor. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno.

YR URDD – Dechreuodd yr Urdd y flwyddyn newydd gyda gyrfa chwilod ar Ionawr 9. Gan mai dyma'r tymor prysuraf i'r aelodau, ar Ionawr 16, trefnwyd gweithgareddau'r Eisteddfod, sef y partïon canu, adrodd a recordiau.

Mae bechgyn yr Urdd wedi bod yn brysur iawn yr wythnosau diwethaf yma. Mae'r tîm pel-droed 5-bob-ochr dan 11 oed a'r tîm dan 13 oed wedi cyrraedd y rownd derfynol, ac ar Ionawr 26 bydd y tîm llawn dan 13 oed yn cystadlu yn erbyn tîm Pwllheli yn y gêm derfynol. Pob lwc iddynt.

Ac yn olaf – efallai i chi gofio fod yr Urdd wedi cynnal noson garolau i godi arian i drueiniaid Ethiopia. Y noson honno, cawsom £49 mewn casgliad. Diolch i bawb a gyfrannodd.

CLWB GWYRFAI – Cynhaliwyd y gwasanaeth carolau blynyddol yn y Ganolfan ar Ragfyr 13, gyda phlant yr ysgol gynradd. Dyma'r tro olaf y cawn gwmni'r llywydd, y Parch Trefor Jones, cyn ei ymadawiad i Lanfairfechan.

Yn bresennol hefyd roedd Mrs Jones, a'r rheithor, y Parch Barry Thomas.

Roedd y cyfarfod wedi ei drefnu gan y Prifathro, Mr Leslie Jones, a'r plant wedi eu hyfforddi gan Mrs Eames. Hi hefyd oedd yn cyfeilio. Cafwyd gwasanaeth bendigedig o ganu a darllen o'r ysgrythur gan y plant, a hefyd gan ddau aelod o'r Clwb – sef Mrs Nesfield a Mr O. Williams, Gwynfa. Hefyd ymunodd pawb gyda'r plant yn rhai o'r carolau.

Diolchwyd i bawb gymerodd ran gan Mrs Austin Jones, hefyd i Mrs Eagleston a Mrs Pat Skidmore, oedd yn paratoi te a mins-peis. Wrth ffarwelio cyflwynodd y Ficer ei ddymuniadau gorau i ni dros Ŵyl y Nadolig, ac yn arbennig at rai oedd wedi methu bod yn bresennol oherwydd gwaeledd.

Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn ar Ionawr 3 yn y Ganolfan. Llywyddwyd gan Mrs Morgan Jones. Y siaradwr oedd Mr John O. Hughes M.A., pennaeth yr adran Gymraeg yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy, a brodor o'r Waun.

Cafwyd awr ddifyr yn gwrando ar ei sgwrs ar Lên Gwerin, yn enwedig pan yn sôn am chwedlau ac arferion traddodiadol ein bro. Cafwyd ymateb a thrafodaeth dda gan amryw o'r aelodau, a diolchwyd i Mr Hughes gan Mrs Pritchard, Tref Eilian. Hefyd diolch i Mrs Beryl Jones, Sian, Nia a Karen Roberts am baratoi y te. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Bracegirdle.

Oherwydd yr eira bu rhaid atal cyfarfod y Clwb ar Ionawr 17. Disgwylir gwell tywydd pan ddaw Dr Roberts i roi sgwrs i ni ar Ionawr 31.

Ar Chwefror 14, bydd uned o'r BBC o Fangor yn dod atom i'r ganolfan i recordio rhaglen o'r gyfres boblogaidd 'Ar gof a chadw' sydd i'w chlywed ar y radio ar fore Mercher.

Pan gyfarfu'r pwyllgor yn ddiweddar, penderfynwyd gwneud te ar Chwefror 28, yr elw i fynd i gronfa'r Clwb i gynnal ein cyfarfodydd.

Mawrth 17, mae'r gwahoddiad arferol i fynd i'r ysgol i fwynhau cyngerdd Gŵyl Dewi efo'r plant.

Rydym yn ddyledus a diolchgar i'n hysgrifenyddes am wneud trefniadau i gael cyfarfodydd mor ddifyr.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â theulu'r diweddar Mr W. Daniels, Tref Eilian, a fu farw yn frawychus o sydyn yn ystod gwyliau'r Nadolig.

YN YR YSBYTY y mae Diane Davies, Tref Eilian a Mr G.T. Jones, Bryn Garage. Dymunwn wellhad buan iddynt.

ADREF O'R YSBYTY – Bu nifer o drigolion y pentref yn yr ysbyty yn ddiweddar ond eisoes maent wedi dychwelyd adref – Mr Roy Jones, Cynefin; Mrs Cadi Jones, Nant; Miss Jones, Bod Arthur; Mrs E. Jones, Tref Eilian, a Mrs Ann Edwards, Melin y Wig. Gobeithiwn yn arw eu bod yn dal i wella.

DIOLCH – Dymuna Mr Wilf Jones, Liverpool House, ddiolch yn fawr iawn i Mrs Griffiths, Y Llythyrdy, am fod mor amyneddgar a ffeind â'r henoed yn ystod y cyfnod dyrys yma. Gwyddom ei fod yn datgan teimladau pawb sy'n mynychu'r Llythyrdy yn hyn o beth.

CLWB 300 – Enilwyr mis Rhagfyr:
1. Dr Huw Roberts, Syrjeri, £40
2. Mrs Mair Davies, Tan-y-graig, Ceunant, £25
3. Dr Huw Roberts, Syrjeri, £10.

Hefyd roedd 3 gwobr ychwanegol ym mis Rhagfyr o £10 yr un. Yr enillwyr oedd:
Mr Humphrey Jones, Ty Coch, Betws Garmon.
Dr Huw Roberts, Syrjeri.
S.R. Nessfield, Bryn Agored.

Oherwydd fod Dr Roberts wedi ennill 3 gwobr ym mis Rhagfyr mae wedi rhoi 2 wobr yn ôl ac yn awyddus i ni roi cyfle i rywun arall eu hennill – felly bydd 2 wobr ychwanegol o £10 yr un ym mis Ionawr. Diolch yn fawr iawn iddo.

CLWB MAMAU A BABANOD – Mae'r Clwb newydd yma yn cyfarfod ar bnawn Mawrth o 1.15-2.45 o'r gloch yn y Ganolfan ac yn agored i famau a babanod i fyny i oed yr Ysgol Feithrin, sef 2 a hanner. Dymuniadau gorau a phob llwyddiant iddynt. Am fwy o fanylion cysylltwch â Margaret Bevan, Tŷ'r Heddlu (Waunfawr 784).

Os am eu cefnogi beth am droi i mewn i'r Ganolfan nos Iau, Chwefror 7, am 6.30 o'r gloch le bydd stondin Moes a Phryn a phaned o de. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn, am fod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab i Tony a Glenda yn y Groeslon.

CYNGOR CYMUNED – Cynhaliwyd Cyngor Cymuned ganol Rhagfyr yn Ysgol Waunfawr. Cadeiriwyd gan Eirug Wyn i ddechrau ac wedyn gan Dafydd Iwan.

Bu cryn drfod ar y tebygrwydd o wella Cyffordd Lôn Pant Waun yn ystod 1987-88, a hefyd o ledu'r ffordd o'r Ysgol tuag at y gyffordd. Bydd y clerc a'r Cynghorydd Harry Owen yn ceisio trefnu cyfarfyddiad efo syrfewr y sir ynglŷn â hyn yn fuan.

Erbyn hyn mae'r Cyngor Sir wedi marcio'r tyllau sydd i'w hatgyweirio ar hyd y pafin yng Nghroesywaun, ac mewn mannau eraill ar ffyrdd yn y pentref. Roedd pryder ynglŷn â'r sôn am arllwys wast gwenwynig yng Nghilgwyn, a phenderfynwyd gofyn am adroddiad gan y Cynghorydd R.G. Jones yn y cyfarfod nesaf. Hefyd gyrrwyd at Awdurdod Iechyd Gwynedd i ddweud ein bod yn gwrthwynebu fflworeiddio'r dyfroedd.

*(Parhad ar y dudalen nesaf)*

## YMDDANGOS YM MINAFON



*Nick (Doc O'Brien — yr actor o'r Waunfawr) mewn tymer ymosodol ym mhennod olaf y ddrama gyfres 'Minafon' a welir ar y teledu ddiwedd Chwefror. Os am wybod beth sydd yn ei gorddi, gwyliwch S4C nos Fawrth, Chwefror 26!*

*Mae gan y gyfres bresennol gysylltiad agos arall â'r Waunfawr gan mai cyd-gynhyrchydd 'Minafon' yw Norman Williams, un o gyfarwyddwyr Ffilmiau Eryri. Golygydd y sgript a'r cynhyrchydd arall yw Dafydd Huw Williams.*


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
**9-7pm**
9-5pm Sadwrn
**AR GAU**
**SUL, MERCHER.**



Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)

**GWLÂU SENGL O £39 I FYNY**
**GWLÂU DWBL O £75 I FYNY**
**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

# Waunfawr
## (Parhad)

Gosodwyd torch gan y plant ar y Gofeb ar y dydd Gwener, ond erbyn nos Fawrth yr oedd wedi ei chymryd oddiyno, bydd rhaid trefnu i'w gosod yn ddiogelach y flwyddyn nesaf.

Un o broblemau'r Waun, yn enwedig yn ystod cyfnod o dywydd gwlyb a gawsom ddiwedd y flwyddyn, yw gorlifiad dyfroedd yma ac acw yn y pentref. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith fod y Waun ar blanced o glai, a'r dŵr wyneb yn llifo drosto yn lle treiddio i lawr drwyddo.

Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am roddion gan drefnwyr Gŵyl Gerdd Dant Cymru ac oddi wrth Gronfa Achub y Plant.

Gan y bydd wardiau Waunfawr a Chastellmai yn gwahanu yn ystod 1985, cynigiodd Dafydd Iwan ein bod yn gofyn i Gyngor Arfon godi'r arian cynhaliol i £3,000 yr un i'r ddwy ward.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL – Er gwaethaf yr eira a'r rhew daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd i'r Ganolfan nos Lun, 14 Rhagfyr i glywed sgwrs ddiddan iawn gan Mr R. Gwynn Davies ar ei yrfa fel cyfreithiwr. Llywydd y noson oedd Mrs G. Jones, Cartrefle a thalwyd y diolchiadau gan Dr A.L. Miles, Trefeddyg.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun Chwefror 11 pryd y ceir dadl ar y testun 'Mae'n rheidrwydd ar y presennol ddibynnu llawer ar y gorffennol'. Yn dadlau dros yr ochr gadarnhaol bydd Mr Rob Jones a Mr Rhodri Prys Jones, a thros yr ochr nacaol bydd Mr Dafydd Iwan a Mr Norman Williams, gyda Miss Ifanwy Rhisiart yn llywio'r gweithrediadau. Edrychir ymlaen at noson ddifyr a dadleugar, gan obeithio y bydd y cyhoedd yn y cyfamser yn hogi min un ffordd neu'r llall. Gwneir apêl ar i'r merched fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn er mwyn gweneud trefniadau ar gyfer y swper yng nghyfarfod olaf y tymor nos Lun Mawrth 11 pryd y bydd Mr Dei Tomos yn Ŵr Gwadd.

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

PARTI NADOLIG Y PLANT – Yn yr hen ysgol fach. Daeth mamau'r pentref at ei gilydd i drefnu parti i'r plant. Diolchwn i bawb am eu cyfraniad ac i'r Parch John Morris am ddod â'r ffilm fideo i'r plant.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yng nghyfarfod y mis, bu'r aelodau yn prysur drefnu at Eisteddfod y Mudiad sydd i'w chynnal yn Ysgol Brynrefail ar Ionawr 26. Darparwyd y te gan Helen Jones a Carol Houston. Rhoddwyd anrheg y mis gan Pat Jones ac fe'i enillwyd gan Jennie Hughes.

DYWEDDÏAD – Llongyfarchiadau i Delyth Nia Roberts, merch Eifion ac Euronwy Roberts, 8 Tremeirchion, ar achlysur eu dyweddïad â Sean Appleton o Gaernarfon.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn yr hen ysgol fach, cafwyd cwmni Dafydd Ellis, Gweledfa, i drafod y broblem o gam-ddefnydd a dibyniaeth ar gyffuriau. Darparwyd lluniaeth gan Val Davies a Mrs Hasson – rhoddwyd anrheg y mis gan Helen Roberts ac fe'i enillwyd gan Helen Jones.

CLWB PEDWAR UGAIN – Daeth nifer o aelodau i gyfarfod blynyddol y clwb ar Ionawr 16, yn Festri'r Capel. Roedd y casgliadau a'r gwobrwyon eisoes wedi eu hatal ers Tachwedd '84, a theimlad y mwyafrif o'r rhai oedd yn bresennol oedd dod â'r clwb i ben. Penderfynwyd, fodd bynnag, y dylid sicrhau parhad i weithgareddau yn y pentref ac fe benodwyd pwyllgor gwaith o dan lywyddiaeth Mr Gwyn Mowll, gyda Jackie Jones, Carol Houston a Dafydd Ellis. Bydd yr helfa drysor yn mynd ymlaen ym mis Mehefin – daw manylion am weithgareddau eraill maes o law.

MARWOLAETH – Brawychwyd y pentref gan y newyddion trist am farwolaeth sydyn Mrs Gwyneth Jones, 2 Ffrwd Fadog ar Ionawr 18. Un o gymeriadau mwyaf amlwg a gweithgar y pentref, ac yn arbennig felly gyda'r Eco gyda chyfraniadau ac roedd wedi ei ddosbarthu yn Nhremeilian ers y rhifyn cyntaf. Yn aelod ffyddlon o'r capel ac yn flaenllaw yng ngwaith Sefydliad y Merched – meddai ar gymeriad annwyl, gyda gwên siriol a chroesawus bob amser. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu oll, ac yn arbennig â Mr Thomas Jones a'r hogia.

DWLI DOLIG – Bu plant ac ieuenctid Ysgol Sul M.C. Brynrefail mewn cyfarfod o weithgareddau ac adloniant Dwli Dolig a gynhaliwyd yn Ysgol Tryfan, Bangor ddydd Sadwrn Rhagfyr 15. Trefnwyd yr Ŵyl gan Delyth Oswy, Trefnydd Ysgolion Sul Arfon. Mwynhaodd pawb y canu yng nghwmni Arfon Wyn, y lluniaeth a baratowyd a'r cyfle i weld y ffilm 'Tanglewood Secrets'. Llongyfarchiadau i aelodau tîm Ysgol Sul Brynrefail, sef Eira Wyn a Maria Evans, Catrin ac Owain Gwyn a Nicola Houston. Gwnaethant gyfrif ardderchog ohonynt eu hunain gan ennill 563 o bwyntiau. Mrs Carol Houston, Miss L.P. Roberts a Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones fu'n gofalu am y plant a'u cefnogi yn ystod holl weithgarwch y dydd.

CYFARFOD GWEDDI – Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Dechrau Blwyddyn, nos Iau, Ionawr 10 yn Festri M.C. Brynrefail. Arweiniwyd gan y Gweinidog, y Parch John Morris ac yna gan y Mri Elfed Roberts ac R. Wyn Evans. Llywyddwyd gan Mr Gwilym W. Williams a'r organyddes oedd Miss Lowri P. Roberts.


**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

**CARPEDI GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

**STIMVAK**

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR 291**

**Hefyd ail-osod carpedi**


# BETH YW BLWYDDYN RYNGWLADOL IEUENCTID?

**BETH YW'R FLWYDDYN**

Mae Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi cytuno i 1985 fod yn Flwyddyn Ryngwladol Ieuenctid. Ledled y byd, bydd cenhedloedd yn tanlinellu anghenion a dyheadau arbennig pobl ifanc rhwng pymtheg a phump ar hugain oed.

**Bri yng Nghymru**

Gerald Davies, y cyn-chwaraewr rygbi a gynrychiolodd Cymru a'r Llewod Prydeinig yw Llywydd Pwyllgor Cenedlaethol Blwyddyn Ryngwladol Ieuenctid yng Nghymru. Mae dros hanner y Pwyllgor dan bump ar hugain mlwydd oed.

**Beth yw'r thema**

Dewiswyd y themâu canlynol ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Ieuenctid:

**Cyfranogiad**

Rhaid annog yr ifanc i chwarae rhan amlwg ym mywyd eu hardaloedd yn ystod '85 ac yn y dyfodol.

**Datblygiad**

Cyfle hefyd i'r ifanc wella ansawdd bywyd eu hunain, pobl eraill yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y byd.

**Heddwch**

Datblygu cyfleusterau er mwyn i ieuenctid ddod i adnabod, deall a derbyn rhai sy'n dod o gefndiroedd gwahanol (yn grwpiau hiliol, diwylliannol, crefyddol a gwleidyddol) yng Nghymru a thramor.

**Cynlluniau 1985**

Mae nifer o fudiadau eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Ieuenctid. Gobaith Pwyllgor Cenedlaethol Cymru fydd i'r cynlluniau:

**Gael effaith parhaol**
(e.e. newid deddfau, plannu coed, sefydlu cysylltiadau rhyngwladol)

**Ennyn diddordeb pobl ifanc sydd heb gysylltiad â mudiadau ieuenctid**
(e.e. rhai sy'n anabl neu'n ddi-waith, rhai mewn ardaloedd gwledig, merched ifanc)

**Gynnwys dimensiwn rhyngwladol**
(e.e. trefnu ymweliadau i wledydd eraill o Gymru er mwyn dysgu sut mae pobl eraill yn byw, defnyddio ffilmiau, sleidiau, llyfrau a phosteri i hyrwyddo deall ryngwladol, croesawu pobl ifanc o wledydd tramor i Gymru.

Trefnwyd eisoes bwyllgorau BRI ymhob sir yng Nghymru a'u gwaith fydd cynllunio a gweithredu yn lleol yn ystod 1985.

Os oes gennych syniadau neu'n barod i drefnu rhywbeth ar gyfer BRI, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Idris Bowen, Ralltgoed, Parc Penmaen, Llanfairfechan (0248) 680661,
neu
Gareth Roberts, Cerys, Llanrug, Caernarfon (2747).


**GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**

**Linda**

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch



**CAERNARFON 3674**

i drefnu amser


# EISTEDDFOD GADEIRIOL BONTNEWYDD

Ebrill 4ydd a 5ed, 1985
5.30 yr hwyr

**Cerdd y Gadair** – Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 100 o linellau ar y testun 'Y Diwedd'.

**Englyn** – Ceffyl Gwedd

**Cân Ysgafn** – Trio Test

**Beirniad Llên** – Mrs Eluned Ellis Jones, Clogwyn, Caernarfon.

**Ysgrifenyddes – Meinir Williams, Maldwyn, Glan Beuno, Bontnewydd. (Ffôn, Caernarfon 77218)**

# MYNWENT YR EGLWYS

## gan Y Parch Aled Edwards

Yn gynyddol, poen a gofid i Gynghorau Plwyfol Eglwysig yw gofalu am gladdfeydd. Disgwylir i'r Ficer a'r Wardeiniaid, yn ôl Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru, i ofalu bod rheolau niferus a chymhleth yr Eglwys yn cael eu cadw i'r gair. Yn ddiweddar, bu'r Eglwys yn brysur yn diwygio'r rheolau hyn, a thybiaf mai buddiol fyddai i mi, er lles y cyhoedd, ddatgelu swm a sylwedd y newidiadau hyn wrth ddarllenwyr yr Eco.

Dylid nodi yn gyntaf nad dant diwinyddol yr Eglwys yng Nghymru yn unig sy'n gyfrifol am y rheolau hyn, ond gofynion Deddf Gwlad. Parthed hyn, y Ddeddf berthnasol yw 'Deddf yr Eglwys yng Nghymru (Claddfeydd) 1945'. Er lles, neu er gofid, gosododd Mr Nicholas Edwards, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sêl ei fendith ar drefn newydd yr Eglwys. Felly, gorwedd awdurdod y wladwriaeth a'r Eglwys wrth hanfod gweinyddiad pob mynwent Eglwys.

Beth felly am y rheolau bondigrybwyll hyn rydwyf yn sôn amdanynt? Yn gyntaf oll, datgelir yn glir mai'r Offeiriad Plwyf sydd â'r hawl i ganiatau claddu corff mewn mynwent neu i osod carreg ar fedd. Mae'n anghyfreithlon gosod unrhyw beth mewn mynwent heb ganiatâd yr Offeiriad Plwyf. Nawr, yn groes i'r hyn a dybia rhai, yn arbennig ambell i Saer Maen, nid rheolau yw'r rhain sydd yno i chwyddo ego'r Offeiriad druan, ond mater o drefn ydynt a synnwyr cyffredin.

Gadewch imi egluro ymhellach. Nid yw'r Eglwys yn caniatau claddu cyrff ar ddydd Sul, dydd Gwener y Groglith na'r Nadolig. Yn hyn o beth, caniateir eithriadau mewn argyfwng gyda chaniatâd y crwner. Yn ogystal, ni chaniateir claddu ar adeg addoliad yn yr Eglwys. Gwêl y cyhoedd mai mater o gadw trefn sydd wrth wraidd hyn. Beth bynnag, ni ddaw teuluoedd galarus mewn cysylltiad â'r amodau hyn gan fod y trefnwyr angladdau lleol yn gofalu am y cyfan, a hynny mewn dull proffesiynol. Ond wedi egluro hyn, dylid nodi un ffaith holl bwysig. Nid oes gan yr un Offeiriad hawl i wrthod bedd i drigolion y Plwyf. Hawl yw bedd ym mynwent y Plwyf, nid braint.

Yng nghyswllt cerrig beddau, daw'r Ficer druan wyneb yn wyneb â phroblem fawr. Gadewch i mi ddatgan yn glir nad wyf yn beio'r cyhoedd na'r 'masons' sy'n gweithio yn fy mhlwyf i, ond mae ymddygiad nifer o'r rhai hynny sy'n galw eu hunain yn 'fasons profiadol' yn anghwrtais i ddweud y lleiaf. Yn rhy aml, gosodir cerrig ym mynwent yr Eglwys heb gysylltu â'r awdurdodau priodol ac heb dalu'r tâl sy'n ddyledus. Dywed y Cyfansoddiad yn glir: ni chaniateir gosod unrhyw garreg mewn claddfa onibai i'r Offeiriad dderbyn y tâl priodol a gosod sêl ei fendith ar y gofeb. Dylid gwneud hyn cyn gosod y garreg. Gofid i unrhyw Offeiriad fyddai gofyn i deulu symud cofeb o'r fynwent oherwydd ymddygiad anghyfrifol 'mason' sydd wedi gollwng carreg waharddedig i gladdfa.

Hyn a ddywed y Cyfansoddiad am gerrig beddau:

'Wedi cael cantiatâd ysgrifenedig y Periglor (Ficer) gellir derbyn i fynwent garreg fedd a fydd yn cynnwys naill ai carreg pen gymwys heb fod yn fwy na 4 troedfedd o uchder, neu groes gymwys heb fod yn fwy na 4 troedfedd o uchder, neu garreg fedd syml, wedi ei gosod yn is na lefel gyffredin y tir; heb fod wedi ei gwneud na'n llwyr na'n rhannol o farmor gwyn, maen wedi ei atgynhyrchu, metel neu cheramig, ac yn cynnwys dim ond geiriad syml a gweddus.'

Ynglŷn â chadw beddau yn dwt, hyn a ddywed y Cyfansoddiad:

'Ac eithrio pabi Diwrnod Coffa, ni cheir gosod unrhyw dorchau blodau ffug na blodau ffug, cerrig mâl, nac addurniad ar unrhyw fedd mewn mynwent. Ni cheir gosod na llun na thebygrwydd o unrhyw fath o'r marw ar nac yn gysylltiedig â'r gofeb neu'r garreg fedd. Ni cheir gosod llwyni, na llestri parhaol i ddal blodau mewn mynwent heb gydsyniad y Periglor.'

Gair ynglŷn â gweddillion cyrff a losgwyd. Gellir claddu llwch mewn mynwent, ond ni cheir gwasgar gweddillion o'r fath. Ym Mhenisarwaun, mae'r Cyngor Plwyfol Eglwysig yn bwriad llwyr neilltuo rhan o'r fynwent ar gyfer claddu llwch. Diddorol fyddai gwybod beth yw ymateb y cyhoedd i hyn. Y bwriad yw neilltuo rhan o'r fynwent ar gyfer gweddillion a losgwyd. Parthed hyn, gellir codi un gofeb dros yr holl weddillion a ddaearwyd, neu nodi'r beddau â cherrig fflat syml wedi eu gosod yn is na lefel gyffredin y tir. Da chi, gadewch i ni wybod beth yw eich ymateb i'r bwriad a nodir uchod. Os ydym am lwyr neilltuo rhan o'r fynwent fel hyn, ni fyddai modd wedyn i ni ganiatau claddu gweddillion a losgwyd yng nghorff y fynwent. Mae hyn wrth gwrs yn eithrio y rhai hynny sydd â beddau teuluol yn barod yn y fynwent.

Yn gyffredinol, gwaith y Cyngor Plwyfol Eglwysig yw gofalu bod mynwentyddd yn daclus ac mewn trefn. Mae hyn yn cynnwys gofalu am y muriau, llidiardau, cloddiau, llwybrau, glaswellt a choed. Gorfodir pob Cyngor Plwyfol Eglwysig i sefydlu Cronfa Cadwraeth Mynwent i'r perwyl o ofalu am gostau cadwraeth mynwentydd. Daw arian y Gronfa hon ran amlaf o'r taliadau a geir gan y cyhoedd. Mae'n anghyfreithlon i'r Cyngor Plwyfol Eglwysig ddefnyddio'r taliadau hyn at unrhyw bwrpas arall. Cadw'r fynwent yw pwrpas y Gronfa, nid cadw'r Eglwys.

I'r rhai sydd â diddordeb, croniclir y rheolau perthnasol yn gryno ar bosteri sydd wedi eu gosod ym myrth yr Eglwysi. Ceir ar y posteri fanylion ynglŷn â'r rheolau a rhestr o'r taliadau priodol.

I orffen y llith hon, dylid nodi mai bwriad yr Eglwys yn hyn i gyd yw diogelu ei hun a gofalu am deimladau y cyhoedd. Gall rheolau fod yn oer a dideimlad, ond buan iawn y byddai mynwentydd y wlad yn disgyn i anhrefn yn absenoldeb rheolau. Bwriad yr Eglwys, er lles y cyhoedd, yw bod yn deg â phawb, ac oherwydd hyn, rydym am rwymo ein hunain i daclusrwydd trefn arbennig. Yn ffodus iawn, mae Deddf Gwlad yn gosod yr un drefn ar bawb.

# CYMORTH I ETHIOPIA

**Prin fod unrhyw un o'n darllenwyr heb glywed sôn am y newyd a'r dioddefaint yn Ethiopia. Sylweddola pawb yr angen gwirioneddol am fwyd yno. Ond yr hyn sy'n cael llai o sylw yw'r ffaith fod angen dillad addas yno hefyd, yn enwedi i'r plant ieuengaf a'r babanod. Oherwydd natur yr hinsawdd yn y rhan honno o'r byd, ceir dyddiau crasboeth, ond mae'n oeri'n gyflym yn ystod y nos, ac oherwydd hynny, mae llawer o'r plant yn marw o oerfel – hypothermia.**

Mae ffordd syml iawn o helpu'r gweiniaid hyn rhag rhynnu i farwolaeth, sef gwau fest gynnes iddynt. Mae'r patrwm canlynol wedi ei ddyfeisio gan Gwmni 'Patons' ar gyfer apêl Oxfam, a gellir gwau y fest drwy ddefnyddio darnau o wlân. Ar ôl eu gorffen, gellir eu trosglwyddo i unrhyw siop Oxfam.



SIWMPER I FABI
A PHLENTYN IFANC

I ffitio brest 46 (51,56,61) cm neu 18 (20,22,24) modfedd.

Hyd o'r ysgwydd oddeutu 26 (29, 32, 36) cm, 10¼ (11½, 12½ 14) modfedd.
Gwniad y llawes 7 (8, 10, 12) cm 2¾ (3¼ 4 4¾ ) modfedd

Patons Beehive double knitting x pelen 50gm 2 (3 3 3)
Par o weill 3¼ mm (10) a 4 mm (8)

Tyndra - gweill 4mm - 22 pwyth 30 rhes i 10cm (pwyth stocin)

Cefn a blaen (fel ei gilydd) Gyda gweill 3¼ mm codwch 51 (57 63 69) pwyth a gweu 7 (7 9 9 ) rhes.
Newidiwch weill i rif 4mm a gweithiwch fel a ganlyn.

Rhes 1af (ochr gywir) gweu (plaen)
2il res purl (p)
3ydd - 6ed res - gweithio rhes 1 a 2 eto (2 waith)
7fed a 8fed rhes - gweu (plaen)
Yr wyth rhes yma sy'n ffurfio'r patrwm.
Gweithiwch ymlaen gyda'r patrwm nes fod y gwaith yn mesur 16 (17 19 22) cm a gorffen gyda'r ochr gywir yn wynebu ar gyfer gweithio'r rhes nesaf.

Tra'n cadw rhediad y patrwm codwch bwythau ychwanegol 15 (18 22 26) ar gyfer y llewys ar ddechrau'r ddwy res nesaf (81 (93 107 121)) pwyth.

Rhes nesaf - gweu 3 - patrwm hyd at y 3 pwyth olaf - gweu 3


Gweithiwch y rhes yma eto hyd nes fod y gwaith yn mesur 25 (28 31 35) cm, gan orffen gyda'r ochr gywir yn wynebu ar gyfer y rhes nesaf.

Rhes nesaf - gweu 3 - patrwm 17 (20 24 28) gweu 41 (47 53 59) patrwm 17 (20 24 28) gweu 3.
Gweithio'r 4 rhes olaf eto (4 gwaith)
Castio i ffwrdd.

Gwneud i fyny
Peidiwch presio.
Gwnio'r ochrau a than y ceseiliau yna gwnio'r ddwy ochr 'castio i ffwrdd' gyda'i gilydd, gan adael digon o le yn y canol i'r pen fynd drwyddo.

**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

# CROESAIR CHWEFROR




**AR DRAWS**

6. Rhai sydd yn gwneud gwaith dros eraill (12)
8. Sefyllian (7)
9. Tŷ Mecsicanwr (5)
10. Merch Gymreig neu ynys Albanaidd (4)
12. Amaethdy (6)
14. Prif ddinas Nigeria (5)
15. Trafod (6)
16. Gwin o'r Eidal (4)
19. Cwrdd (5)
21. Griddfan (7)
22. Rhai a diddordeb (proffesiynol) yn yr amgylchfyd (12)

**I LAWR**

1. Grym (8)
2. Gwaith Caib a Rhaw (5)
3. Hoff bentref Laura Ashley (5)
4. Ysgolfeistres (7)
5. Llefain (4)
6. Politicaidd (10)
7. Yr Eco? (10)
11. Llosgwr (3)
12. Gwirion (3)
13. Siopwr (8)
14. Gwlad yn y Dwyrain Canol (7)
17. Adfyd (5)
18. Pryfed gwallt (5)
20. Talu'n ôl (4)

Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.

**Atebion Croesair y Nadolig**
**AR DRAWS**
1. Bethlehem; 7. Bugail; 8. Aur; 9. Asyn; 10. Cu; 11. Ne; 12. Angel; 13. Er; 14. Ni; 15. Doli; 17. Si; 18. Myrr; 19. Na; 21. Crud; 23. Tawel; 26. Drudwen; 29. Noel; 30. Lliw; 31. Dwyrain.
**I LAWR**
1. Baban; 2. Thus; 3. Elusen; 4. Mair; 5. Du; 6. Brenin; 10. Crist; 11. Nos; 13. Eli; 15. Drud; 16. Cawell; 20. Geni; 21. Canu; 22. Duw; 24. Awn; 25. Côl; 27. Dor; 28. Cwm.

**Enillydd: Mr Goronwy Lewis, 45 Cae Bold, Ffordd Bethel, Caernarfon.**

**Anfonwch eich cynigion i Gareth Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel. Bydd gwobr o £2 i'r cynnig cywir cyntaf i'w dynnu.**

GWILYM O. ROBERTS
WEIRGLODD GOCH
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407
DOSBARTHWR LLEFRITH
Trwy ardal
ECO'R WYDDFA
Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws

## CYFLE I ASTUDIO'N LLAWN-AMSER

Coleg preswyl tymor-hir ar gyfer addysg oedolion yw Coleg Harlech, yn cynnig cyrsiau i ferched a dynion dros 21 – yn arbennig y rhai a adawodd yr ysgol yn gynnar – ym meysydd Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Economeg, Athroniaeth, Seicoleg, Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Diwydiannol, Cymdeithaseg, Astudiaethau Cymreig, Iaith a Llên Cymru a Llenyddiaeth Gymraeg.

Y mae cyrsiau Blwyddyn ar gael. Arwain cwrs dwy-flynedd at Ddiploma Prifysgol Cymru sydd â'i statws ei hun a hefyd yn bodloni gofynion derbyniad Prifysgolion a Cholegau Politechnig ac addysg.

Ceir mynediad drwy gyfweliad: nid oes angen cymwysterau. Y mae grantiau ar gael i ymgeiswyr addas.

**Ysgrifenner at y Cofrestrydd, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd, LL46 2PU, am y Prospectws a ffurflen gais.**

Coleg Harlech

# Dyddiadur y Mis

1, Gwener – LLANBERIS, Te yr Henoed; PENISARWAUN, Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30; WAUNFAWR, Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan am 7.30.
4, Llun – DEINIOLEN, Sefydliad y Merched - sgwrs gan Mr Eames; BETHEL, Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd am 7.30 i drafod Carnifal 85; LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
5, Mawrth – LLANRUG, Disgo i blant yr Ysgol Gynradd gyda'r elw er budd Cronfa'r Eglwys; BETHEL, Clwb Bro Bethel yn Festri Cysegr
6, Mercher – PENISARWAUN, Yr Urdd – Sleidiau a Chwist.
7, Iau – LLANBERIS, Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.30 – 'Addurno Ffynhonnau'. Gŵr Gwadd – Mr O.E. Evans, Llanrug. WAUNFAWR, Sefydliad y Merched – sgwrs gan Mr Duncan Brown, Gwelfor. Stondin Moes a Phryn a phaned o de yn y Ganolfan am 6.30. Y noson er budd Clwb Mamau a Babanod.
8, Gwener – YR ARDAL – Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis. Anerchiad gan Mr J. Norman Davies. WAUNFAWR, Cyngerdd yn y Ganolfan am 7.00 yng nghwmni Dylan Parry a phlant yr Ysgol Gynradd.
11, Llun – WAUNFAWR – Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan am 7.30 – Dadl. YR ARDAL – Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Gynradd Llanrug am 7.30 i lansio Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa. Croeso i Bawb (manylion ar dud. 7). LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
12, Mawrth – LLANRUG – Merched y Wawr – 'Macramé' gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail.
13, Mercher – BETHEL – Merched y Wawr, sgwrs ar ffiseotherapi gan Mrs Mary Wyn Jones. PENISARWAUN – Yr Urdd, ymweld â'r Ganolfan Hamdden.
14, Iau – WAUNFAWR – Clwb Gwyrfai – y BBC yn recordio'r rhaglen 'Ar Gof a Chadw'.
15, Gwener – LLANBERIS – Te yr Henoed.
16, Sadwrn – YR ARDAL – Rygbi Cymru v Lloegr; Cynhyrchiad Theatrig o'r Ddrama Swedeg glasurol 'Julia' yn Stiwdio Ddrama Coleg y Brifysgol, Bangor am 7.30.
18,19, Llun, Mawrth, YR ARDAL – Hanner Tymor yr Ysgolion.
18, Llun – LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
19, Mawrth – LLANRUG – Y Gymdeithas Undebol, Parti Clychau'r Grug. DEINIOLEN, Y Cyngor Eglwysi.
20, Mercher – PENISARWAUN – Yr Urdd – Gwneud Crempog.
25, Llun – LLANBERIS, Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
26, Mawrth – Y Gymdeithas Undebol yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Foelas. Y gŵr gwadd fydd Dr John Gwilym Jones.
27, Mercher – PENISARWAUN – Yr Urdd, sgwrs gan Mr Arthur Rowlands, Caernarfon.
28, Iau – WAUNFAWR – Te Clwb Gwyrfai. Yr elw i Gronfa'r Clwb.

**DYDDIADAU I'W COFIO**

Mawrth 7 – Plant Ysgol Gynradd Waunfawr yn rhoi Cyngerdd Gŵyl Ddewi i Glwb Gwyrfai.
Mawrth 14 – Llanrug – Clwb Blodau'r Grug
Mawrth 22 – Cyngerdd er budd Muscular Dystrophy yng Nghanolfan Waunfawr yng nghwmni Teulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig a Hogia Llandegai.
Mehefin 23-29 – Wythnos Garnifal Llanrug.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

Welsh Development Agency

# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

### gan Aeron Jones

Y mis hwn ceir proffeil o dîm cochion Llanrug. Ail dîm Llanrug yw'r Cochion. Tîm a fu'n llwyddiannus yn yr ail adran i ennill dyrchafiad i'r gynghrair gyntaf. Yma eto mae'r tîm yn ifanc iawn gyda'r ieuengaf yn 16 mlwydd oed. Capten y tîm yw David Davies a'r is-gapten yw Meurig Parry. Yn yr hanner cyntaf o'r flwyddyn roedd Llanrug yn darganfod yr adran gyntaf yn anodd a bu'n rhaid aros yn hir nes ennill eu dau bwynt cyntaf.

Yng Nghwpan Pattison aeth y tîm i'r ail rownd gan guro Clwb Duon Porthaethwy yn y rownd gyntaf 4-3. Yn yr ail rownd collodd y tîm 4-2 yn erbyn Tîm Duon Deiniolen.

**CANLYNIADAU Y TÎM HYD YN HYN**
**(LLANRUG CYNTAF)**

| | | pt | cyf |
|---|---|---|---|
| 1 - 5 | Clwb Cymdeithasol Bangor (duon) | 0 | 0 |
| 2 - 4 | Clwb Llafur Llangefni | 0 | 0 |
| 3 - 3 | Duon Porthaethwy | 1 | 1 |
| 2 - 4 | Gleision Deiniolen | 0 | 1 |
| 2 - 4 | Ceidwadwyr Caernarfon (Duon) | 0 | 1 |
| 0 - 6 | Crosville Caernarfon (Gleision) | 0 | 1 |
| 0 - 6 | Duon Nantlle | 0 | 1 |
| 3 - 3 | Gleision Llanrug | 1 | 2 |
| 2 - 4 | Ceidwadwyr Felinheli (Duon) | 0 | 2 |
| 0 - 6 | Ceidwadwyr Bangor (Gleision) | 0 | 2 |
| 0 - 6 | Crosville Caernarfon (Duon) | 0 | 2 |
| 4 - 2 | Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision) | 2 | 4 |
| 3 - 3 | Duon Deiniolen | 1 | 5 |
| 3 - 3 | Gleision Nantlle | 1 | 6 |
| 2 - 4 | Gleision Marbryn | 0 | 6 |
| 2 - 4 | Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon) | 0 | 6 |
| 1 - 5 | Llafur Llangefni | 0 | 6 |



*O'r chwith i'r Dde:*
*Rhes gefn: M. Parry, T. Parry, M.K. Roberts.*
*Rhes Flaen: N. Kirkpatrick, D. Davies, C. Davies, I. Williams.*
*Yn absennol o'r llun mae O. Hughes, G. Williams, H. Jones a P. Owen.*

| | CYNGHRAIR | | | CWPAN | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ch | E | C | Ch | E | C |
| D. Davies | 16 | 4 | 12 | 2 | – | 2 |
| M. Parry | 16 | 4 | 12 | 2 | – | 2 |
| M.K. Roberts | 17 | 9 | 8 | 2 | – | 2 |
| N. Kirkpatrick | 14 | 2 | 12 | – | 2 | – |
| T. Parry | 16 | 6 | 10 | 2 | 1 | 1 |
| D. Hughes | – | – | – | – | – | – |
| I. Williams | 15 | 4 | 11 | 2 | 2 | – |
| G. Williams | 2 | – | 2 | – | – | – |
| H. Jones | 2 | – | 2 | – | – | – |
| P. Owen | 2 | 1 | 1 | – | – | – |
| C. Davies | 4 | – | 4 | – | – | – |

**CYNGHRAIR BANGOR A'R CYLCH**

**Safle yn y Gynghrair**

| | | Ch | E | Cyf | coll | o bl | yn er | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **ADRAN A** | | | | | | | |
| 1 | Gleision Llanrug | 18 | 13 | 2 | 3 | 75 | 33 | 28 |
| 9 | Duon Deiniolen | 18 | 6 | 6 | 6 | 58 | 50 | 18 |
| 14 | Gleision Deiniolen | 18 | 1 | 5 | 12 | 32 | 76 | 7 |
| 15 | Cochion Llanrug | 17 | 1 | 4 | 12 | 30 | 73 | 6 |
| | **ADRAN B** | | | | | | | |
| 6 | Gleision Bethel | 15 | 7 | 4 | 4 | 52 | 38 | 18 |
| 6 | Duon Bethel | 16 | 7 | 4 | 5 | 51 | 45 | 18 |
| 12 | Cochion Deiniolen | 16 | 2 | 8 | 6 | 42 | 51 | 12 |

**Canlyniadau mis Ionawr**
**ADRAN A**
**Duon Deiniolen**
3-3 Gleision Nantlle
2-4 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)
3-3 Crosville Caernarfon (Duon)
**Gleision Deiniolen**
1-5 Duon Nantlle
2-4 Ceidwadwyr Caernarfon (Duon)
1-5 Crosville Caernarfon (Gleision)
**Gleision Llanrug**
5-1 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
5-1 Gleision Marbryn
1-5 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
**Cochion Llanrug**
2-4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
1-5 Clwb Llafur Llangefni
**ADRAN B**
**Gleision Bethel**
2-4 Duon Groeslon
3-3 Cochion Bethesda
**Duon Bethel**
3-3 Duon Llanfair PG
3-3 Cochion Groeslon
4-2 Duon Bethesda
**Cochion Deiniolen**
1-5 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
3-3 Cochion Marbryn
3-3 Ceidwadwyr Bangor (Duon)
**Canlyniadau Cwpan y Gynghrair:**
**ADRAN A**
Gleision Deiniolen 1-5 Crosville Caernarfon (Gleision)
Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon) 3-3 Duon Deiniolen
Cochion Llanrug 2-4 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
**ADRAN B**
Duon Bethesda 0-6 Duon Bethel
Gleision Bethel 4-2 Cochion Marbryn
Mae Cochion Deiniolen yn yr ail rownd.

Bydd y timau uchod wedi cyfarfod erbyn i'r Eco ymddangos o'r Wasg.

**CWPAN PATTISSON ROWND CYN-DERFYNOL**
Clwb Llafur Llangefni 4-3 Gleision Llanrug

Colli fu hanes Llanrug er i T. Brobyn glirio'r lliwiau i guro, ac i Clive Griffith wneud toriad o 42.

## 'Y FARGEN ORAU MEWN CHWARAEON'

### ARGYMHELLION CYMDEITHAS PÊL-DROED CYMRU AR GOFRESTRU CHWARAEWYR

Erbyn diwedd Awst 1984 roedd yr holl ymgais ar ran Cymdeithas Peldroes Cymru i geisio cadw'n fyw Bencampwriaeth Gwledydd Prydain wedi methu, a wynebai'r FAW golled ariannol o tua £150,000 y flwyddyn. Byddai hyn yn golygu argyfwng ariannol o fewn rhyw ddwy flynedd, a phenderfynwyd ymateb yn syth i'r broblem, gan ddiddymu tîm dan 21 Cymru, a thynnu allan o Bencampwriaeth Ewropeaidd dan 21 gwta wythnos cyn y dyddiad a benodwyd ar gyfer eu gêm gyntaf. Cwtogwyd hefyd ar staff yr FAW ac ar rai rhannau gweinyddol. Ond nid oedd hyn yn ddigonol, a sefydlwyd gweithgor i archwilio i'r posibilrwydd o ennill arian drwy gofrestru chwaraewyr. Mae cynlluniau tebyg yn bodoli eisoes ar y Cyfandir. M e Gwlad Belg, er enghraifft, yn gwbl ddibynnol ar arian cofrestru chwaraewyr i gynnal eu Cymdeithas Beldroed Genedlaethol. Yma ym Mhrydain hefyd, mae cynlluniau tebyg yn bodoli mewn chwaraeon eraill - badminton, sboncen ac athletau.

Mae'r gweithgor i gyflwyno eu hargymhellion i Gyngor Cymdeithas Peldroed Cymru ym mis Chwefror. Dyma yn fras, yr hyn a gynhwysir yn yr adroddiad:-

1) Cynllun i gofrestru'n flynyddol, bob chwaraewr peldroed yng Nghymru sy'n aelod o Glwb yng Nghymru: y cynllun i ddechrau yn nhymor 1985 - 86.

2) Ni ddisgwylir i fechgyn ysgol a chwaraewyr ieuenctid fod yn rhan o'r cynllun oni fyddant yn chwarae mewn cynghreiriau hŷn.

3) Bwriedir i'r tâl cofrestru fod yn £3 i bob unigolyn. Mae hyn yn cynnwys chwaraewyr proffesiynol llawn-amser, chwaraewyr dan gontract a chwaraewyr heb gontract.

4) Bydd y tâl cofrestru wedi ei selio ar y gynghrair lle bydd y chwaraer yn cael ei gofrestru. Os bydd chwaraewr yn ymuno â mwy nag un clwb, bydd yn ofynnol iddo dalu tâl cofrestru am bob clwb, ond ni ddisgwylir tâl os bydd yn cael ei drosglwyddo o un clwb i un arall.

5) Nes bydd y chwaraewr yn derbyn cerdyn cofrestru, ni fydd ganddo'r hawl i chwarae mewn unrhyw gêm beldroed sy'n dod dan reolaeth yr FAW neu un o'i chymdeithasau neu'i cynghreiriau.

Rhagwelir y gwneir colled ariannol o tua £150,000 yn ystod y tymor hwn, a thua £112,000 yn nhymor 1985-86. I arbed y colledion ariannol hyn y mae'r cynllun newydd o godi tâl am gofrestru yn hanfodol i ddyfodol yr FAW. Mae'r FAW yn dadlau nad yw tair punt yn swm uchel - mae'n gweithio allan ar gyfartaledd tua 10 ceiniog y gêm bob tymor - yn ôl yr FAW, 'y fargen orau mewn chwaraeon'.

Dadleuon yn Erbyn

Y llynedd, roedd 277 o chwaraewyr wedi eu cofrestru yng Nghyngrair Caernarfon. Yn ôl y cynllun newydd, golygai hyn fod y Gynghrair yn cyfrannu bron i £850 i goffrau'r FAW. Y cwestiwn i'w ofyn yw - ac y mae'n gwestiwn anodd iawn i'w ateb yn hollol gywir - a fyddai Cynghrair Caernarfon yn derbyn gwerth £850 o gyngor, o gymorth, o grantiau, o gyrsiau hyfforddi, o sylw i ieuenctid a bechgyn ysgol etc?

Mae pedwar clwb yn ardal yr 'Eco', ac ar gyfartaledd mae ganddynt tua 15 i 20 o chwaraewyr wedi eu cofrestru. Mae hyn yn golygu y disgwylir i'w chwaraewyr gyfrannu rhwng £180 a £240 yn flynyddol i'r FAW. A fyddent hwythau yn derbyn gwerth hyn o arian o'r FAW?

Mae rhai clybiau eisoes yn gwrthwynebu'r cynllun. Yn y wasg Saesneg lleol, honna Clwb Caernarfon y byddai'r cynllun yn costio £150 y tymor iddynt. Daw hyn a ni'n ôl i'r hen ddadleuon ynglŷn â thaliadau i chwaraewyr - bwriad y cynllun yw i'r chwaraewyr dalu'r deirpunt, ac nid y clwb. Ond mae'n siwr y bydd rhai chwaraewyr yn disgwyl i'r Clwb daluu eu tâl cofrestru cyn y byddant yn fodlon arwyddo iddynt! Os hynny, a all clybiau bychain fforddio bod yn bleidiol i gynllun o'r fath?